# Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg 2023-24



Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

# Rhagair





Rwy'n falch o gyflwyno fy ail adroddiad blynyddol fel Comisiynydd y Gymraeg ar ddiwedd blwyddyn brysur a chyffrous.

Rwyf wedi nodi'n gyson bod sawl elfen i'n gwaith o hybu a hyrwyddo'r Gymraeg, a bod ein gwaith o sicrhau cydymffurfiaeth â dyletswyddau iaith yn mynd law yn llaw â'n gwaith mewn sectorau eraill. Fy nod pendant yw creu mwy o gyfleoedd i bobl Cymru ddefnyddio'r Gymraeg bob dydd.

Wrth gyflawni fy nyletswyddau rheoleiddio, gweithredais yng nghyd-destun y weledigaeth genedlaethol o gynyddu nifer siaradwyr Cymraeg a chynyddu defnydd yr iaith. Rwyf am reoleiddio gyda phwrpas penodol a strategol, gan fod yn glir iawn am yr hyn rydym yn ceisio ei gyflawni yn y pendraw. I gefnogi hyn, byddwn yn datblygu a gosod deilliannau rheoleiddio clir yn ystod 2024.

Yn ystod y flwyddyn hon rydym wedi cyhoeddi ein bwriad i ddatblygu dull o gyd-reoleiddio a chafwyd ymateb ffafriol iawn i'n cynigion wrth i ni ymgysylltu gyda'n prif randdeiliaid a byddwn yn rhoi'r dull hwn ar waith dros y flwyddyn nesaf.

**Mae plant a'n pobl ifanc yn flaenoriaeth i ni, ac rwy'n falch fod dau o'n prif gyhoeddiadau ymchwil dros y flwyddyn ddiwethaf yn canolbwyntio ar eu hanghenion.**

Ar y cyd â'r Comisiynydd Plant fe wnaethom uno i ofyn am wella'r ddarpariaeth ar gyfer gwasanaethau Anghenion Dysgu Ychwanegol drwy'r Gymraeg. Mewn papur polisi ar y pwnc a gyhoeddwyd ar faes Eisteddfod yr Urdd yn Llanymddyfri yn 2023 gofynnwyd i Lywodraeth Cymru flaenoriaethu'r gwaith o drefnu adolygiad cenedlaethol o'r maes a'r ddarpariaeth gaiff ei chynnig ar hyn o bryd drwy'r Gymraeg.

# Rhagair

Yn yr Hydref fe wnaethon ni gyhoeddi gwaith ymchwil newydd yn dilyn ymgynghori gyda dros 1,000 o bobl ifanc 16-18 oed. Ymysg y prif ganfyddiadau oedd bod siaradwyr Cymraeg ifanc yn gweld yr iaith yn fanteisiol i'w gyrfaoedd a bod cyfleoedd i astudio drwy'r Gymraeg yn bwysig iawn iddynt. Nododd y mwyafrif helaeth o ddysgwyr a holwyd mewn ysgolion a cholegau addysg bellach bod eu profiad o addysg cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog yn dda neu'n dda iawn. Mae gennym dystiolaeth gadarn felly er mwyn gwneud gwaith dylanwadu ar bolisi pellach ac mae llais y dysgwyr yn hynod bwerus wrth i ni barhau i ddylanwadu er mwyn gweld newid.

Mae Mesur y Gymraeg yn sefydlu egwyddor pwysig bod gan unigolion ryddid i ddefnyddio'r Gymraeg gydag eraill yng Nghymru. Gyda hynny mewn golwg, roedd yn achosi pryder i mi weld, fel rhan o'n hymchwil blynyddol, fod rhai wedi cael eu hatal rhag siarad Cymraeg yn y gweithle. Penderfynais gynnal gwaith ymchwil pellach er mwyn deall mwy am brofiadau pobl, a'r effaith y caiff y profiadau hynny ar eu defnydd o'r Gymraeg.

Er mwyn i'r iaith ffynnu mae angen iddi gael lle priodol yn y gweithle ac mae prosiect ar waith i adnabod arferion effeithiol yn rhai o'n prif sefydliadau. Bydd hyn yn dylanwadu ar ein gwaith yn y maes gan arwain at fwy o gyfleoedd i'r Gymraeg gael ei defnyddio mewn gweithleoedd. Yn cyd-redeg â hyn mae ein gwaith gyda sefydliadau i hyrwyddo'r gwasanaethau sydd ar gael i'r cyhoedd drwy'r Gymraeg, yn well ac yn fwy effeithiol, yn parhau. Roedd ein trafodaeth yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Moduan yn gyfle gwych i wthio'r cwch i'r dŵr ac roedd yn dda clywed y syniadau a'r ymatebion cadarnhaol.

Yn ystod wythnos y Cynnig Cymraeg cafwyd cyfle i roi sylw dyledus i'r sefydliadau hynny yn y sector breifat ac elusennol sydd wedi ymrwymo i wella a datblygu eu gwasanaethau Cymraeg. Mae'r sefydliadau sydd wedi derbyn y Cynnig Cymraeg bellach wedi croesi'r cant a does dim awgrym fod pethau yn arafu.

O ddatblygu cynlluniau lle mae'r Gymraeg yn weledol, nod ein hymgyrch **Defnyddia dy Gymraeg** oedd ein hannog ni gyd i fanteisio ar unrhyw gyfleoedd i siarad yr iaith a diolch i bawb a gydweithiodd gyda ni ar yr ymgyrch.

Cefais y cyfle i deithio o gwmpas Cymru a chael y wefr o gyfarfod a phrofi'r gwaith gwych mae unigolion a sefydliadau yn ei wneud er mwyn diogelu a hyrwyddo'r Gymraeg yn eu cymunedau. Roedd yn hyfryd trafod gyda phobl ifanc yn ysgol Bro'r Preseli, clywed am gynlluniau penblwydd pwysig Antur Waunfawr, a gweld y gwaith da sydd ar waith yn hybu'r Gymraeg ym Mhrifysgol Wrecsam.

# Rhagair

O weithio gyda sefydliadau, mudiadau o bob math a gyda siaradwyr Cymraeg ym mhobman, gallwn wireddu ein gweledigaeth o fyw mewn gwlad lle mae pobl yn gallu defnyddio'r iaith yn eu bywydau bob dydd.

Mae'r adroddiad hwn yn brawf o'r brwdfrydedd rwyf yn ei weld trwy fy ngwaith.

**Hoffwn annog pawb i ddefnyddio'r gwasanaethau a'r cyfleoedd sydd nawr ar gael i ni ddefnyddio ein Cymraeg.**

Hoffwn ddiolch yn arbennig i'r swyddogion sy'n gweithio gyda fi i gyflawni hyn, ac i'm Panel Cynghori a Phwyllgor Archwilio a Risg.

**Efa Gruffudd Jones**
Comisiynydd y Gymraeg



# Amdanom ni

**HYBU A HWYLUSO'R DEFNYDD O'R GYMRAEG**

- Gweithredu fel rheoleiddiwr safonau'r Gymraeg
- Gweithio gyda sefydliadau o'r sector preifat a'r trydydd sector i gynyddu eu darpariaeth Gymraeg
- Sicrhau statws i'r iaith Gymraeg a'r rhyddid i'w defnyddio
- Safoni enwau lleoedd
- Cydweithio â mudiadau eraill sy'n hyrwyddo'r Gymraeg, a chomisiynwyr a rheoleiddwyr eraill yng Nghymru a thu hwnt
- Dylanwadu ar ddatblygiad polisi a deddfwriaeth er mwyn i'r Gymraeg fod yn ganolog iddynt
- Monitro gweithrediad cynlluniau iaith Gymraeg
- Cynnal ymchwil
- Rhannu gwybodaeth am ein gwaith

# Amdanom ni

**Mae Comisiynydd y Gymraeg eisiau i bobl Cymru allu byw yn Gymraeg. Ein rôl yw hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg. Mae ein gwaith yn arwain at greu mwy o gyfleoedd i siarad a defnyddio'r iaith. Crëwyd y rôl yn y lle cyntaf gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a wnaeth hefyd roi statws swyddogol i'r iaith yng Nghymru.**

## Gweithredu fel rheoleiddiwr safonau'r Gymraeg



Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i nifer o sefydliadau yng Nghymru weithredu yn unol â safonau'r Gymraeg. Dyletswyddau yw'r safonau sydd â'r bwriad o gynyddu'r nifer o wasanaethau sydd ar gael i bobl eu defnyddio yng Nghymru ac i hwyluso eu defnydd ohonynt. Golyga hyn fod yn rhaid i sefydliadau hyrwyddo'r defnydd o'u gwasanaethau. Mae gan y safonau hefyd y bwriad o gynyddu'r cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith, ac yn y gymuned yn achos awdurdodau lleol a pharciau cenedlaethol. Mae gennym gyfrifoldeb statudol i sicrhau bod y sefydliadau hyn yn gweithredu yn unol â'r safonau, sef i reoleiddio eu cydymffurfiaeth.

## Gweithio gyda sefydliadau o'r sector preifat a'r trydydd sector i gynyddu eu darpariaeth Gymraeg



Rydym yn annog sefydliadau yn y sector preifat a'r trydydd sector i gynyddu'r gwasanaethau y maent yn eu darparu yn Gymraeg ac i ymgyrraedd at farc ansawdd y Cynnig Cymraeg. I'w helpu i wneud hyn rydym yn rhannu arfer da a chanllawiau ar sut i gynnig gwasanaethau yn Gymraeg. Er bod y sectorau hyn yn eang rydym yn blaenoriaethu gweithio gyda sefydliadau mawr sy'n darparu'r mwyaf posibl o wasanaethau i'r mwyaf posibl o bobl. Mae nifer o sefydliadau trydydd sector yn cynnig cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg mewn gweithgareddau cymdeithasol a gwirfoddol yn ogystal â darparu gwasanaethau yn Gymraeg. Rydym hefyd yn gweithio gydag arianwyr i'w hannog i osod amodau ieithyddol ar yr arian y byddant yn ei ddyrannu.

# Amdanom ni

## Sicrhau statws i'r iaith Gymraeg a'r rhyddid i'w defnyddio



Gallwn ymchwilio i achosion o bobl yn atal siaradwyr y Gymraeg rhag defnyddio'r iaith â siaradwyr Cymraeg eraill. Mae sefyllfaoedd fel hyn yn gallu digwydd oherwydd agweddau pobl tuag at y Gymraeg a diffyg gwybodaeth amdani. Byddwn yn ceisio deall pryd a pham y bydd achosion fel hyn yn digwydd ac yn gweithio i atal sefyllfaoedd o'r fath rhag digwydd yn y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys codi ymwybyddiaeth yn gyffredinol o statws y Gymraeg a'r rhyddid sydd gan bobl i'w defnyddio, a cheisio cynyddu agweddau cadarnhaol gan bawb yng Nghymru tuag at y Gymraeg.

## Safoni enwau lleoedd



Mae enwau lleoedd o ddiddordeb i bobl mewn cymunedau ar draws Cymru. Rydym yn cydweithio â sefydliadau o bob math i safoni enwau lleoedd Cymru gan wneud hynny ar sail ein canllawiau safoni enwau lleoedd ac mewn cydweithrediad â'n Panel Safoni Enwau Lleoedd. Rydym wedi cyhoeddi cronfa o enwau lleoedd safonol Cymru ac rydym yn gweithio i sicrhau y bydd y ffurfiau safonol hyn yn cael eu defnyddio yn gyson trwy Gymru gan sefydliadau o bob math. Rydym hefyd yn cyfrannu at ymdrechion i amddiffyn a hyrwyddo'r defnydd o enwau lleoedd Cymraeg.

# Amdanom ni

## Cydweithio â mudiadau eraill sy'n hyrwyddo'r Gymraeg, a chomisiynwyr a rheoleiddwyr eraill yng Nghymru a thu hwnt



Rydym yn cydweithio â chyrff eraill yng Nghymru sy'n hyrwyddo'r Gymraeg a gyda chomisiynwyr a rheoleiddwyr eraill yng Nghymru a Phrydain. Mae sawl comisiynydd iaith arall yn y byd sy'n gweithio i hwyluso'r defnydd o ieithoedd yn genedlaethol ac yn fwy lleol yn eu gwledydd. Rydym yn dysgu am eu gwaith a'u profiadau hwythau ac yn rhannu ein profiadau a'r arferion da y gwelwn ninnau wrth ein gwaith gyda hwy. Gwnawn hynny yn bennaf drwy ein haelodaeth o Gymdeithas Ryngwladol y Comisiynwyr Iaith.

## Dylanwadu ar ddatblygiad polisi a deddfwriaeth er mwyn i'r Gymraeg fod yn ganolog iddynt



Rydym yn dylanwadu ar ddatblygiad polisi a deddfwriaeth er mwyn sicrhau bod y Gymraeg yn rhan annatod o bolisi cyhoeddus. Gwnawn hynny drwy flaenoriaethu gweithio mewn meysydd polisi sy'n effeithio ar gyfleoedd pobl i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg o ddydd i ddydd megis y sector addysg, y sector iechyd a gofal cymdeithasol a chynllunio, a datblygu economaidd. Gan amlaf, rydym yn canolbwyntio ar faterion cenedlaethol a strategol sy'n golygu ein bod yn craffu a dylanwadu ar bolisïau a deddfwriaeth a gyflwynir gan Lywodraeth Cymru yn bennaf. Wrth ein gwaith rydym yn ymwneud â sefydliadau eraill sy'n gyfrifol am lunio neu weithredu polisi ar lefel genedlaethol neu â dylanwad ar ddatblygiad polisi cenedlaethol. Rydym hefyd yn craffu ar waith Senedd Cymru, ac ar ddeddfwriaeth yn San Steffan mewn meysydd nas datganolwyd sy'n effeithio ar y Gymraeg megis y maes darlledu. Er ein bod yn aml yn ymateb i ddatblygiadau polisi sefydliadau eraill rydym hefyd yn gweithio'n rhagweithiol i osod ein hagenda polisi ein hunain yn y meysydd sydd o flaenoriaeth i'r defnydd o'r Gymraeg.

# Amdanom ni

## Monitro gweithrediad cynlluniau iaith Gymraeg



Mae rhai sefydliadau cyhoeddus yng Nghymru yn darparu gwasanaethau Cymraeg yn unol â'u cynlluniau iaith Gymraeg sydd â'r bwriad o sicrhau eu bod yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth eu gwaith. Maent wedi paratoi'r cynlluniau hyn oherwydd gofynion Deddf yr Iaith Gymraeg 1993. Rydym yn rhoi cyngor a chymorth iddynt ddarparu eu gwasanaethau yn Gymraeg ond nid oes gennym bwerau i'w gorfodi i weithredu yn unol â'u cynlluniau iaith. Sefydliadau Llywodraeth y Deyrnas Unedig a chyrff y Goron yw'r sefydliadau hyn yn bennaf.

## Cynnal ymchwil



Mae gennym ddiddordeb mewn ymchwil o bob math sy'n ymwneud â chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg a ieithoedd lleiafrifol eraill yn rhyngwladol. Rydym yn cynnal gwaith ymchwil i geisio gosod sail tystiolaeth i'n gwaith ac i fesur a ydym yn cyflawni ein hamcanion. Bob pum mlynedd mae'n ofynnol inni gyhoeddi adroddiad ar sefyllfa'r Gymraeg. Yn 2026 byddwn yn cyhoeddi Adroddiad 5 mlynedd a fydd yn adrodd ar ganlyniadau'r cyfrifiad ac asesiad o oblygiadau'r canlyniadau hynny i sefyllfa'r Gymraeg.

# Amdanom ni


## Rhannu gwybodaeth am ein gwaith





Rydym yn rhannu gwybodaeth am ein holl waith yn hybu a hwyluso defnyddio’r Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys tynnu sylw at y cyfleoedd sydd yna ar draws Cymru i ddefnyddio’r Gymraeg gyda’r sefydliadau y byddwn yn cydweithio â hwy wrth ein gwaith. Rydym yn rhannu arferion da am sut mae datblygu a hyrwyddo’r gwasanaethau a’r cyfleoedd hynny.










# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhan 1: Adroddiad Perfformiad | 12-66 |
| Rhan 2: Atebolrwydd | 67-105 |
| Rhan 3: Datganiadau Ariannol | 106-128 |

# Adroddiad Perfformiad

**Mae ein Cynllun Strategol am y cyfnod 2023-2025 yn gosod yr amcanion strategol canlynol, ac mae'r adroddiad hwn yn nodi ein cynnydd yn erbyn yr amcanion hynny yn ystod 2023-24.**

**Amcan 1:**

Sicrhau tegwch, cyfiawnder a hawliau i siaradwyr Cymraeg



**Amcan 2:**

Sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hystyried mewn polisi a deddfwriaeth



**Amcan 3:**

Cynnal a chynyddu cydymffurfiaeth sefydliadau gyda'u dyletswyddau statudol



**Amcan 4:**

Cynyddu defnydd o'r Gymraeg gan sefydliadau ar draws pob sector



# Cipolwg ar y flwyddyn

Mae 131 o gyrff bellach yn ddarostyngedig i safonau'r Gymraeg

Mae 109 o fudiadau o'r sector preifat a'r trydydd sector wedi derbyn ardystiad y Cynnig Cymraeg

Cymerwyd 280 o gamau i adfer neu orfodi cydymffurfiaeth yn ystod 2023-2024

79% o ymatebwyr yn cytuno eu bod fel arfer yn gallu delio â sefydliadau yn Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny (sy'n codi i 86% o'r ymatebwyr rhugl)

Ymatebwyd i 22 ymgynghoriad cyhoeddus ym meysydd addysg a sgiliau, cymwysterau, iechyd a gofal, amaeth, darlledu, tai, datblygu economaidd a chymunedau Cymraeg yn ystod 2023-2024

74% o ymatebwyr yn cytuno bod gwasanaethau Cymraeg sefydliadau cyhoeddus yn gwella

Darparu cyngor arbenigol i Barc Cenedlaethol Eryri, Cyfoeth Naturiol Cymru a Chomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru, gan ddylanwadu ar Arolwg Ordnans i ddiweddaru eu mapiau a'u cronfeydd data â'r ffurfiau safonol

Gwelwyd cynnwys ein hymgyrch Defnyddia dy Gymraeg 110,000 o weithiau ar draws ein platfformau digidol, a chydweithiwyd gyda dros 100 o sefydliadau

250 wedi mynychu digwyddiadau mewn partneriaeth â'r Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol i drafod sut y gall sefydliadau cyhoeddus greu cynnwys dwyieithog

# Gosod y cyd-destun o ran y Gymraeg



Cyhoeddwyd ein hadroddiad blynyddol llynedd yn dilyn cyhoeddi canlyniadau Cyfrifiad 2021. Dros y flwyddyn ddiwethaf mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) a Llywodraeth Cymru wedi cychwyn ar gynllun gwaith i geisio deall yn well pam fod canlyniadau'r Cyfrifiad a chanlyniadau Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth mor wahanol o safbwynt y Gymraeg. Mae'r SYG hefyd wedi cynnal ymgynghoriad ar ddyfodol ystadegau ar y boblogaeth a mudo yng Nghymru a Lloegr gan geisio barn ynghylch yr angen i gynnal cyfrifiad eto. Bydd canlyniadau'r gwaith hyn yn arwyddocaol o ystyried pwysigrwydd hanesyddol canlyniadau'r cyfrifiad fel sylfaen i ymdrechion cynllunio ieithyddol yng Nghymru. Mae gan y gwaith y potensial i drawsnewid sut rydym yn casglu gwybodaeth am allu yn y Gymraeg, a hefyd sut rydym yn cefnogi'r broses o osod a gwerthuso polisi cyhoeddus am y Gymraeg yn y dyfodol.

Gwelwyd eleni hefyd gyhoeddi canlyniadau'r Arolwg Defnydd Iaith diweddaraf, sy'n cynnwys manylder ynghylch arferion defnydd siaradwyr Cymraeg o'r iaith yn y gweithle, yn gymdeithasol, yn y cartref ac mewn addysg. Roedd penawdau'r arolwg yn dangos canlyniadau tebyg i'r arolwg diwethaf yn 2013-15 gyda 10% o'r boblogaeth tair oed neu hŷn yng Nghymru yn siarad Cymraeg bob dydd, dros hanner (56%) o siaradwyr Cymraeg yn siarad yr iaith bob dydd, a 43% o siaradwyr Cymraeg wedi cychwyn siarad yr iaith gartref yn blant ifanc.

**10% o'r boblogaeth tair oed neu hŷn yng Nghymru yn siarad Cymraeg bob dydd** — **10%**

**Dros hanner (56%) o siaradwyr Cymraeg yn siarad yr iaith bob dydd** — **56%**

**43% o siaradwyr Cymraeg wedi cychwyn siarad yr iaith gartref yn blant ifanc** — **43%**

# Gosod y cyd-destun o ran y Gymraeg

Does dim dwywaith mai maes polisi addysg yw un o gonglfeini strategaeth iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru. Dros y flwyddyn ddiwethaf bu i'r gwaith pwysig o gyflwyno'r cwricwlwm newydd yn ysgolion Cymru barhau. Rhan bwysig o'r gwaith hwn yw datblygu'r cymwysterau fydd yn cyd-fynd â'r cwricwlwm newydd. Yn dilyn cyhoeddi eu penderfyniadau terfynol ar y cymwysterau TGAU newydd fydd ar gael i'w dysgu o 2025 ymlaen, fe ymgynghorodd Cymwysterau Cymru ar y cynnig ehangach o gymwysterau fydd ar gael i ddysgwyr 14-16 yn y dyfodol. Rhan bwysig o'r cynnig hwn wrth gwrs yw sicrhau bod cymwysterau iaith Gymraeg yn cefnogi polisi Llywodraeth Cymru o sicrhau bod holl ddisgyblion Cymru yn symud ynghynt ac ymhellach ar hyd continwwm iaith Gymraeg. Daeth cwmni Adnodd Cyfyngedig yn weithredol dros y flwyddyn ddiwethaf hefyd, a bydd ei waith yn goruchwylio darpariaeth o adnoddau addysgol dwyieithog yn hanfodol er mwyn cyflawni amcanion y cwricwlwm a'r cymwysterau newydd.

Mae'r cysyniad hwn o symud holl ddisgyblion ar hyd continwwm iaith Gymraeg yn ganolog i ddau o ddatblygiadau mwyaf arwyddocaol o safbwynt y Gymraeg dros y flwyddyn ddiwethaf. Y cyntaf oedd cyhoeddi papur gwyn ar gyfer Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru). Nid yw'n ormodiaeth dadlau fod hwn yn ddatblygiad hanesyddol i'r Gymraeg ym myd addysg; am y tro cyntaf fe fydd rhai o dargedau ac ymrwymiadau pwysicaf strategaeth iaith y Llywodraeth yn cael eu gosod mewn deddfwriaeth gan osod cyfeiriad clir a chadarn i ddatblygiad addysg Gymraeg yng Nghymru. O gofio fod dilyniant ieithyddol yn rhan annatod o'r cysyniad continwwm ieithyddol, roedd dyfodiad y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil yn ddatblygiad arwyddocaol arall eleni. Yn dilyn cyhoeddi datganiad o flaenoriaethau strategol gan Weinidogion Cymru mae gwaith y Comisiwn o baratoi cynllun strategol yn prysur ddatblygu. Mae'n arwyddocaol fod y datganiad o flaenoriaethau yn gosod disgwyliad pendant ar y Comisiwn i gynllunio'n strategol ar gyfer cynyddu a gwella'r ddarpariaeth addysg ac asesu cyfrwng Cymraeg yn y system drydyddol gyfan.



# Gosod y cyd-destun o ran y Gymraeg

Y tu hwnt i'r byd addysg gwelwyd hefyd ddatblygiadau arwyddocaol ym maes iechyd a gofal. Mae cynllun Mwy na Geiriau 2022-27 yn gosod llwybr ar gyfer gwreiddio'r Gymraeg mewn iechyd a gofal cymdeithasol. Cadarnhaol oedd gweld y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn sefydlu Bwrdd Cynghori a fydd yn monitro ac yn craffu ar gynnydd yn erbyn y cynllun.

Â chanlyniadau Cyfrifiad 2021 yn dangos gostyngiad yng nghanran y siaradwyr Cymraeg yn y cymunedau hynny lle mae'r Gymraeg wedi bod ar ei chryfaf, cadarnhaol oedd gweld ffrwyth gwaith y Comisiwn Cymunedau Cymraeg wrth iddynt gyhoeddi papur safbwynt cychwynnol yn ystod Eisteddfod yr Urdd, 2023. Roedd y papur yn rhoi amlinelliad o ganfyddiadau cychwynnol y Comisiwn ac yn nodi'r meysydd allweddol fyddai'n sail i'w adroddiad terfynol fydd yn cael ei gyhoeddi yn haf 2024.

Bydd y flwyddyn nesaf yn gweld datblygiadau pellach yn y meysydd uchod, yn enwedig o safbwynt gosod Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru) a chyflwyno adroddiad terfynol y Comisiwn Cymunedau Cymraeg. Ac ystyried fod y cyd-destun ehangach hwn yn dylanwadu yn uniongyrchol ar ein gwaith ni a'r hyn rydym yn ceisio ei gyflawni, bydd parhau i gyfrannu'n adeiladol at y gwaith yn flaenoriaeth i ni wrth symud ymlaen.









# Amcan 1: Sicrhau tegwch, cyfiawnder a hawliau i siaradwyr Cymraeg

**Blaenoriaethau 2022–2025**

Ymgysylltu gyda'r cyhoedd gan wrando ac ystyried yr hyn gaiff ei fynegi yn deg a chytbwys. Gweithredu ar ran pobl, boed yn weithwyr neu aelodau'r cyhoedd, os ydynt yn wynebu rhwystrau wrth ddefnyddio'r Gymraeg. Cymryd bob cyfle i estyn allan at gynulleidfa ehangach.

Codi ymwybyddiaeth am yr hawliau cyfreithiol sydd gan ddefnyddwyr y Gymraeg gan gymryd pob cyfle i estyn allan at gynulleidfa ehangach.

Gweithredu trefn gwyno effeithiol sy'n atal methiannau rhag parhau neu gael eu hail adrodd.

Addysgu a rhannu gwybodaeth am ganlyniadau arwyddocaol gwaith achos gyda chynulleidfaoedd targed o bob math.

Cynnal darnau gwaith ymatebol sy'n ceisio darganfod a oes gan rai grwpiau o ddefnyddwyr y Gymraeg fwy o anawsterau i arfer eu hawliau oherwydd eu hamgylchiadau a gwneud argymhellion i'w cefnogi.

Gosod safonau ar gyrff mewn modd amserol unwaith i safonau gael eu cyflwyno gan y Senedd. O fewn oes y cynllun hwn ac yn unol â Chytundeb Rhyngweithio Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru, disgwylir gwneud hynny ar gyfer y sefydliadau canlynol; trafnidiaeth gyhoeddus, rheoleiddwyr yn y sector iechyd, sefydliadau cyhoeddus sy'n dal y tu allan i'r gyfundrefn safonau ar hyn o bryd a chwmnïau dŵr.



# Amcan 1: Sicrhau tegwch, cyfiawnder a hawliau i siaradwyr Cymraeg

## Gwrando ar bobl Cymru

Gall unrhyw un gysylltu â'r Comisiynydd am fater sy'n eu poeni am yr iaith Gymraeg. Rydyn ni yma i wrando ac i gymryd camau a fydd yn arwain at newid.






# Amcan 1: Sicrhau tegwch, cyfiawnder a hawliau i siaradwyr Cymraeg

## Arolwg barn

Er mwyn sicrhau ein bod yn gwrando ac yn deall yr hyn sydd gan bobl i'w ddweud, rydym yn comisiynu arolwg blynyddol o farn siaradwyr Cymraeg o wasanaethau Cymraeg sefydliadau cyhoeddus a'u barn ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Roedd 408 o ymatebwyr dros 16 o bob awdurdod lleol yng Nghymru yn rhan o'r sampl, gyda thrawstoriad mewn oed, dosbarth cymdeithasol a lleoliad daearyddol.

Roedd 23% o'r ymatebwyr o'r farn bod eu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg wedi cynyddu dros y flwyddyn flaenorol, a 53% o'r farn bod cyfleoedd wedi aros yr un peth.

**23%**

Mae 17% o'r sampl yn nodi ei bod yn well ganddyn nhw ddefnyddio'r Gymraeg gyda sefydliadau cyhoeddus, 54% yn nodi bod yn well ganddyn nhw ddefnyddio'r Saesneg, a 29% yn nodi ei bod yn amrywio.

**17%**

O'r siaradwyr rhugl, mae gwell gan 33% ddefnyddio'r Gymraeg.

**33%**

Rhai o'r ffactorau pennaf sy'n effeithio ar ddewis iaith yw'r pwnc neu ddefnydd o eirfa dechnegol (37%), hyder personol a theimlo'n gyfforddus i ddefnyddio'r Gymraeg (16%), argaeledd siaradwr Cymraeg (11%) a'r person arall yn siarad Cymraeg yn gyntaf (7%).

**37%**

# Amcan 1: Sicrhau tegwch, cyfiawnder a hawliau i siaradwyr Cymraeg



79% o'r ymatebwyr yn cytuno eu bod fel arfer yn gallu delio â sefydliadau yn Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny (sy'n codi i 86% o'r ymatebwyr rhugl).

**79%**

74% yn cytuno bod gwasanaethau Cymraeg sefydliadau cyhoeddus yn gwella.

**74%**

75% yn cytuno bod sefydliadau cyhoeddus yn gofyn iddynt ym mha iaith yr hoffent ddelio â nhw.

**75%**

65% o'r rhai a ymatebodd yn cytuno eu bod yn fwy tebygol o ddefnyddio gwasanaethau Cymraeg os yw sefydliadau yn ei gwneud yn glir eu bod ar gael.

**65%**

# Amcan 1: Sicrhau tegwch, cyfiawnder a hawliau i siaradwyr Cymraeg

## Sicrhau cyfiawnder i siaradwyr Cymraeg

Mae'r Comisiynydd eisiau gweld pobl Cymru yn derbyn gwasanaethau Cymraeg o ansawdd uchel gan sefydliadau ac i bethau gael eu cywiro pan fyddant yn mynd o chwith.

Os yw pethau yn mynd o chwith, rydym yn annog sefydliadau i gysylltu â ni yn gynnar i'n gwneud yn ymwybodol o hynny. Os nad yw pobl Cymru yn fodlon â'r gwasanaeth y maent wedi ei dderbyn, maent yn gallu cysylltu gyda ni.




**100**

Nifer y cwynion am fethiant honedig i gydymffurfio â safonau'r Gymraeg

95 yn gwynion dilys

**27**

Nifer y cwynion am fethiant honedig i gydymffurfio â chynllun iaith

12 yn rhai dilys. Mae angen i unigolion gwyno wrth y sefydliad cyn bod ganddynt hawl gwneud cwyn i'r Comisiynydd.

**122**

Nifer yr ymholiadau a dderbyniwyd gan y cyhoedd yn ystod y flwyddyn

# Amcan 1: Sicrhau tegwch, cyfiawnder a hawliau i siaradwyr Cymraeg

Wrth dderbyn cwynion, rydym yn ystyried y camau y gallwn eu cymryd i wneud yn siŵr bod y sefyllfa'n cael ei datrys. Gallwn fynd â'r materion hyn at y sefydliadau, gan nodi'r angen i gydymffurfio â safonau'r Gymraeg. Rydym hefyd yn cynnal ymchwiliadau.

Pan fo ymchwiliadau yn canfod diffyg cydymffurfiaeth â safonau'r Gymraeg, mae'r Comisiynydd yn rhoi cyngor ac yn gosod camau gorfodi ar sefydliadau. Canlyniad hynny yw bod sefydliadau'n cynyddu'r cyfleoedd sydd ar gael i bobl ddefnyddio'r Gymraeg â nhw.



**280**

**Nifer y camau a gymerwyd gan y Comisiynydd i adfer neu orfodi cydymffurfiaeth**

**1**

**Nifer yr argymhellion a roddwyd yn sgîl ymchwiliadau o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993**

# Amcan 1: Sicrhau tegwch, cyfiawnder a hawliau i siaradwyr Cymraeg

## Sector iechyd

Yn ein hadroddiad sicrwydd ar gyfer 2022/23, rhoddwyd her i'r sector iechyd fynd ati i gael gwared â'r ansicrwydd sydd i ddefnyddwyr y Gymraeg. Mae nifer o ymchwiliadau yn ystod y flwyddyn wedi arwain byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau'r GIG at wella gwasanaethau yn y Gymraeg.

Drwy ymchwilio i wefannau Bwrdd Iechyd Cwm Taf, mae'r Bwrdd Iechyd mewn cydweithrediad â Iechyd a Gofal Digidol Cymru wedi llwyddo i ddatblygu ategyn, 'Cynnwys Cyfatebol Awtomatig', sydd yn sicrhau fod tudalennau Cymraeg yn cael eu creu i gyd-fynd â'r holl gynnwys Saesneg. Mae'r datblygiad yma bellach wedi ei rannu ar draws y sector iechyd sydd yn golygu y bydd profiadau defnyddwyr yn gwella.

Mae ein gwaith ymchwilio a gorfodi hefyd wedi galluogi bob Bwrdd Iechyd ac Ymddiriedolaeth y GIG i ddatblygu cynllun 5-mlynedd ar gyfer cynyddu eu gallu i gynnig ymgynghoriadau clinigol yn y Gymraeg.







# Amcan 1: Sicrhau tegwch, cyfiawnder a hawliau i siaradwyr Cymraeg

## Ystyried effeithiau polisi ar y Gymraeg

Agorwyd ymchwiliad i benderfynu a oedd dogfen ymgynghori Cyngor Dinas Caerdydd ar y gyllideb ar gyfer 2023/24 yn cydymffurfio gyda safonau'r Gymraeg. Dyfarnwyd bod methiant i gydymffurfio gyda'r tair safon gan nad oedd ystyriaeth i effeithiau'r polisi ar y Gymraeg o fewn y ddogfen, na chwestiynau yn cael eu gofyn am yr effeithiau posib ar y Gymraeg. Gosodwyd camau gorfodi er mwyn mynd i'r afael â'r methiant yma.

Wedi ni gysylltu gyda'r Cyngor, cawsom ymateb cadarnhaol yn dweud ei fod wedi rhoi dull newydd ar waith er mwyn cryfhau'r broses o ddatblygu polisi ac ymgynghori. Mae'r Cyngor bellach wedi sefydlu cyfeiriad e-bost mewnol newydd ar gyfer materion polisi Cymraeg, sy'n cael ei hyrwyddo fel lle i fynd er mwyn cael cymorth ac arweiniad. Mae'r gwaith hwn o annog a chydweithio gyda sefydliadau yn sicrhau bod newid yn digwydd a hynny er budd yr iaith Gymraeg a'i siaradwyr.



## Codi ymwybyddiaeth o wasanaethau Cymraeg

Mewn ymateb i gamau gorfodi a osodwyd yn sgil ymchwiliad i dudalennau Facebook y Cyngor, fe ddyluniodd a gweithredodd Cyngor Dinas Caerdydd brosiect o'r enw 'Ymwybyddiaeth y Cyfrif Facebook Cymraeg'. Dangosodd y prosiect, a ddefnyddiodd nifer o ddulliau ar gyfer cynyddu ymwybyddiaeth fewnol ac allanol o'r dudalen Gymraeg, gynnydd o 80.6% yn nilynwyr newydd y dudalen o fewn chwe mis.

# Amcan 1: Sicrhau tegwch, cyfiawnder a hawliau i siaradwyr Cymraeg




## Mwy o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg gyda sefydliadau

Mae'r Comisiynydd wedi gosod safonau'r Gymraeg ar 131 o sefydliadau cyhoeddus, ac mae'n gweithredu rhaglen o osod safonau ar ragor o sefydliadau yn y dyfodol.

Yn ystod 2023-24, gosodwyd hysbysiadau cydymffurfio ar naw o reoleiddwyr y proffesiynau iechyd a Llais y Dinesydd. Mae Llais y Dinesydd yn gorff annibynnol o'r Llywodraeth, y GIG ac awdurdodau lleol. Mae'n cynrychioli llais a barn pobl Cymru ynglŷn â gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Bydd y safonau a osodir ar y pedwar CBCau yn dod i rym yn ystod 2024-25.

- Wedi i Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 9) 2023 ddod i rym, cychwynnodd trafodaethau gyda'r cwmnïau dŵr a charthffosiaeth yn ystod y flwyddyn. Bydd hyn yn arwain at gyflwyno hysbysiad cydymffurfio safonau'r Gymraeg iddynt yn ystod 2024/25.

| | |
|---|---|
| **Nifer y sefydliadau a ddaeth yn ddarostyngedig i safonau'r Gymraeg** | **10** |
| **Nifer o gynlluniau iaith newydd neu ddiwygiedig wedi eu cymeradwyo** | **10** |
| **Nifer yr heriau wedi eu derbyn a'u prosesu yn unol â gofynion gweithdrefn y Comisiynydd** | **4** |

# Amcan 1: Sicrhau tegwch, cyfiawnder a hawliau i siaradwyr Cymraeg

Mae nifer o sefydliadau cyhoeddus nad ydynt ar hyn o bryd yn gweithredu safonau'r Gymraeg yn parhau i weithredu cynlluniau iaith o dan gyfundrefn Deddf yr Iaith Gymraeg 1993. Mae cynlluniau iaith Gymraeg yn nodi sut y bydd sefydliad yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal. Yn ystod y flwyddyn, fe wnaeth y Comisiynydd gymeradwyo 10 cynllun iaith newydd neu ddiwygiedig.

- Mae Swyddfa Ystadegau Gwladol a'r Asiantaeth Swyddfa Brisio yn ystyried y ffordd y maent yn cynllunio a monitro eu darpariaethau Cymraeg gan benodi swyddogion iaith a thimau penodol.

- Gwelwyd addasiadau pwysig hefyd i gynllun iaith DVLA gan sicrhau bod y cynllun cyfredol yn cynnwys ymrwymiadau cadarn ynglŷn â'u gwasanaethau ar-lein.



# Amcan 1: Sicrhau tegwch, cyfiawnder a hawliau i siaradwyr Cymraeg

### Ymchwil newydd i brofiadau siaradwyr y Gymraeg

Cynhaliwyd grwpiau ffocws ar lein gyda thrawstoriad o siaradwyr Cymraeg. Mewn arolwg a gynhaliwyd, roedd canran sylweddol o siaradwyr Cymraeg wedi cael profiad o rywun arall yn eu hatal rhag siarad yr iaith yn eu bywydau bob dydd.



**18% wedi profi rhywun yn ymyrryd gyda'u rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg dros y 12 mis diwethaf ond roedd hynny yn cynyddu i 29% o'r rheiny a holwyd rhwng 16 a 34 oed.**

Roedd sylwadau negyddol am eu defnydd o'r Gymraeg yn golygu bod siaradwyr yn llai tebygol o ddefnyddio'r Gymraeg yn y dyfodol.

Er bod enghreifftiau penodol wedi eu crybwyll gan y grwpiau ffocws, roedd yr ymatebwyr yn gytûn mai anaml oedd yr achlysuron pan fu unrhyw fath o wrthwynebiad i'w defnydd o'r Gymraeg. Roedd llawer o'r profiadau negyddol yn achosion pan oedd eraill yn cywiro defnydd pobl o'r Gymraeg. Profodd siaradwyr Cymraeg o bob gallu hyn, yn enwedig dysgwyr, pobl ifanc a'r rhai nad oedd y Gymraeg yn iaith gyntaf iddynt.

Roedd sylwadau am eu sgiliau yn y Gymraeg gan siaradwyr Cymraeg yn debygol o gael effaith ar hyder y rhai yn y grwpiau ffocws. Roedd hyn yn golygu y bydden nhw yn llai tebygol o ddefnyddio'r iaith yn y dyfodol. Roedd sylwadau negyddol am yr iaith gan y rheiny nad oeddent yn medru'r Gymraeg, neu rai a oedd yn dod o'r tu allan i Gymru, yn debygol o wneud y siaradwyr Cymraeg yn fwy penderfynol o ddefnyddio'r iaith.

Byddwn yn ystyried pa gamau pellach y gallwn eu cymryd yn ystod y flwyddyn i fynd i'r afael â rhai o'r materion sy'n codi o'r gwaith ymchwil newydd hwn, gan gynnwys codi ymwybyddiaeth o'r egwyddor gyfreithiol y sefydlir drwy Ran 6 y Mesur fod gan unigolion ryddid i ddefnyddio'r Gymraeg.

# Amcan 1: Sicrhau tegwch, cyfiawnder a hawliau i siaradwyr Cymraeg

## Rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg

Gall pobl Cymru siarad Cymraeg gydag unrhyw unigolyn arall sydd eisiau defnyddio'r Gymraeg heb i unrhyw un eu rhwystro. Rydym yn edrych ar bob cais sy'n ein cyrraedd gan ystyried yn ofalus a oes posib i ni ymchwilio ac i weld newid yn digwydd.

- Derbyniwyd cais gan aelod o'r cyhoedd a oedd yn honni bod aelod staff cwmni preifat wedi gwrthod siarad Cymraeg gyda nhw mewn sgwrs dros y ffôn, a hynny am nad oedd y cwmni yn caniatáu hynny. Yn dilyn gwneud ymholiadau cychwynnol, fe gadarnhaodd y cwmni nad oedd ganddynt bolisi sy'n rhwystro'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle, ac mai camddealltwriaeth ar ran yr aelod o staff newydd oedd dan sylw yma. Penderfynwyd peidio ag ymchwilio am nad oedd yr honiad yn cwrdd â'r diffiniad a geir ym Mesur y Gymraeg o ymyrraeth â rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg.

- Cysylltodd unigolyn arall i ddweud fod aelod o staff corff iechyd cenedlaethol wedi gofyn iddi beidio â siarad Cymraeg wrth sgwrsio â chydweithiwr yn y gwaith.  Yn eu hymateb, fe ymddiheurodd y corff gan nodi camau pendant roeddent am eu cymryd i atal digwyddiadau tebyg rhag digwydd eto.



# Amcan 1: Sicrhau tegwch, cyfiawnder a hawliau i siaradwyr Cymraeg

## Diwrnod Defnyddia dy Gymraeg


Cynhaliwyd ymgyrch yn ystod Rhagfyr 2023 i annog pobl i ddefnyddio eu Cymraeg ymhob sefyllfa. Y nod oedd annog pawb, ym myd busnes, yn yr ysgol, neu ar y maes chwarae i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywyd a'u gwaith o ddydd i ddydd ac i annog sefydliadau a mudiadau o bob math i ddarparu gwasanaethau Cymraeg. Crëwyd cyfres o ffilmiau yn amlygu'r defnydd o'r Gymraeg mewn gwahanol sefyllfaoedd.














# Amcan 1: Sicrhau tegwch, cyfiawnder a hawliau i siaradwyr Cymraeg

Yng ngharchar y Parc ym Mhen-y-Bont mae sicrhau cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn hollbwysig yn ôl cydlynydd y Gymraeg yno, Bethan Chamberlain,

**'Mae 'na bwyslais yma ar hybu'r iaith a'r diwylliant a hynny ar gyfer y carcharorion o Gymru a hefyd y rhai o Loegr fel eu bod yn sylweddoli bodolaeth yr iaith a'i phwysigrwydd i Gymru. Mae yma nifer sydd wedi derbyn addysg Gymraeg ond wedi mynd allan o'r arfer o'i defnyddio ac yn awyddus i ail gysylltu, eraill sydd yn Gymry Cymraeg ac am gyfathrebu drwy'r iaith a nifer bellach sydd yn awyddus i ddysgu'r iaith gan fod eu plant yn derbyn addysg Gymraeg. Mae yna ddiddordeb hefyd ymysg y staff ac rydym yn cynnig y cyfleoedd i unrhyw un ddysgu a defnyddio'r iaith.'**

Meddai Efa Gruffudd Jones, Comisiynydd y Gymraeg, mewn datganiad i'r wasg a ryddhawyd am yr ymgyrch,

**'Rwy'n cael y cyfle i ymweld ag amryw o sefydliadau, yn fusnesau, ysgolion, canolfannau cymunedol a charchardai hyd yn oed. Mae hi bob amser yn braf clywed y Gymraeg yn cael ei siarad yn naturiol yn y lleoedd hyn a phobl yn ymfalchïo yn yr iaith.'**



# Amcan 2: Sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hystyried mewn polisi a deddfwriaeth

**Blaenoriaethau 2022–2025**

Cynllunio adroddiad 5-mlynedd ar sefyllfa'r Gymraeg (2021–25) a fydd yn cynnwys dadansoddiad o ganlyniadau Cyfrifiad 2021 ac asesiad o'u goblygiadau, i'w gyhoeddi yn 2026.

Meithrin dealltwriaeth o waith comisiynwyr iaith ac asiantaethau eraill ledled y byd a rhoi llwyfan i arferion llwyddiannus o Gymru.

Craffu ar ddeddfwriaeth sy'n effeithio ar y Gymraeg.

Dylanwadu ar bolisi sy'n effeithio ar y Gymraeg.

Cydweithio a rhannu gwybodaeth â phartneriaid perthnasol i ddylanwadu ar bolisi a deddfwriaeth a chyfrannu yn adeiladol at drafodaethau yn ymwneud â meysydd sy'n effeithio ar y Gymraeg.

Ymchwilio ac adrodd ar sefyllfa'r Gymraeg a siaradwyr Cymraeg mewn meysydd polisi er mwyn gosod sail tystiolaeth ar gyfer safbwyntiau'r Comisiynydd.

Cydweithio a rhannu gwybodaeth â phartneriaid perthnasol i ddylanwadu ar bolisi a deddfwriaeth a chyfrannu yn adeiladol at drafodaethau yn ymwneud â meysydd sy'n effeithio ar y Gymraeg.



# Amcan 2: Sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hystyried mewn polisi a deddfwriaeth



## Ystadegau

**22**

**Ymateb i 22 ymgynghoriad cyhoeddus ym meysydd addysg a sgiliau, cymwysterau, iechyd a gofal, amaeth, darlledu, tai, datblygu economaidd a chymunedau Cymraeg**

**105**

**Cynnal 105 cyfarfod gyda 44 endid gwahanol sy'n berthnasol i'n gwaith dylanwadu ar bolisi**

**7**

**Cael ein gwahodd i roi tystiolaeth ar lafar neu yn ysgrifenedig 7 gwaith ym meysydd addysg, darlledu, etholiadau mewn pwyllgorau yn y Senedd ac yn San Steffan**

**4**

**Cyhoeddi 4 adroddiad polisi rhagweithiol yn ystod y flwyddyn.**

## Ffocws ar ein gwaith ym maes addysg a sgiliau

Y system addysg a hyfforddiant yw'r prif ddull o greu siaradwyr Cymraeg. Mae sicrhau bod polisïau cenedlaethol ym maes addysg a sgiliau yn galluogi mwy o blant a phobl ifanc i siarad a defnyddio'r Gymraeg yn hyderus yn flaenoriaeth i ni.

Bu'n flwyddyn gyffrous ym maes polisi addysg, gyda'r Llywodraeth yn cyflwyno Papur Gwyn ar eu cynigion ar gyfer Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru). Bu dylanwadu ar ddatblygiad y cynigion deddfwriaethol hyn yn flaenoriaeth i ni, ac mae'n arwyddocaol fod y Papur Gwyn yn cynnig gosod rhai o dargedau ac ymrwymiadau pwysicaf strategaeth iaith y Llywodraeth mewn deddfwriaeth. Roedd ein hymateb i'r ymgynghoriad yn gofyn i'r Llywodraeth gryfhau nifer o elfennau, gan gynnwys y pwyslais ar ehangu addysg cyfrwng Cymraeg a chynllunio gweithlu addysg cynyddol ddwyieithog.

Rhan hollbwysig o'r daith i gyflwyno Cwricwlwm newydd i Gymru yw datblygu'r system o gymwysterau 14-16 a fydd ar gael i ddysgwyr yng Nghymru. Yn ogystal â pharhau i ddylanwadu ar y broses o lunio cymwysterau TGAU Cymraeg, fe wnaethom ymateb i ymgynghoriad Cymwysterau Cymru ar y cynnig llawn o gymwysterau 14-16 a fydd yn cael eu datblygu. Yn sgil pryderon a godwyd gennym ni a nifer o randdeiliaid eraill, mae Cymwysterau Cymru wedi oedi eu penderfyniadau ynghylch datblygiad cymwysterau sylfaen yn y Gymraeg.

# Amcan 2: Sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hystyried mewn polisi a deddfwriaeth

Mae sicrhau fod gan bawb fynediad hygyrch a chyfartal at addysg cyfrwng Cymraeg yn greiddiol i'n gwaith dylanwadu. Eleni rydym wedi gweithio dros blant a phobl ifanc a'u teuluoedd mewn nifer o achosion yn ymwneud â chludiant i'r ysgol, mynediad i ysgolion, a diffyg darpariaeth anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r gwaith achos hwn yn amlygu bylchau ac anawsterau mewn polisi, ac mae'r maes ADY yn enghraifft amlwg o hyn.



**Adroddiad Anghenion Dysgu Ychwanegol**

Yn ystod Eisteddfod yr Urdd a gynhaliwyd yn Llanymddyfri yn 2023 fe wnaethom gyhoeddi adroddiad ar y cyd â Chomisiynydd Plant Cymru ar anghenion dysgu ychwanegol drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r adroddiad yn dod i'r casgliad bod angen sefydlu tasglu cenedlaethol a fydd yn gyfrifol am gydlynu ymdrechion i wella'r ddarpariaeth ADY cyfrwng Cymraeg. Mae'r adroddiad yn argymell meysydd y dylai'r tasglu flaenoriaethu.

1. Sicrhau bod awdurdodau lleol yn adolygu eu darpariaeth ADY yn llawn, a bod hyn yn cael ei ddefnyddio fel sail ar gyfer cryfhau'r ddarpariaeth
2. Datblygu'r sail dystiolaeth a chyfrannu at gynllunio adolygiad 5-mlynedd Gweinidogion Cymru o'r ddarpariaeth ADY yn y Gymraeg
3. Datblygu cynigion ar gyfer ffurfioli trefniadau cydweithio effeithiol rhwng awdurdodau lleol
4. Datblygu ymyriadau cenedlaethol mewn meysydd megis cynllunio'r gweithlu, adnoddau a dysgu proffesiynol.

Mae bellach arweinydd ADY cyfrwng Cymraeg cenedlaethol wedi'i benodi, mae'r gwaith o gynllunio adolygiad cenedlaethol o ddarpariaeth ADY cyfrwng Cymraeg wedi cychwyn, ac mae argymhellion ein papur am osod cyfeiriad i waith grwp rhanddeiliaid ADY cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru.

# Amcan 2: Sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hystyried mewn polisi a deddfwriaeth

**Cyhoeddi adroddiad ar addysg ôl-orfodol a'r Gymraeg**

Mae wedi bod yn flwyddyn arwyddocaol o safbwynt y sector ôl-orfodol, gyda'r gwaith o sefydlu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil wedi cychwyn

Yn ystod y flwyddyn fe wnaethom gyhoeddi adroddiad ymchwil ar lais y dysgwyr yn y sector ôl-16. Roedd yr ymchwil yn seiliedig ar gasglu barn y dysgwyr eu hunain, a chafodd yr holiaduron eu cwblhau gan dros 1000 o bobl ifanc.

Dyma grynodeb o gasgliadau'r **adroddiad**:

- Mae mwyafrif y siaradwyr Cymraeg dros 16 oed a holwyd mewn ysgolion a cholegau addysg bellach, yn falch eu bod yn gallu siarad Cymraeg, ac yn ystyried yr iaith o fantais iddynt ar gyfer datblygu eu gyrfa.
- Mae'r canlyniadau yn amlygu nifer o'r rhwystrau sy'n wynebu dysgwyr ar hyn o bryd, gan gynnwys diffyg darpariaeth Gymraeg (yn enwedig mewn meysydd mwy galwedigaethol), diffyg hyder dysgwyr yn eu sgiliau Cymraeg, a chanfyddiad bod eu hastudiaethau pellach yn debygol o fod yn Saesneg neu fod gwell cyfleoedd o fod yn astudio yn Saesneg.
- O'r siaradwyr Cymraeg sy'n bwriadu parhau â'u haddysg ar ôl gadael yr ysgol neu'r coleg, 40% yn unig sy'n bwriadu aros yng Nghymru. I siaradwyr Cymraeg sy'n bwriadu parhau i astudio yng Nghymru, bydd y cyfle i astudio yn y Gymraeg neu yn ddwyieithog yn ffactor bwysig wrth ddewis eu man astudio nesaf.
- Mae'r ymchwil yn amlygu gwahaniaethau rhwng dysgwyr ysgol a choleg, o ran eu canfyddiad o'u gallu yn y Gymraeg, cyfrwng iaith eu haddysg a'u hagweddau at bwysigrwydd y Gymraeg.

# Amcan 2: Sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hystyried mewn polisi a deddfwriaeth

**Ffocws ar ein gwaith mewn meysydd polisi sy'n dylanwadu ar hyfywedd y Gymraeg**

Ein gweledigaeth yw gweld y Gymraeg yn cryfhau ar hyd a lled Cymru. I wireddu hyn mae'n gwbl allweddol ein bod yn atal dirywiad yn sefyllfa'r Gymraeg yn yr ardaloedd hynny lle mae ar ei chryfaf. Un ffordd o wireddu hynny ydy trwy brif-ffrydio'r Gymraeg mewn meysydd sy'n allweddol i ddyfodol y cymunedau yma, fel cynllunio, tai, a datblygu'r economi.

- Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi bod yn rhan o grŵp llywio gwaith ymchwil sy'n anelu at gynyddu'r sail dystiolaeth sydd ar gael o fewn y broses gynllunio. Rydym hefyd wedi mynegi ein barn yn y maes i'r Comisiwn Cymunedau Cymraeg (y Comisiwn), sydd wedi bod yn casglu tystiolaeth ar gyfer datblygu argymhellion polisi cyhoeddus i'r Llywodraeth.

- Maes sy'n gysylltiedig â chynllunio yw tai. Yn ein hymateb i'r ymgynghoriad roeddem yn dadlau y dylai'r papur gwyn amlinellu sut all y Llywodraeth alluogi penderfyniadau am anghenion tai lleol ar lefel micro, sy'n ymateb i anghenion lleol yn hytrach nag arddel polisïau rhanbarthol neu genedlaethol yn unig. Roeddem yn awyddus i'r Llywodraeth ymrwymo i gasglu gwell data am broffil ieithyddol rhentwyr ar lefel lleol, a fyddai yn gwella'r sail dystiolaeth ar gyfer penderfyniadau cynllunio gwlad a thref.

- Mynegom ein barn am yr economi yn ein hymateb i ymchwiliad y Pwyllgor Materion Cymreig ar ddi-boblogi yng Nghymru. Rydyn ni'n meddwl bod diffyg cyfleoedd gwaith a diffygion yr economi mewn ardaloedd lle mae dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg yn cyfrannu at bobl ifanc yn dewis gadael yr ardaloedd yma.

- Yn ein hymateb i ymgynghoriad y Llywodraeth ar sgiliau yn y sector sero net fe aethom ymhellach i esbonio y dylai fod yn bosib creu asesiadau o'r sgiliau sydd ar gael mewn cymunedau. Dylai datblygiadau mawr sy'n creu llawer o swyddi o fewn ardaloedd lle mae dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg fedru dangos pa mor debygol y bydd pobl leol o fedru fanteisio ar y swyddi hynny.

- Tuag at ddiwedd y flwyddyn fe gyhoeddom **nodyn briffio** a oedd yn crynhoi ein hymateb i ymgynghoriad y Llywodraeth ar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (y Cynllun). Roedd asesiad effaith y Llywodraeth yn amcangyfrif y byddai dirywiad sylweddol i faint yr economi wledig ac effaith negyddol ar gymunedau lle mae dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg. Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i egluro mewn manylder sut y bwriedir osgoi'r canlyniadau negyddol hyn, ac i sicrhau bod y Cynllun yn cefnogi seilwaith economaidd cymunedau Cymraeg eu hiaith.

# Amcan 2: Sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hystyried mewn polisi a deddfwriaeth

**Cadeirio a chynnal ysgrifenyddiaeth Cymdeithas Ryngwladol y Comisiynwyr Iaith (IALC)**

Cenhadaeth Cymdeithas Ryngwladol y Comisiynwyr Iaith yw cefnogi a hyrwyddo hawliau, cydraddoldeb ac amrywiaeth ieithyddol ledled y byd a chefnogi comisiynwyr iaith fel eu bod yn gallu gweithio gan gadw at y safonau proffesiynol uchaf.

Mae Cymru wedi bod yn gyfrifol am gadeirio a llywio rhaglen waith y Gymdeithas hon ers Medi 2022. Un o uchafbwyntiau'r cyfnod oedd sefydlu categori newydd o aelodaeth a fydd yn caniatáu i sefydliadau gael mynediad at weithgareddau IALC pan nad ydynt yn bodloni'r meini prawf ar gyfer aelodaeth lawn.

Pwrpas yr Aelodaeth Arsylwi newydd yw meithrin ymwybyddiaeth, ymgysylltiad a chydweithio rhwng IALC a chyrff neu sefydliadau eraill sydd â mandad i oruchwylio hawliau ieithyddol.

Mae cymunedau ieithyddol ar draws y byd yn troi at Gymru am arweiniad ynghylch sut mae hybu a hwyluso defnydd o iaith leiafrifol a swyddogol. Rydym yn cael cyfleoedd rheolaidd i rannu stori'r Gymraeg ag academyddion ac asiantaethau o bob cornel o'r byd ar lein, ac eleni croesawyd nifer o ymwelwyr i Gymru gan gynnwys cynrychiolwyr o Daiwan, Friesland a'r Unol Daleithiau.



# Amcan 2: Sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hystyried mewn polisi a deddfwriaeth

'As Commissioner of Official Languages for the Province of New Brunswick in Canada, I have been participating in the International Association of Language Commissioners (IALC) since my appointment in 2020. The IALC provides an invaluable forum to not only exchange ideas and learn from best practices in other countries and jurisdictions, but it also provides mutual support among colleagues who all strive to promote language rights.'

**Shirley C. MacLean, K.C.**
Comisiynydd Ieithoedd Swyddogol,
New Brunswick, Canada



# Amcan 3: Cynnal a chynyddu cydymffurfiaeth sefydliadau gyda'u dyletswyddau statudol

**Blaenoriaethau 2022–2025**

**Gweithredu strategaeth rheoleiddio gwirioneddol rhagweithiol.**

**Cymryd camau rheoleiddio priodol i drawsnewid perfformiad sefydliadau yn y meysydd allweddol hynny sy'n parhau i brofi'n broblematig:**

- **Sgiliau a recriwtio**
- **Safonau llunio polisi**

**Sefydliadau i wneud mwy i hyrwyddo'r cyfleoedd maent yn eu darparu i ddefnyddio'r Gymraeg mewn dau faes penodedig sef polisïau defnydd mewnol a defnydd gwasanaethau.**

**Sicrhau bod sefydliadau'n cydweithio gyda'i gilydd ac yn arloesi er mwyn ymateb yn gadarnhaol i'r gofynion sydd wedi eu gosod arnynt drwy gyfrwng cyngor y Comisiynydd, ac arferion effeithiol sydd wedi eu casglu a'u hyrwyddo.**

**Trawsnewid perfformiad a gallu Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau gwasanaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol i gynnig ymgynghoriadau clinigol yn y Gymraeg, drwy wella ansawdd cydymffurfiaeth sefydliadau â gofynion a osodir arnynt drwy safon 110 a safon 110A.**

# Amcan 3: Cynnal a chynyddu cydymffurfiaeth sefydliadau gyda'u dyletswyddau statudol

**Rheoleiddio'n rhagweithiol**

**Nifer y sefydliadau gafodd eu monitro**

**81**

**Nifer yr arolygon monitro a gynhaliwyd**

**883**

**Nifer y cyfarfodydd i gasglu tystiolaeth**

**78**

**Ymateb i ymholiadau gan sefydliadau yn gofyn am gyngor**

**370**

# Amcan 3: Cynnal a chynyddu cydymffurfiaeth sefydliadau gyda'u dyletswyddau statudol

## Rheoleiddio'n rhagweithiol


Rydyn ni'n rheoleiddio er mwyn sicrhau cynnydd yn y cyfleoedd sydd ar gael i ddefnyddio'r Gymraeg. Rydym wedi ymrwymo i ddull o gyd-reoleiddio gyda ffocws cryf ar hybu hunan-reoleiddio. Rydym felly'n annog sefydliadau i gysylltu â ni yn gynnar i'n gwneud yn ymwybodol o unrhyw risg o ddiffyg cydymffurfiaeth. Rydym hefyd yn annog sefydliadau i gysylltu gyda ni am gyngor ar faterion yn ymwneud â chydymffurfio gyda'r safonau.

Cefnogi sefydliadau i gydymffurfio â'u dyletswyddau yw prif ffocws ein gwaith rheoleiddio. Fodd bynnag, nid yw rheoleiddio yn golygu cynnal ymchwiliadau a gosod camau gorfodi cyfreithiol yn unig. Mae'n golygu darparu cyngor, codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth, trosglwyddo arbenigedd a chefnogi sefydliadau yn eu hymdrechion wrth gydymffurfio â'r safonau.

## Codi'r Bar

Cyhoeddwyd adroddiad Comisiynydd y Gymraeg, Codi'r Bar, ym mis Hydref 2023. Mae'r adroddiad yn gyfle i adlewyrchu ar ganfyddiadau perfformiad sefydliadau gyda safonau'r Gymraeg.

Roedd yr adroddiad yn canfod, er bod lefelau cydymffurfiaeth yn gyffredinol wedi gwella, yn enwedig ymysg sefydliadau sydd wedi dod o dan safonau'r Gymraeg ers amser, mae angen mynd i'r afael â'r her o greu awyrgylch lle gellir defnyddio'r Gymraeg yn naturiol bob dydd. Mae hyn yn golygu gwella'r gwasanaethau a gaiff eu cynnig ar lafar i bobl, boed hynny dros y ffôn neu wyneb yn wyneb. Gallwch ddarllen yr **adroddiad yn llawn** ar ein gwefan.



# Amcan 3: Cynnal a chynyddu cydymffurfiaeth sefydliadau gyda'u dyletswyddau statudol

## Dull o gyd-reoleiddio i gyrraedd y nod

Er mwyn hybu hyder defnyddwyr y Gymraeg yn y gwasanaethau y maent yn eu derbyn, a chynyddu defnydd o wasanaethau Cymraeg, mae cynnal cyfundrefn reoleiddio gadarn ac effeithiol yn angenrheidiol.

Wrth wneud hyn mae angen i ni, fel unrhyw reoleiddiwr cyfrifol arall, adolygu ein dulliau gweithredu'n barhaus er mwyn sicrhau y canlyniadau gorau posib i ddefnyddwyr y Gymraeg.

Cyhoeddwyd blog ar ein gwefan yn amlinellu'r gwaith o ddatblygu dull o gyd-reoleiddio a phodlediad newydd lle mae'r Dirprwy Gomisiynydd, Osian Llywelyn, yn trafod y newidiadau a'r blaenoriaethau i'r dyfodol gyda Hanna Hopwood. Mae'r **blog a'r podlediad** ar gael yma.

## Y themau allweddol


**Thema 1**

**Ffocws gynyddol ar ddeilliannau yn hytrach na phrosesau**



**Thema 2**

**Datblygu ymhellach strategaeth wirioneddol rhagweithiol**



**Thema 3**

**Blaenoriaethu ein gwaith rheoleiddio**



**Thema 4**

**Hwyluso ein gwaith ymchwilio a gorfodi**



# Amcan 3: Cynnal a chynyddu cydymffurfiaeth sefydliadau gyda'u dyletswyddau statudol

Byddwn yn edrych i roi'r themâu yma ar waith gan gynnwys ymdrin â chwynion a materion cydymffurfiaeth yn fwy effeithiol, a datblygu a chyhoeddi rhaglen flynyddol i gefnogi sefydliadau wrth iddyn nhw gydymffurfio â safonau'r Gymraeg.

Un o'r meysydd y byddwn yn rhoi sylw penodol iddo yn ystod y flwyddyn sydd i ddod yw technoleg a gwasanaethau digidol. Byddwn yn trafod y pwnc er mwyn deall yr heriau sydd yn wynebu sefydliadau gan gynnig arweiniad a chyngor a fydd yn sicrhau'r canlyniadau gorau i ddefnyddwyr gwasanaethau.

Byddwn hefyd yn datblygu a gosod deilliannau rheoleiddio clir. Ein bwriad drwy gyflwyno'r deilliannau rheoleiddio yma yw iddynt, ymysg pethau eraill:

- osod safonau'r Gymraeg a'n gwaith rheoleiddio yng nghyd-destun y weledigaeth genedlaethol o gynyddu nifer siaradwyr Cymraeg a chynyddu defnydd yr iaith

- darparu datganiadau tryloyw cyhoeddus o'r hyn yr ydym yn bwriadu ei gyflawni, a sut y byddwn yn gallu dangos pan fyddwn wedi ei gyflawni
- sicrhau bod ein gweithgareddau rheoleiddio yn canolbwyntio ar ganlyniadau i ddefnyddwyr y Gymraeg ac yn cael y traweffaith mwyaf ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg
- annog sefydliadau i daro'r cydbwysedd cywir rhwng ffocws ar gydymffurfiaeth caeth a sicrhau canlyniadau da i ddefnyddwyr y Gymraeg.

### Holiadur canfyddiad i sefydliadau

Fel rhan o'n gwaith o ddatblygu dull o gyd-reoleiddio, aethom ati hefyd i gasglu barn gan sefydliadau ar ein gwaith rheoleiddio. Cafwyd ymateb gan 115 o sefydliadau (cyfradd ymateb o 80%), ac roedd yr ymateb yn gadarnhaol ac adeiladol. Bwriad yr holiadur oedd cael darlun clir o agweddau a barn am ein gwaith, a chasglu syniadau am sut fath o gefnogaeth fyddai yn gwella ein gweithdrefnau rheoleiddio ac yn helpu sefydliadau i wella cydymffurfiaeth.

# Amcan 3: Cynnal a chynyddu cydymffurfiaeth sefydliadau gyda'u dyletswyddau statudol

## 66%

Nododd mwyafrif y sefydliadau (66%) eu bod yn fodlon neu'n fodlon iawn gyda'n gwaith rheoleiddio yn gyffredinol, gyda sylwadau am wahanol elfennau ein gwaith yn cynnwys:

'Croesawn yn fawr eich arddull rheoleiddio ar sail risg'.

'Mae'r trefniadau a'r prosesau rheoleiddio yn syml iawn ac yn drylwyr.'

'Mae'r cysyniad o gyd-reoleiddio yn un rydym yn ei groesawu.'

'Mae Swyddog Gosod a Chydymffurfio yn barod bob tro i ateb cwestiynau ac i gynnig cyngor.'

'It is positive to see a regulator ask for feedback on their approach and services, thank you for asking.'

## 80%

Teimlai 92 (80%) o sefydliadau (71 sefydliad safonau a 21 sefydliad sy'n gweithredu cynlluniau iaith) hefyd bod y Comisiynydd yn cyfathrebu yn effeithiol gyda rhanddeiliaid a sefydliadau am ei gwaith a'i blaenoriaethau.

## 80%

Roedd 92 (80%) o'r ymatebwyr wedi nodi eu bod yn cytuno neu cytuno'n gryf bod y Comisiynydd yn rhannu gwybodaeth yn effeithiol am ddyfarniadau a chamau gweithredu sydd yn berthnasol i nifer o sefydliadau (69 sefydliad safonau a 23 sefydliad sy'n gweithredu cynlluniau iaith).

Bydd y sylwadau a gasglwyd yn yr holiadur yn ein cynorthwyo i gynllunio ein gwaith ar gyfer y cyfnod i ddod, gan sicrhau ein bod yn canolbwyntio ein hymdrechion a'n hadnoddau ar faterion fydd yn dod â'r canlyniadau gorau i ddefnyddwyr y Gymraeg.

# Amcan 3: Cynnal a chynyddu cydymffurfiaeth sefydliadau gyda'u dyletswyddau statudol

**Gwella dealltwriaeth o'r safonau llunio polisi**

Bwriad y safonau llunio polisi yw sicrhau fod sefydliadau yn sicrhau fod y Gymraeg yn rhan o wead bywyd cyhoeddus Cymru, yn eu prosesau penderfynu.

Wrth ystyried canfyddiadau ein gwaith monitro, y cwynion rydym yn eu derbyn a chynnal ymchwiliadau, daeth yn amlwg fod anghysondeb yn y modd y mae sefydliadau yn ystyried effeithiau penderfyniadau polisi a wneir ar y Gymraeg.

Fe wnaethon ni gynnal seminar ar ofynion y safonau llunio polisi, a fynychwyd gan 269 o randdeiliaid o sefydliadau Cymreig a Phrydeinig.

Cyhoeddwyd **tudalen ar ein gwefan** yn cynnig cyngor arbenigol i sefydliadau cyhoeddus, gan gynnwys cwestiynau cyffredin, rhestr o ffactorau perthnasol i'w hystyried wrth wneud penderfyniadau, astudiaethau achos, fideos a chanllawiau.

Tra bod hwn yn waith parhaus, mae tystiolaeth cynnar yn dangos fod nifer o sefydliadau wedi cychwyn ar y broses o wella neu gryfhau eu trefniadau i gydymffurfio.

Ein bwriad yw cynnal llinell ymholi allweddol i'r maes safonau llunio polisi yn ystod 2024/25.

Dyma un farn am y seminarau sydd wedi eu trefnu:

**Cafwyd nifer o seminarau yn ddiweddar sydd wedi cael derbyniad da. Mae defnyddio cwmnïau cyfreithwyr a bargyfreithwyr i esbonio'r gyfraith yn benodol wedi bod yn ddefnyddiol iawn, fel bod uwch swyddogion yn gweld pwysigrwydd cydymffurfio a pha mor ddifrifol yw hi pan fydd pethau'n mynd o chwith.**

# Amcan 3: Cynnal a chynyddu cydymffurfiaeth sefydliadau gyda'u dyletswyddau statudol

## Cryfhau'r gweithlu Cymraeg

Mae datblygu gweithlu Cymraeg a gweithleoedd lle gall y Gymraeg ffynnu yn flaenoriaeth i'r Comisiynydd. Rydym yn gwerthfawrogi'r heriau sydd ynghlwm â recriwtio staff dwyieithog a dros y flwyddyn ddiwethaf comisiynwyd darn o waith ymchwil a oedd yn edrych ar arferion nifer o sefydliadau wrth asesu anghenion iaith ac wrth hysbysebu swyddi.

Roeddem yn awyddus i ddeall sut mae'r arferion hynny yn arwain at lwyddiant wrth gynyddu nifer y staff sydd yn gallu defnyddio'r Gymraeg ac fe gynhaliwyd seminar i rannu canfyddiadau'r arolwg yn ystod haf 2023.

Bydd y gwaith hwn yn parhau dros y flwyddyn nesaf ond drwy'r gwaith ymchwil cychwynnol, bu posib adnabod nifer o enghreifftiau o arferion llwyddiannus gan sefydliadau. Roedd hyn yn cynnwys defnydd effeithiol o dempledi a siartiau llif wrth bennu categori iaith swydd. Roedd arferion da hefyd i'w gweld o ran darparu hyfforddiant a chanllawiau clir i staff sydd yn gyfrifol am brosesau penodi.

Canlyniad arall i'r gwaith oedd bod nifer o sefydliadau wedi cydnabod nad oedd eu harferion neu drefniadau yn ddigonol, a bod yr adolygiad wedi eu helpu i ddeall hynny ac i gymryd camau i wella.

## Cynnig ymgynghoriadau clinigol yn y Gymraeg

Mae trawsnewid perfformiad a gallu Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG i gynnig ymgynghoriadau clinigol yn y Gymraeg, yn flaenoriaeth i'r Comisiynydd.

Gweledigaeth Llywodraeth Cymru, drwy'r fframwaith Mwy na Geiriau, yw bod y Gymraeg yn perthyn i bawb ac ar gael mewn gwasanaethau ledled Cymru. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae swyddogion y Comisiynydd wedi sicrhau fod gan bob Bwrdd Iechyd ac Ymddiriedolaeth y GIG gynllun mewn lle yn unol â'r safon.

Rydym wedi cynnal adolygiad o gynnwys y cynlluniau presennol ac mae gwaith sylweddol wedi digwydd i lunio'r cynlluniau ac i ystyried yr hyn sydd ei angen i ysgogi newid.

Yn ystod 2024/25 byddwn yn gweithio'n agos â'r sector, mewn partneriaeth ag Adran Iechyd Llywodraeth Cymru, i sicrhau bod y cynlluniau yma'n arwain at gynnydd yn y cyfleoedd sydd ar gael i bobl yn ystod y 5 mlynedd nesaf.

# Amcan 3: Cynnal a chynyddu cydymffurfiaeth sefydliadau gyda'u dyletswyddau statudol

## Canllawiau ymarferol i gyrff iechyd

Datblygiad arall pwysig, yw cyhoeddi Cod Ymarfer statudol ar gyfer y sefydliadau hynny sydd wedi eu cynnwys yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 7) 2018. Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG yw'r rheiny yn bennaf a'r bwriad gyda'r cod hwn yw nodi canllawiau penodol a chynnig mwy o eglurder ynghylch gofynion pob un o'r safonau yn y rheoliadau.

Byddwn yn gweithio gyda'r sector i godi eu hymwybyddiaeth a'u dealltwriaeth o gynnwys y cod yn ystod 2024/25.

## Cynyddu defnydd mewnol o'r Gymraeg

Mae safonau'r Gymraeg yn ei gwneud hi'n ofynnol i sefydliadau cyhoeddus gael polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle. Mae hyn yn ofynnol er mwyn sicrhau bod mwy o gyfleoedd ar gael i bobl ddefnyddio'r iaith mewn meysydd fel technoleg; hyfforddiant a datblygu; recriwtio a dethol; cynllunio'r gweithlu; cyfathrebu; adnoddau dynol a pholisïau. Yn ystod 2023/24, sefydlodd y Comisiynydd brosiect strategol hir dymor gyda'r nod o sicrhau fod mwy o sefydliadau yn datblygu polisi i gynyddu defnydd o'r Gymraeg dros amser. Fel rhan o'r prosiect hwn, rydym wedi sefydlu grŵp llywio sy'n cynnwys nifer o randdeiliaid a phartneriaid allweddol. Mae'r rheiny'n cynnwys:

- **Llywodraeth Cymru**
- **Cyngor Ynys Môn**
- **Cyngor Sir Gaerfyrddin**
- **Cyfoeth Naturiol Cymru**
- **Cyngor Gwynedd**
- **Coleg Cymraeg Cenedlaethol**
- **Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol**

Yn ystod 2024/25, byddwn yn datblygu modelau gwahanol ar gyfer cynyddu defnydd mewnol o'r Gymraeg, ac yn datblygu adnoddau mewn meysydd penodol. Ein bwriad yw sicrhau cyfleoedd ymarferol i bob sefydliad gynyddu faint o Gymraeg sy'n cael ei defnyddio gan staff yn eu gwaith bob dydd.

## Hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg

Mae angen i sefydliadau wella'r ffordd y maent yn hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg er mwyn sicrhau fod y defnydd ohonynt yn cynyddu.

Rydym yn gweithio ar brosiect dwy flynedd lle byddwn yn gweithio gyda chasgliad o sefydliadau cyhoeddus o sectorau amrywiol er mwyn cytuno ar gynllun gweithredu. Y nod yw adnabod dau wasanaeth Cymraeg a ddarperir ganddynt a chynnal ymgyrchoedd penodol i hyrwyddo'r defnydd o'r gwasanaethau hynny.

# Amcan 3: Cynnal a chynyddu cydymffurfiaeth sefydliadau gyda'u dyletswyddau statudol

## Iaith ar Daith

Mewn partneriaeth â'r Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol fe drefnwyd cyfres o ddigwyddiadau undydd a fu'n teithio Cymru. Roeddent yn edrych ar sut y gall sefydliadau cyhoeddus greu cynnwys dwyieithog a hyrwyddo'r gwasanaethau hynny i'w defnyddwyr.

Roedd y sioe deithiol yn cynnwys cyflwyniadau, sesiynau ymarferol a thrafodaethau, a rhoddwyd cyfle i fynychwyr rannu eu profiadau. Roedd yr ymateb yn galonogol iawn gyda bron i 250 yn mynychu.



**'Already attending this session has been a huge help for me. I'm not a Welsh speaker but I'm the content designer on a project for Wales. I've tried really hard to adapt how I work to bring Welsh in sooner, but I'd not considered how important it was to actually promote our Welsh service too. I'll definitely be taking that back to my team for us to think about.'**

**'Diolch enfawr i Gomisiynydd y Gymraeg am eu sesiwn heddiw am hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg a sut i wneud gwybodaeth amdanynt yn glir a dealladwy i ddefnyddwyr gwasanaeth. Trafodaeth graff iawn a allai sbarduno syniadau i ni fel swyddfa!'**

# Amcan 3: Cynnal a chynyddu cydymffurfiaeth sefydliadau gyda'u dyletswyddau statudol

## Arferion effeithiol

Mae'r Comisiynydd yn casglu a rhannu arferion effeithiol i annog sefydliadau i arloesi, cydweithio, ac ymateb yn rhagweithiol i ofynion statudol a disgwyliadau defnyddwyr.

Caiff rhain eu rhannu ar ein gwefan er mwyn codi ymwybyddiaeth sefydliadau eraill o'r arferion, a'u hannog i ddysgu o brofiadau sefydliadau eraill.



## Rho Gynnig Arni

Er mwyn cynyddu'r nifer o staff oedd yn defnyddio'r Gymraeg wrth eu gwaith, datblygodd Coleg y Cymoedd gynllun i annog siaradwyr Cymraeg o fewn gweithle'r Coleg i ddefnyddio'r  Gymraeg yn amlach yn y gweithle.

Fel rhan o'r cynllun mentora **Rho Gynnig Arni**, mae Rheolwr y Gymraeg yn ymgymryd â rôl fentora i diwtora staff sydd eisoes yn medru'r Gymraeg er mwyn gwella eu sgiliau a'u hyder i ddefnyddio'r Gymraeg wrth eu gwaith.

O ganlyniad gwelwyd bod y staff hynny fu'n rhan o'r cynllun yn defnyddio mwy o Gymraeg a bod hynny wedi ysgogi mwy o ddefnydd o'r Gymraeg yn gyffredinol ar draws y Coleg. Gwelwyd bod staff yn fwy hyderus wrth ddefnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd anffurfiol ac yn ogystal gwelwyd bod yr iaith a ddefnyddir gan staff yn ysgrifenedig ac ar lafar wedi gwella o ran ansawdd a chywirdeb.

# Amcan 3: Cynnal a chynyddu cydymffurfiaeth sefydliadau gyda'u dyletswyddau statudol

### Gwasanaeth gwe-sgwrs effeithiol

Yn dillyn y pandemig penderfynodd Canolfan Mileniwm Cymru gynyddu'r ddarpariaeth ddigidol ar gyfer cwsmeriaid. Wrth wneud hyn rhaid oedd sicrhau eu bod yn parhau i gynnig gwasanaeth o safon uchel i'r cwsmeriaid oedd hefyd yn cydymffurfio â gofynion safonau'r Gymraeg. Roedd y Gymraeg yn ganolog felly wrth ddatblygu'r feddalwedd newydd.

O gymharu â'r gwasanaeth blaenorol, mae'r Ganolfan yn delio â mwy o ymholiadau ac yn gallu delio â nhw yn gynt. Mae'r Ganolfan hefyd â'r gallu i ddelio yn well gydag unrhyw ymholiadau mwy cymhleth a ddaw dros y ffôn.

CANOLFAN MILENIWM CYMRU
WALES MILLENNIUM CENTRE

### Cyfieithu testun byw

Roedd angen i Drafnidiaeth Cymru, wrth iddynt ddatblygu gwefan ddwyieithog newydd, sicrhau bod y cyhoedd yng Nghymru yn gallu cael y wybodaeth yma yn eu dewis iaith.

Aethpwyd ati felly i gaffael system feddalwedd cyfieithu amser real a fyddai'n sicrhau bod unrhyw gynnwys Saesneg, sy'n bwydo mewn i'r wefan o ffynonellau allanol, yn cael ei gyfieithu a'i uwchlwytho yn syth i'r wefan yn Gymraeg.

Yn naturiol mae heriau ynghlwm â hyn ac mae angen sicrhau bod trefniadau mewn lle i wirio cywirdeb cyfieithiadau o gynnwys a ddaw o ffynonellau allanol.

Mae'r prosiect hwn wedi amlygu gwerth sgiliau ac arbenigedd technegol o fewn y sefydliad er mwyn parhau i fedru cynnig gwasanaethau cyfoes o safon uchel yn Gymraeg.

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

# Amcan 4: Cynyddu defnydd o'r Gymraeg gan sefydliadau ar draws pob sector

**Blaenoriaethau 2022-2025**

**Hwyluso defnyddio'r Gymraeg gyda busnesau ac elusennau drwy gynnal hyfforddiant, darparu canllawiau a rhannu arfer dda.**

**Mwy o ymrwymiadau i ddefnyddio'r Gymraeg gan fusnesau ac elusennau.**

**Targedu'r sectorau canlynol yn benodol: archfarchnadoedd, darparwyr iechyd a gofal, elusennau cenedlaethol, a banciau.**

**Cydweithio gyda chyrff ariannu a rhwydweithiau er mwyn dylanwadu ar ragor o fusnesau ac elusennau i ddefnyddio'r Gymraeg.**

**Darparu cyngor am ffurfiau safonol enwau lleoedd Cymru gan roi amlygrwydd iddynt drwy ail lansio Rhestr o Enwau Lleoedd Safonol Cymru ar ei newydd wedd yn 2024. Datblygu ein gallu i ddarparu cyngor am ffurfiau enwau tirweddol a chyhoeddi canllawiau safoni i gefnogi'r gwaith.**



# Amcan 4: Cynyddu defnydd o'r Gymraeg gan sefydliadau ar draws pob sector

## Cydweithio gyda busnesau ac elusennau

Mae tîm Hybu Comisiynydd y Gymraeg yn cydweithio gydag amrywiaeth eang o fusnesau ac elusennau. Sefydliadau yw'r rhain nad ydyn nhw yn dod o dan Fesur y Gymraeg. Mae'r sefydliadau yma yn cynnig gwasanaethau Cymraeg yn wirfoddol, ac mae'r tîm yn cynnig anogaeth a chefnogaeth er mwyn sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn medru defnyddio'r iaith gyda'r sefydliadau yma o ddydd i ddydd.

Mae'n braf gweld sefydliadau yn ymrwymo i gynnig mwy o wasanaethau Cymraeg dros gyfnod o amser gan weithio ar ddatblygu Cynllun Datblygu'r Gymraeg a derbyn cymeradwyaeth y Cynnig Cymraeg.

| | |
|---|---|
| **Nifer o gyflwyniadau sydd wedi eu rhoi i rwydweithiau** | **39** |
| **Nifer o gyfarfodydd sydd wedi cael eu cynnal gyda sefydliadau** | **270** |
| **Nifer o gysylltiadau sy'n deillio o weithio gyda chyrff ariannu** | **143** |

# Amcan 4: Cynyddu defnydd o'r Gymraeg gan sefydliadau ar draws pob sector

**Y Cynnig Cymraeg**

Dros y flwyddyn ddiwethaf mae'r gwaith o hybu a hyrwyddo cynllun y Cynnig Cymraeg wedi cynyddu ac mae cryn ddiddordeb ynddo gyda 61 o sefydliadau wedi cyflwyno Cynllun Datblygu'r Gymraeg a 44 yn derbyn y gydnabyddiaeth. Erbyn hyn mae 109 o sefydliadau i gyd wedi derbyn cydnabyddiaeth y Cynnig Cymraeg.

Roedd yn braf gweld ymysg y sefydliadau wnaeth dderbyn y Cynnig Cymraeg yn ystod y flwyddyn bod sefydliadau o'r sectorau oedd yn cael eu targedu wedi derbyn y Cynnig Cymraeg. Sefydliadau megis archfarchnad Aldi, Tenovus, Versus Athritis, a Samariaid Cymru. Gobeithio y bydd mwy yn parhau i ddilyn esiampl y sefydliadau hyn dros y blynyddoedd nesaf.

**109**

**109 o sefydliadau i gyd wedi derbyn cydnabyddiaeth y Cynnig Cymraeg**

**61**

**61 o sefydliadau wedi cyflwyno Cynllun Datblygu'r Gymraeg**

**44**

**44 yn derbyn y gydnabyddiaeth.**

# Amcan 4: Cynyddu defnydd o'r Gymraeg gan sefydliadau ar draws pob sector

Elusen arall sydd wedi derbyn y Cynnig Cymraeg yn ystod y flwyddyn yw RNIB Cymru. Yn ôl Thomas Hughes, swyddog iaith yr elusen,

**'Mae RNIB yn credu bod cynnig gwasanaethau yn iaith ddewisol cwsmer yn rhan annatod o ddarparu gwasanaeth cwsmeriaid da a chyfle cydradd mewn cenedl ddwyieithog. Mae derbyn y Cynnig Cymraeg wedi gwella ansawdd ein gwasanaethau ac yn rhoi sicrwydd i gwsmeriaid bod RNIB wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau Cymraeg o safon uchel. Mae'n ei gwneud hi'n amlwg ein bod ni'n elusen sydd wedi gwreiddio yng Nghymru, ac yn amlinellu ein hymrwymiadau i'r boblogaeth sy'n siarad Cymraeg. Mae'r gymeradwyaeth yn sicrhau cynhwysiant cymdeithasol a chydraddoldeb yng Nghymru ac yn adlewyrchu ein cymunedau'n gywir.'**

## Wythnos ymgyrch y Cynnig Cymraeg

Cynhaliwyd ymgyrch y **Cynnig Cymraeg** dros gyfnod o wythnos yn ystod mis Mai. Prif fwriad yr ymgyrch oedd cefnogi'r sefydliadau sydd eisoes wedi derbyn y Cynnig Cymraeg i hyrwyddo'u gwasanaethau, rhannu llwyddiant busnesau ac elusennau sydd wedi derbyn y Cynnig Cymraeg, a chodi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Cafwyd wythnos o gyhoeddusrwydd gyda blogiau yn y wasg ac ar y wefan yn ddyddiol, a chyfweliadau gyda busnesau ac elusennau ar Radio Cymru.



# Amcan 4: Cynyddu defnydd o'r Gymraeg gan sefydliadau ar draws pob sector

Yn ôl elusen Banc Bwyd Arfon,

'Mae derbyn y Cynnig Cymraeg yn ein galluogi i ddangos yn swyddogol ein hymrwymiad i ddarparu ein gwasanaethau yn Gymraeg. Nid yn unig y mae mwyafrif ein staff a'n gwirfoddolwyr yn siarad Cymraeg, ond mae nifer fawr o'n cleientiaid hefyd. Wrth i ni ehangu ein rhaglenni yn ddiweddar i gynnwys prosiect cynhwysiant ariannol a chyfeirio, mae angen sicrhau fod y rhwystrau i'n cleientiaid yn cael eu lleihau cymaint ag sy'n bosib. Trwy gefnogi cleientiaid banc bwyd yn ddwyieithog, gallwn ddarparu yr adnoddau angenrheidiol ar gyfer eu cefnogi yn yr hir dymor.'

Archfarchnad Aldi oedd y canfed sefydliad i dderbyn y Cynnig Cymraeg. Dywedodd Dan Oakenfull, Rheolwr Gyfarwyddwr Rhanbarthol Aldi:

'Mae'n bwysig i Aldi fod yn rhan o'r gymuned leol a bod yn fanwerthwr cynhwysol i bob cwsmer ledled y DU. Rydym yn angerddol am y cymunedau yr ydym yn gweithredu ynddynt ac rydym am hyrwyddo'r pethau sydd bwysicaf i'n cwsmeriaid. Mae hyn yn cynnwys chwilio am ffyrdd o ymgorffori'r Gymraeg yn y siopau hyn i gynnal treftadaeth cymunedau yn ogystal â chefnogi'r gwerthoedd sydd gan ein cydweithwyr a'n cwsmeriaid.'

**Hwyluso defnyddio'r Gymraeg gyda busnesau ac elusennau drwy gynnal hyfforddiant, darparu canllawiau a rhannu arfer dda.**

Cynhaliwyd ymchwil a chrëwyd canllaw sef **Y Gymraeg – eich arf codi arian.** Crëwyd y canllaw er mwyn annog elusennau i weld gwerth yr iaith wrth iddynt fynd ati i godi arian ac i weithio o ddydd i ddydd.

Gall defnyddio'r Gymraeg helpu elusennau i ennyn parch y cyhoedd, i greu perthynas ac i ennill teyrngarwch, i agor y drws i gefnogaeth gan gynulleidfaoedd newydd, i greu'r teimlad eu bod yn elusen 'leol', ac i wneud sefyllfaoedd anodd yn fwy cyfforddus i ddefnyddwyr gwasanaeth.

Yn ôl Eurgain Haf o elusen Achub y Plant bu'r canllaw o gymorth wrth ddefnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith codi arian.

'Mae'r ffaith ein bod yn gallu cynnig gwasanaeth yn y Gymraeg yn gallu arwain at gyfleon ehangach o ran codi arian ac mae'r elusen yn rhoi cyflwyniadau, yn mynychu digwyddiadau ac yn gweithio gydag ystod eang o wirfoddolwyr a phartneriaid drwy gyfrwng y Gymraeg'.

# Amcan 4: Cynyddu defnydd o’r Gymraeg gan sefydliadau ar draws pob sector

Meddai Heddyr Gregory o elusen Shelter Cymru,

**‘Mae codi arian llwyddiannus yn ymwneud â rhoi cymaint o ddewis â phosibl i roddwyr. Dylai llwybrau rhoi fod yn gyfleus ac yn hawdd eu cyrchu, fel y gall unigolyn gyfrannu sut bynnag a phryd bynnag y mae’n dymuno. Mae’r gallu i gyfathrebu â’n rhoddwyr yn Gymraeg – ar-lein neu wyneb yn wyneb – yn gymaint o fantais. Fel elusen gynhenid Gymreig, nid yn unig y mae’n rhan o’n hunaniaeth brand, ond mae’n golygu ein bod yn cysylltu cefnogwyr Cymraeg eu hiaith â rhywbeth sy’n gynhenid Gymreig ac yn teimlo’n gyfarwydd. Drwy gyfathrebu yn y Gymraeg, os mai dyna yw dewis iaith rhywun, rydym yn magu hyder ac ymddiriedaeth yn ein hachos ac yn cael ein gweld yn rhan o gymuned, gan roi ymdeimlad o berthyn i’r rhoddwr’.**

Cyhoeddwyd **canllaw i fusnesau** hefyd ar sut i ddefnyddio arwyddion dwyieithog. Mae’n cynnwys cyngor ar osod arwyddion, sut i osgoi camgymeriadau, ac enghreifftiau go iawn gan fusnesau sy’n gweithio yng Nghymru.




Cynhaliwyd sesiynau hyfforddiant gydol y flwyddyn ar sut i ddatblygu gwasanaethau Cymraeg, neu ar ddefnyddio’r Gymraeg ar y cyfryngau cymdeithasol. Daeth 221 o unigolion i un o’r 14 sesiwn hyfforddiant yma.

Fe drefnwyd rhwydweithiau i’r sector elusennol hefyd, gyda sesiynau rhithiol a wyneb i wyneb. Daeth ystod eang o elusennau ynghyd i’r rhwydweithiau yma er mwyn clywed am arfer dda, a thrafod cyfleon i rannu a hyrwyddo’r Gymraeg yn eu gwaith o ddydd i ddydd.

# Amcan 4: Cynyddu defnydd o'r Gymraeg gan sefydliadau ar draws pob sector

Yn ôl Beth Owen, Swyddog y Gymraeg Cyngor ar Bopeth sydd wedi mynychu sesiynau Rhwydwaith y Gymraeg yn y trydydd sector,

**'Beth sy'n braf am Rwydwaith y Gymraeg yn y trydydd sector yw bod pawb yno i helpu'n gilydd a dysgu wrth ein gilydd. Dwi wedi dysgu lot am sut mae sefydliadau eraill wedi datblygu eu defnydd nhw o'r Gymraeg ac wedi gallu rhoi sawl syniad ar waith yn ein gweithle ni. Mae e wastad yn ddiddorol clywed gan y siaradwyr a deall beth sydd wedi gweithio iddyn nhw - a beth sy'n heriol - ac mae'n neis gwybod byddai modd cysylltu gyda rhywun ar ôl y cyfarfod am sgwrs bellach. Yn sicr, mae'n rhoi hwb ychwanegol i fi fwrw ati gyda'r Gymraeg yn ein sefydliad ni.'**

### Cydweithio gyda chyrff ariannu a rhwydweithiau

Mae'r Tîm Hybu yn cefnogi cyrff ariannu i sicrhau bod sefydliadau sy'n derbyn arian cyhoeddus yn ystyried y Gymraeg yn eu gweithrediadau. Rydym wedi cefnogi'r gwaith yma gyda chynllun Arfor 2 a Chyngor Celfyddydau Cymru. Mae gweithio tuag at dderbyn y Cynnig Cymraeg bellach yn cael ei gynnwys fel amod i gyrff sy'n cael eu hariannu drwy gynllun Arfor 2 a gan Gyngor Celfyddydau Cymru. Fe wnaeth 208 o sefydliadau a oedd yn rhan o gynllun Arfor 2 gyswllt am gymorth i ddatblygu Cynllun Datblygu'r Gymraeg a rhoddwyd cymeradwyaeth i 7 o sefydliadau o'r sector gelfyddydol. Rydym hefyd wedi bod yn gweithio gyda Cyngor Chwaraeon Cymru i ddwyn perswâd ar gyrff llywodraethu chwaraeon i gael cynlluniau pendant o ran y Gymraeg. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf fe dderbyniodd Triathlon Cymru ac Undeb Rygbi Cymru y Cynnig Cymraeg.



# Amcan 4: Cynyddu defnydd o’r Gymraeg gan sefydliadau ar draws pob sector

Daeth tipyn o gyhoeddusrwydd i wasanaethau Cymraeg banciau’r stryd fawr yn sgil penderfyniad HSBC i newid eu gwasanaeth ffôn. Gwnaed penderfyniad gan y banc i gau’r llinell ffôn Gymraeg gan gynnig gwasanaeth galw nôl yn unig yn Gymraeg. Yn sgil y penderfyniad ysgrifennwyd at benaethiaid banciau a chymdeithasau’r stryd fawr i’w hatgoffa o bwysigrwydd cynnal gwasanaethau Cymraeg ac i drefnu cyfarfodydd unigol gyda’r uwch-reolwyr. Cynhaliwyd cyfarfodydd gyda HSBC a NatWest ac mae rhagor wedi eu trefnu ar gyfer y flwyddyn i ddod. Byddwn hefyd yn ystod y flwyddyn nesaf yn cynnal digwyddiad ar gyfer busnesau mawr i atgoffa’r sefydliadau yma am waith y tîm Hybu, y gefnogaeth sydd ar gael, a’u hannog i fod yn datblygu Cynlluniau Datblygu a gweithio tuag at dderbyn y Cynnig Cymraeg.

Enwau Lleoedd Safonol Cymru
Standardised Welsh Place-names

### Safoni a gwarchod enwau lleoedd Cymru a thu hwnt

Mae enwau lleoedd Cymru yn parhau yn bwnc dadleuol a phoblogaidd. Mae Panel Safoni Enwau Lleoedd y Comisiynydd ar gael i gynnig argymhellion awdurdodol ac annibynnol i sefydliadau ac rydym wedi darparu cyngor arbenigol eleni i Barc Cenedlaethol Eryri, Cyfoeth Naturiol Cymru a Chomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru, ymhlith eraill.

Pleidleisiodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn unfrydol o blaid mabwysiadu argymhellion y Panel am gasgliad o enwau llynnoedd. Yn sgil y gwaith partner hwn mae’r Arolwg Ordnans wedi diweddaru eu mapiau a’u cronfeydd data â’r ffurfiau safonol ac wedi cryfhau eu Polisi Enwau Cymraeg. Rydym yn parhau i gydweithio’n agos â’r Parc ac yn trafod enwau bylchau a rhaeadrau ar hyn o bryd.

# Amcan 4: Cynyddu defnydd o'r Gymraeg gan sefydliadau ar draws pob sector

**Meddai Lyn Williams, cynghorydd arbenigol ar yr iaith Gymraeg, Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant gyda Cyfoeth Naturiol Cymru,**

'Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi ceisio cyngor wrth enwi pob math o safleoedd – boed yn goetiroedd, yn feysydd parcio, neu'n ddyfroedd. Rydym hefyd yn gwirio enwau cyfredol wrth ddiweddaru arwyddion ac ati. Yn aml, oherwydd natur ein gwaith, gofynnwn am gyngor gan Gomisiynydd y Gymraeg sy'n mynd y tu hwnt i'r hyn y mae'r panel yn cynghori arno'n arferol.

Rydym yn ddiolchgar iawn i'r panel o arbenigwyr am y cyngor, sydd yn help i sicrhau y bydd enwau ein safleoedd, a'r hyn a fydd ar ein harwyddion, ein mapiau, ein cyhoeddiadau, a'r hyn a fydd yn cael ei ddefnyddio ar lafar, yn gywir ac yn adlewyrchu treftadaeth ein cenedl, gan felly ddiogelu'r dreftadaeth honno ar gyfer y dyfodol.'

Meddai Alastair Lawrie, Arweinydd Gwasanaeth gyda'r HMRC

'We finally have a canonical list of Welsh place-names, a vital resource that enhances the visibility and use of our beautiful language, and will ensure consistency and accuracy for all future references here at HMRC.'

# Amcan 4: Cynyddu defnydd o'r Gymraeg gan sefydliadau ar draws pob sector

Mae galw hefyd am arweiniad ynghylch ffurfiau safonol am enwau Cymraeg ar lefydd y tu allan i Gymru at ddefnydd cronfeydd data swyddogol. Gallwch ddod o hyd i restrau o enwau gwledydd a thiriogaethau tramor ar safle **BydTermCymru** ar wefan Llywodraeth Cymru. Mae'r rhestrau hyn yn ffrwyth gwaith safoni ar y cyd rhwng Gwasanaeth Cyfieithu Llywodraeth Cymru a'r Panel Safoni Enwau Lleoedd. Maent yn adlewyrchu'r Mynegai Enwau Daearyddol a geir ar wefan y Swyddfa Dramor, Y Gymanwlad a Datblygu er mwyn hwyluso eu defnydd mewn cyd-destunau swyddogol.

**Diwygio mapiau'r Arolwg Ordnans**

Mae'r gwaith yn y maes hwn, yn enwedig yng nghyd-destun enwau tirweddol yn digwydd o ganlyniad i'r galw cynyddol gan sefydliadau am arweiniad. Darganfuwyd bod angen diweddaru mapiau nad oedd wedi cael eu cywiro, gan sicrhau bod y Comisiynydd yn ymateb i'r galw cyhoeddus. Cafwyd 5240 o ymweliadau â'r Rhestr Enwau Lleoedd Safonol ar-lein.

Er mwyn sicrhau datblygiadau pellach yn y dyfodol, mae angen mwy o adnoddau i ymateb i'r galw cynyddol am arweiniad ynghylch pa enwau a ffurfiau ar enwau tirweddol y dylid eu harddel yn swyddogol.

Yn ôl Robert Girvan, Arolwg Ordnans,

**'From working together on a refresh of our Welsh place names policy to collaborating on updating lake names in Eryri National Park, the expert advice provided by the Welsh Language Commissioner this year has been hugely beneficial to Ordnance Survey in its role as the National Mapping Agency.'**

# Amcan 4: Cynyddu defnydd o'r Gymraeg gan sefydliadau ar draws pob sector

**Iaith Gwaith**

Mae'r bathodyn Iaith Gwaith wedi hen ennill ei blwyf – mae i'w weld ymhobman ac yn gyfle i bobl ddangos eu bod yn siarad Cymraeg a bod croeso i eraill siarad Cymraeg â nhw, boed hynny yn y siop, yn yr ysbyty neu yn y ganolfan hamdden. Mae deunyddiau electronig ar gael hefyd. Mae'r rhain yn cynnwys posteri, logo, llofnod e-bost a chefndiroedd rhyngweithiol ar gyfer cyfarfodydd a digwyddiadau. Mae croeso i unrhyw un lawrlwytho'r **adnoddau** yn rhad ac am ddim o'n gwefan.

Mae sefydliadau yn gallu cynhyrchu nwyddau eu hunain gan ddefnyddio'r brand ar ddeunydd sydd eisoes ar gael i staff e.e brodio'r bathodyn 'Cymraeg' ar wisg, neu osod y bathodyn ar gerdyn adnabod staff sy'n siarad Cymraeg.






Dyma sydd gan rai defnyddwyr i'w ddweud am ddefnyddio'r logo yn y gwaith:

**'Wrth wisgo'r cortyn gwddf a'r logo iaith gwaith arno dwi'n falch iawn o fedru dangos fy mod yn siarad Cymraeg. Mae'n adnodd gwych i addysgu eraill, ac i fedru ymgysylltu gyda staff, dysgwyr ac ymwelwyr o bob math drwy gyfrwng y Gymraeg. Y budd mwyaf yw bod pobl yn medru fy adnabod i fel rhywun all ddefnyddio'r Gymraeg gyda nhw, a dwi'n medru cynnig cefnogaeth yn eu hiaith gyntaf.'**

**'Mae'r bathodyn iaith gwaith yn ofnadwy o bwysig achos mae'n fy ngalluogi i wneud y mwyaf o bob cyfle i siarad Cymraeg. Dwi'n gwerthfawrogi gweld pobl yn ei wisgo ac mae'n gwneud i mi deimlo'n fwy cyfforddus i siarad â nhw yn syth. Dwi hefyd yn mwynhau cael pobl yn defnyddio'r iaith gyda fi pan maent yn gweld fy mod yn gwisgo'r bathodyn.'**

# Amcan 4: Cynyddu defnydd o’r Gymraeg gan sefydliadau ar draws pob sector










## Sioe Mewn Cymeriad a phecyn addysg i ysgolion

Gyda nifer o ddisgyblion ac athrawon ar draws Cymru yn cysylltu gyda ni am wybodaeth penderfynwyd creu pecyn addysg i ysgolion uwchradd. Nod y pecyn yw cynnig ystod eang o adnoddau i athrawon eu defnyddio wrth addysgu dysgwyr ym mlynyddoedd iau yr ysgol uwchradd am rôl a gwaith Comisiynydd y Gymraeg. Mae’r pecyn yn crynhoi cyd-destun ehangach sefyllfa’r Gymraeg yng Nghymru heddiw a sut all disgyblion a phobl ifanc fynd ati i ddefnyddio’r iaith yn eu bywyd o ddydd i ddydd. Mae’r pecyn yn cynnwys chwe chyflwyniad PowerPoint, sgript parod i athrawon, a phecyn o weithgareddau a thasgau trawsgwricwlaidd. Mae’r pecyn ar gael i’w lawrlwytho neu gellir cysylltu gyda ni am fwy o wybodaeth.

Comisiynwyd cwmni Mewn Cymeriad i greu’r sioe i gyd-fynd gyda’r pecyn addysg. Manon Steffan Ros yw awdur y sioe ‘Geiriau’ a chafodd ei pherfformio mewn nifer o ysgolion yn y Canolbarth a’r Gogledd.







# Amcan 4: Cynyddu defnydd o’r Gymraeg gan sefydliadau ar draws pob sector

**Dyma rai sylwadau gan athrawon sydd wedi gweld y sioe:**

‘Mae pwyntiau pwysig wedi eu mynegi mewn ffyrdd hwylus gan eu gwneud yn berthnasol i’r dysgwyr.’

‘Teimlo fod y neges yn realistig, wedi ei wneud ar gyfer y gynulleidfa gywir gyda defnydd o’r iaith a’r actio.’

‘Sbardun i’r plant feddwl a thrafod.’



**Dyma a ddywedodd rhai disgyblion:**

‘Roedd yn hawdd ei ddeall ac yn ddiddorol.’

‘Fe wnes i fwynhau y darn am y tad yn dysgu Cymraeg achos mae Dad fi yn trio dysgu Cymraeg hefyd.’

‘Roedd yn hwyliog ac yn gyffrous.’

Mae’r sioe ar gael erbyn hyn i gael ei pherfformio mewn lleoliadau ar draws Cymru. Cysylltwch gyda Chomisiynydd y Gymraeg neu gyda chwmni **Mewn Cymeriad** yn uniongyrchol am fwy o wybodaeth.

# Sylwebaeth ar berfformiad ariannol

## Uchafbwyntiau'r perfformiad ariannol

Corfforaeth undyn yw Comisiynydd y Gymraeg a ariennir gan Weinidogion Cymru. Ar gyfer y flwyddyn hyd 31 Mawrth 2024, dyrannodd Gweinidogion Cymru gyllideb ar gyfer y categorïau isod, a nodir y gwariant canlynol yn erbyn pob categori:

| | Dyraniad £000 | Alldro £000 | Tanwariant £000 |
|---|---|---|---|
| **Refeniw** | 3,282 | 3,280 | 2 |
| **Cyfalaf** | 94 | 94 | — |
| **Nid yn Arian Parod (dibrisiant ac amorteiddio)** | 245 | 190 | 55 |

Nod y Comisiynydd yw gwario'r gyllideb yn briodol, a chyfeirio adnoddau i feysydd sy'n gyson â'r amcanion strategol, gan sicrhau gwerth am arian. Yn sgil tanwariant mewn meysydd megis dadfeiliadau swyddfeydd a thechnoleg gwybodaeth gwnaethpwyd addasiadau sylweddol i'r gyllideb o fewn y flwyddyn, gan gyfeirio cyllid ychwanegol i feysydd megis cyflogaeth, hyfforddiant a rhaglenni eraill.

# Sylwebaeth ar berfformiad ariannol

| | 2022-23 Alldro £000 | 2023-24 Alldro £000 | 2023-24 [1]Cyllideb £000 | 2023-24 Amrywiant £000 |
|---|---|---|---|---|
| **Costau swyddogion** | 2,410 | 2,632 | 2,594 | (38) |
| **Gweinyddu** | | | | |
| Llety : rhent/lesoedd | 20 | 15 | 17 | 2 |
| Llety : costau eraill | 120 | 107 | 129 | 22 |
| Dadfeiliadau swyddfa | 8 | (109) | — | 109 |
| Teithio a chynhaliaeth | 23 | 37 | 36 | (1) |
| Hyfforddiant a recriwtio | 42 | 55 | 36 | (19) |
| Cyfreithiol a phroffesiynol | 157 | 106 | 147 | 41 |
| Technoleg gwybodaeth | 116 | 112 | 138 | 26 |
| Cyfathrebu | 15 | 14 | 15 | 1 |
| Ffi archwilwyr allanol | 18 | 20 | 20 | — |
| Gweinyddu arall | 2 | 5 | 10 | 5 |
| | 521 | 362 | 548 | 186 |
| Costau prosiect TG | 11 | — | — | — |
| Rhaglenni eraill | 145 | 286 | 127 | (159) |
| Llog net a dalwyd | 4 | — | 4 | 4 |
| Gwariant Refeniw Net | 3,091 | 3,280 | 3,273 | (7) |
| Dibrisiant ac amorteiddiad | 69 | 58 | 124 | 66 |
| Colled ar waredu asedau sefydlog | 10 | 56 | 48 | (8) |
| Dibrisiant asedau Hawl i Ddefnydd | 96 | 76 | 84 | 8 |
| **Gwariant net ar ôl llog a dibrisiant** | **3,266** | **3,470** | **3,529** | **59** |

[1] Cyllideb fewnol derfynol cytunwyd gan y Tîm Arwain ym mis Mawrth 2023

# Sylwebaeth ar berfformiad ariannol

## Costau swyddogion

Yn ogystal â gosod her gyllidebol o £30,000, bu'n rhaid amsugno costau ychwanegol yn sgil taliad untro costau byw o £72,000 a setliad cyflog uwch o tua £46,000, cadwyd y gorwariant o fewn £38,000 i'r gyllideb. Roedd cynnydd i rai costau yn sgil creu swydd cyfarwyddwr ychwanegol a chynnydd i'r croniad gwyliau. Ar y llaw arall, roedd arbedion sylweddol yn sgil trosiant staff, bylchau dros-dro yn y strwythur wrth ail-lenwi swyddi, rheini ar rychwantau is, a phenderfyniadau hir dymor i beidio â phenodi rhai swyddi gwag er mwyn blaen gynllunio ar gyfer toriadau i gyllideb 2024-25.

## Llety: rhent / lesoedd swyddfa a chostau eraill

Arbedwyd costau o tua £16,000 yn erbyn cyllideb 2023-24 wrth derfynu les Siambrau'r Farchnad a symud i swyddfa lai yn Adeiladau'r Llywodraeth. Hefyd arbedwyd costau yng Nghaerfyrddin wrth derfynu cytundebau'n gynnar unwaith bod y penderfyniad i gau'r swyddfa wedi'i wneud. Er hyn bu cynnydd sylweddol i gostau trydan yn swyddfa Caernarfon, ond roedd costau treth annomestig yn llai yn dilyn ailwerthusiad.

## Dadfeiliadau swyddfa

Gyda thair o'r bedair swyddfa yn cau neu'n cael eu hadleoli yn ystod y flwyddyn, roedd modd rhyddhau darpariaethau ar gyfer dadfeiliadau'r swyddfeydd ar derfyn y les. Bu llwyddiant wrth negodi gyda'r landlordiaid ac yn sgil hyn roedd modd rhyddhau darpariaethau o £109,000, ac arall gyfeirio'r gyllideb at ddibenion eraill.

## Teithio a chynhaliaeth

Roedd gwariant ar deithio a chynhaliaeth yn gyson â'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn. Mae cyllideb 2024-25 yn cynllunio ar gyfer llai o wariant mewn meysydd penodol.

## Hyfforddiant, recriwtio a lles

Y prif reswm am wariant uwch ar recriwtio yn ystod 2023-24, oedd penodiadau cyfarwyddwyr i'r Tîm Arwain. Gyda'r arbedion ar y costau dadfeiliadau, bu modd buddsoddi £20,000 yn ychwanegol ar hyfforddiant staff. Mae'r cynlluniau ar gyfer 2024-25 yn disgwyl i'r gwariant ar recriwtio leihau yn sylweddol a chostau hyfforddiant yn dychwelyd i'r lefel blaenorol.

# Sylwebaeth ar berfformiad ariannol

## Cyfreithiol a phroffesiynol

Roedd gwariant ar wasanaethau archwilio mewnol ac allanol ac yswiriant sefydliadol yn gyson â'r gyllideb. Roedd costau ar gyfieithu £8,000 yn llai na'r gyllideb, yn bennaf oherwydd lleihad yn y gofynion am gyfieithu testun. Gwariwyd £12,300 ar gyngor gan ymgynghorwyr mewn perthynas â'r System Rheoli Achosion, nad oedd wedi'i gyllidebu ar ddechrau'r flwyddyn. Bu arbedion o tua £41,000 ar gostau cyfreithiol gyda £8,000 oherwydd llai o ofyn am gyngor ar Fesur y Gymraeg, a £34,000 yn llai ar achosion Tribiwnlys oherwydd rhyddhau darpariaeth o £11,500, a'r gweddill oherwydd lleihad mewn nifer a natur yr achosion yn ystod 2023-24.

## Technoleg gwybodaeth

Roedd tanwariant o £26,000 ar wasanaethau TG yn ystod y flwyddyn. Roedd modd rhyddhau croniadau ar wasanaethau argraffu wrth derfynu'r cytundebau; hefyd roedd arbedion ar gostau trwyddedu Microsoft wrth derfynu tanysgrifiad nad oedd ei angen. Defnyddiwyd elfen o'r tanwariant ar osod gwasanaethau rhyngrwyd, costau uwch ar wasanaethau ffôn, costau rhoi gwasanaethau diogelwch ar waith a chael achrediadau diogelwch.

## Gwariant Rhaglenni eraill

Gosodwyd cyllideb o £127,000 ar ddechrau'r flwyddyn. Gyda darpariaethau a chroniadau yn cael eu rhyddhau ar gyfer dadfeiliadau, costau cyfreithiol a gwasanaethau argraffu, roedd modd cynyddu'r gyllideb ar gyfer rhaglenni. Y canlyniad oedd cyflawni nifer o brosiectau oedd wedi'u cynllunio'n wreiddiol ar gyfer 2024-25 yn gynnar.

## Heriau sy'n wynebu'r Comisiynydd

Dyranwyd cyllideb refeniw o £3,189,000 ar gyfer 2024-25, sy'n doriad o 5% o'i gymharu â 2023-24.

Caiff arbedion o £100,000 eu cyflawni yn 2024-25 drwy gau ac adleoli swyddfeydd ac hefyd drwy beidio â llenwi rhai swyddi a ddaeth yn wag yn chwarter olaf 2023-24. Mae gofynion setliadau cyflog, os na fydd unrhyw arian ychwanegol yn cael ei ddarparu, yn golygu y gallai fod diffyg cyllidebol yn 2025-26 ac i'r dyfodol.

Mae camau gweithredu cynnar wedi'u cymryd i osgoi gorwariant. Serch hynny, mae'n anochel y bydd y camau a gymerwyd yn 2023-24, ac sydd wedi'u cynllunio ar gyfer 2024-25, yn benodol y camau sy'n ymwneud â lleihau niferoedd staffio, yn cael effaith ar allu'r sefydliad i gyflawni ei amcanion strategol i'w llawn botensial. Bydd penderfyniadau anodd i flaenoriaethu rhai rhaglenni gwaith, ac i oedi neu ddileu rhai eraill yn anorfod.

# Rhan 2: Atebolrwydd



Mae'r rhan hwn o'r adroddiad yn amlinellu gwybodaeth am y ffordd rwyf yn rheoli'r sefydliad ac yn arfer llywodraethu corfforaethol da. Fel y Swyddog Cyfrifyddu, mae gennyf gyfrifoldeb personol i sicrhau bod safon uchel o reolaeth ariannol yn y sefydliad. Mae'n ofynnol i mi gyhoeddi datganiad llywodraethiant blynyddol sy'n egluro sut mae'r cyfrifoldeb hwn wedi ei roi ar waith yn ystod y flwyddyn. Mae'r rhan hwn yn cynnwys:


| | |
|---|---|
| Datganiad Llywodraethiant | 68 |
| Adroddiad Cydraddoldeb | 78 |
| Adroddiad Amgylcheddol | 83 |
| Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth | 84 |
| Adroddiad Staff | 95 |
| Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu | 99 |
| Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Senedd | 100 |

# Datganiad Llywodraethiant

Mae'r datganiad llywodraethiant hwn yn nodi sut caiff y ffordd o gyflawni fy nyletswyddau eu llywodraethu a'u rheoli, a sut yr wyf fi, fel Comisiynydd, yn atebol am yr hyn a wnaf.

## Rôl y Comisiynydd

Sefydlwyd Comisiynydd y Gymraeg yn statudol fel corfforaeth undyn o dan adran 1 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Fel corfforaeth undyn a Swyddog Cyfrifyddu rwyf yn bersonol gyfrifol am gyfarwyddo a rheoli'r sefydliad. Apwyntir Panel Cynghori gan Weinidogion Cymru i'm cynghori, ac rwyf wedi apwyntio Pwyllgor Archwilio a Risg er mwyn darparu sicrwydd pellach.

Rwy'n annibynnol o Weinidogion ac yn gyfrifol am bennu cyfeiriad strategol fy swyddfa. Rwy'n atebol i Senedd Cymru am weithredoedd fy swyddfa ac mae'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus yn gallu craffu ar gyfrifon ac effeithiolrwydd fy swyddfa wrth gyflawni fy nyletswyddau statudol.

## Dirprwy Gomisiynydd

Yn unol ag adrannau 12 a 13 y Mesur, mae'n ofynnol i mi benodi Dirprwy Gomisiynydd. Roedd Gwenith Price yn Ddirprwy Gomisiynydd hyd nes ei hymddeoliad ar 27 Hydref 2023. Yn dilyn hynny, penodwyd y Cyfarwyddwr Rheoleiddio, Osian Llywelyn, fel y Dirprwy Gomisiynydd o 12 Chwefror 2024 am gyfnod o dair blynedd. Dymunaf ddiolch i Gwenith Price am ei gwasanaeth i'r sefydliad a'i chefnogaeth i mi yn ystod fy misoedd cyntaf fel Comisiynydd.

## Cynllun Strategol ac adolygu cynnydd

Mae **Cynllun Strategol** yn bodoli am y cyfnod 2022-25. Mae'r cynllun yn cynnwys datganiad o weledigaeth, amcanion strategol hir dymor a blaenoriaethau mesuradwy i'w cyflawni yn ystod oes y strategaeth. Rhoddir y cynllun ar waith drwy gynllun gweithredol blynyddol ac mae trefn mewn lle i adrodd ar ei gyflawniad yn chwarterol. Mae rhan gyntaf yr adroddiad blynyddol hwn yn adrodd ar berfformiad y Cynllun Strategol fesul amcan.

Rwyf ar hyn o bryd yn paratoi Cynllun Strategol newydd am y cyfnod 2025-2030.

# Datganiad Llywodraethiant



## Fframwaith Llywodraethiant

Rwyf yn gweithredu **Fframwaith Llywodraethiant** sydd ar gael ar ein gwefan. Pwrpas y Fframwaith yw egluro sut rwy'n cadw fy annibyniaeth fel corfforaeth undyn a chydbwyso'r annibyniaeth honno â'm hatebolrwydd am yr arian cyhoeddus rwy'n ei dderbyn. Mae'r Fframwaith, sydd yn dilyn arfer da a chanllawiau'r Llywodraeth, yn cynnwys gwybodaeth am fy strwythur llywodraethu, ac yn cynnwys y systemau a'r prosesau, y diwylliant a'r gwerthoedd sy'n cyfeirio ac yn rheoli'r ffordd yr wyf yn gweithredu ac yn defnyddio fy adnoddau. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o'r ffordd y mae'r Fframwaith hwn wedi ei roi ar waith yn ystod y flwyddyn.

## Tîm Arwain

Ar ddechrau'r flwyddyn roedd gennyf Dîm Rheoli yn cynnwys dau Gyfarwyddwr yn gweithio gyda mi i reoli holl swyddogaethau a gweithgareddau'r sefydliad. Bu newidiadau yn aelodaeth y Tîm Rheoli yn ystod y flwyddyn yn cynnwys penodi trydydd Cyfarwyddwr ac fe'i ailenwyd yn Dîm Arwain. Rydym yn cwrdd bob pythefnos ac mae'r cyfarfodydd yn cael eu cadeirio gennyf. Dyma restr o'r aelodaeth yn ystod y flwyddyn:

| | |
|---|---|
| **Efa Gruffudd Jones** | Comisiynydd y Gymraeg |
| **Lowri Williams** | Cyfarwyddwr Strategol |
| **Gwenith Price** | Cyfarwyddwr Strategol a Dirprwy Gomisiynydd (hyd at 27 Hydref 2023) |
| **Siân Elen McRobie** | Cyfarwyddwr Llywodraethiant a Gwasanaethau Corfforaethol (o 2 Hydref 2023 ymlaen) |
| **Osian Llywelyn** | Cyfarwyddwr Rheoleiddio (o 30 Hydref 2023 ymlaen) a Dirprwy Gomisiynydd (o 12 Chwefror 2024) ymlaen. |

Fel grŵp, mae'r Tîm Arwain yn cyfrannu at ddatblygu fy nodau strategol a'm cynllun gweithredol blynyddol; dyrannu adnoddau ariannol, dynol, ac adnoddau eraill mewn ffordd effeithlon ac effeithiol i gyflawni'r nodau a'r amcanion hynny; asesu rheoli risg a chyfleodd; ac asesu perfformiad parhaus y sefydliad yn gyffredinol.

## Panel Cynghori Comisiynydd y Gymraeg

Mae gennyf Banel Cynghori statudol a sefydlwyd dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Penodir yr aelodau gan Weinidogion Cymru am gyfnod o dair blynedd. Caf ymgynghori â'r Panel Cynghori ynghylch unrhyw fater. Caiff y cylch gwaith ei adolygu yn flynyddol ac mae copi i'w weld ar ein **gwefan**.

Cynhaliwyd tri chyfarfod o'r Panel Cynghori yn ystod y flwyddyn a dyma fanylion presenoldeb yr aelodau:

| | Gorffennaf 2023 | Tachwedd 2023 | Mawrth 2024 |
|---|---|---|---|
| Gwyn Williams (Cadeirydd) | ✓ | ✓ | ✓ |
| Nia Elias | ✓ | ✓ | ✓ |
| Anne Davies | ✓ | ✓ | ✓ |
| Elin Maher | ✗ | ✓ | ✓ |
| Rona Aldrich | ✓ | ✓ | ✓ |

Sylwadau Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg, Mair Gwynant:

Yn seiliedig ar waith y Pwyllgor dros y flwyddyn, gallwn adrodd fod yr adroddiadau a rannwyd a'r trafodaethau gyda'r Comisiynydd a'r swyddogion yn rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor fod yna drefniadau, polisïau a phrosesau yn eu lle er mwyn sicrhau llywodraethiant effeithiol; bod yna drefniadau ariannol effeithiol; bod system i reoli risg; a bod rheolaeth fewnol yn gadarn.

Bydd y Pwyllgor yn parhau i graffu ar waith y sefydliad er mwyn sicrhau gwelliant parhaus, llywodraethiant safonol ac ymateb priodol i unrhyw risgiau sy'n codi.

## Pwyllgor Archwilio a Risg

Mae gennyf Bwyllgor Archwilio a Risg sy'n gyfrifol am ddarparu cyngor a sicrwydd annibynnol i mi fel Swyddog Cyfrifyddu ac i'r Tîm Arwain ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd rheolaeth fewnol a rheoli risg. Caiff y **cylch gwaith** ei adolygu yn flynyddol ac mae copi i'w weld ar ein **gwefan**.

Fel rhan o'r cylch gwaith mae'r pwyllgor yn derbyn adroddiadau archwilio mewnol rheolaidd, y gofrestr risg strategol ac adroddiad eithriad ar faterion llywodraethiant a chorfforaethol. Mae'r pwyllgor hefyd yn craffu ar yr adroddiad blynyddol, y cyfrifon statudol ac adroddiadau yr archwilwyr allanol. Rhennir adroddiad cyllid ac adroddiad cynnydd perfformiad chwarterol gyda'r aelodau er gwybodaeth yn ogystal ag adroddiadau penodol fy nhîm mewn ymateb i unrhyw risgiau neu heriau penodol sydd yn codi.

Mae pedwar aelod annibynnol ar y pwyllgor; ac mae trefn ar waith sy'n caniatáu i aelodau ymddeol ar wahanol adegau er mwyn sicrhau parhad profiad a gwybodaeth. Dyma restr o'r aelodaeth a manylion eu presenoldeb yn y pedwar cyfarfod a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn:

| | Mehefin 2023 | Medi 2023 | Rhagfyr 2023 | Mawrth 2024 |
|---|---|---|---|---|
| Mair Gwynant (Cadeirydd) | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Iorwen Brooks-Jones (hyd at 30 Medi 2023) | ✓ | ✓ | | |
| Liz Aitken (hyd at 20 Mawrth 2024) | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Alan Davies | ✓ | × | ✓ | ✓ |
| Jayne Woods (o 1 Hydref 2023 ymlaen) | | | ✓ | ✓ |

# Datganiad Llywodraethiant



Yn ei adroddiad blynyddol rhoddodd yr archwilwyr mewnol y farn ganlynol ar lywodraethiant y sefydliad:

"Mae TIAA yn fodlon, yn seiliedig ar y meysydd a adolygwyd yn ystod y flwyddyn, bod gan Gomisiynydd y Gymraeg brosesau rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu rhesymol ac effeithiol ar waith."

## Archwilwyr Mewnol

Penodwyd cwmni TIAA fel Archwilwyr Mewnol yn dilyn proses dendro ar y cyd ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, Comisiynydd Plant Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru.

Caiff rhaglen archwilio mewnol ei chytuno yn flynyddol fel dull o roi sicrwydd annibynnol a gwrthrychol i mi o ran rheoli risg, rheolaethu a llywodraethu. Yn unol â'r rhaglen ar gyfer 2023-24, archwiliwyd y meysydd gwaith canlynol yn ystod y flwyddyn a derbyniwyd argymhellion ar sut i wneud gwelliannau pellach i'n systemau.

| Maes | Math o archwiliad | Lefel sicrwydd | Nifer yr argymhellion |
|---|---|---|---|
| TGCh – Proses 'Cyber Essentials Plus' | Ymgynghorol | d/b | 3 |
| Rheoli Risg - Rheolaethau Lliniarol | Sicrwydd | Rhesymol | 5 |
| Gwerth am Arian | Sicrwydd | Rhesymol | 2 |
| Prosiect Swyddfeydd | Sicrwydd | Sylweddol | 0 |
| Rheolaeth Ariannol Allweddol | Sicrwydd | Sylweddol | 1 |
| System Rheoli Achosion a Llifoedd Gwaith | Ymgynghorol | d/b | 12 |
| Dilyniant o argymhellion 2022-23 | Dilyniant | d/b | 8 |

Caiff pob adroddiad archwilio mewnol ei gyflwyno a'i ystyried gan y Pwyllgor Archwilio a Risg. Mae'r pwyllgor yn cadw trosolwg o'r cynnydd a wneir yn erbyn argymhellion yr archwilydd mewnol. Rwyf wedi ymateb i'w hargymhellion ac wedi cytuno ar raglen o welliant parhaus.

# Datganiad Llywodraethiant

## Archwilwyr Allanol

Archwilydd Cyffredinol Cymru sydd yn gyfrifol am archwilio y cyfrifon yn unol â pharagraff 19, Atodlen 1 o Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Ni chynhaliwyd unrhyw waith archwilio anstatudol ychwanegol yn ystod 2023-24.

## Rheoli risg

Mae trefniadau rheoli risg y sefydliad yn cael ei arwain gan y Fframwaith Rheoli Risg sy'n dilyn canllawiau'r llywodraeth. Mae'r Tîm Arwain yn adolygu risgiau gweithredol fel rhan o'r adolygiadau cynnydd chwarterol ar y cynllun gweithredol. Yn ogystal, caiff risgiau perthnasol eu nodi ym mhob papur a gyflwynir i'r Tîm Arwain. Caiff y risgiau hyn eu hymgorffori i'r Gofrestr Risg Strategol lle'n berthnasol.

Caiff risgiau ar lefel strategol eu hadolygu'n ffurfiol pob chwarter gan y Tîm Arwain gyda phroses adrodd yn dilyn hynny i'r Pwyllgor Archwilio a Risg. Y Cyfarwyddwr Strategol oedd rheolwr risg y sefydliad am hanner cyntaf y flwyddyn a throsglwyddwyd y cyfrifoldeb hwnnw i'r Cyfarwyddwr Llywodraethiant a Gwasanaethau Corfforaethol ar ei phenodiad. Y Cyfarwyddwr yma yw Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth y sefydliad bellach hefyd ac felly'n arwain ar gadw gorolwg dros holl risgiau'r sefydliad.

Mae'r Fframwaith risg yn cydnabod nad yw'n bosib dileu pob risg ond drwy'r Gofrestr Risg Strategol, caiff risgiau eu hadnabod a'u rheoli ac yna eu gostwng i lefel dderbyniol.

Mewn ymateb i archwiliad mewnol i'r trefniadau rheoli risg yn ystod 2023/24, byddwn yn datblygu y Fframwaith ymhellach wedi trafodaeth ar archwaeth risg ac adolygiad o'r prif risgiau.

Mae'r drafodaeth ar risg yn ystyried cyd-destun yr heriau cyfredol mae'r sefydliad yn eu hwynebu gan gynnwys cyd-destun economaidd anodd, toriadau cyllidebol, pwysau sylweddol ar adnoddau y sefydliad, a'r risg cynyddol o ymosodiadau seibr.

Er fy mod wedi rhoi rhai newidiadau ar waith i sicrhau ein bod yn gweithio o fewn ein cyllideb ar gyfer 2023/24, gan gynnwys lleihau ein hystâd a thorri ar gostau staffio drwy beidio ag ail lenwi swyddi gwag, mae toriadau pellach o 5% yng nghyllideb 2024/25 yn cynyddu'r risg ymhellach ac fe allai hyn arwain at benderfyniadau allai gael effaith ar fy ngallu i gyflawni fy mlaenoriaethau strategol i'r dyfodol.

# Datganiad Llywodraethiant

Mae gwaith sylweddol wedi ei gwblhau yn y flwyddyn i reoli risgiau diogelwch ac i ddatblygu systemau technoleg gwybodaeth y Comisiynydd. Y brif elfen i'w chwblhau yw'r system rheoli achosion gafodd ei datblygu yn 2022/23. Nid oedd yn bosib rhoi'r system ar waith yn ystod 2023/24 ac rydym wedi bod yn ystyried opsiynau gwahanol i sicrhau bod system derfynol yn ei lle sydd yn cwrdd â'r anghenion busnes, yn addas ac yn cynnig gwerth am arian at y dyfodol. Rydym yn derbyn cyngor arbenigol ar y sefyllfa ac yn obeithiol y gallwn roi system ar waith yn ystod 2024/25.

Byddaf yn parhau i weithio gyda'r Tîm Arwain a'r Pwyllgor Archwilio a Risg i drafod a monitro unrhyw risgiau sydd yn codi.

## Llywodraethu gwybodaeth

Mae diogelu data personol yn bwysig iawn ac rwyf yn parhau i weithio i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data. Mae prosesau ar waith i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei chadw'n ddiogel.

Derbyniwyd 11 cais am wybodaeth o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn ystod y flwyddyn (2022-23: 8 cais). Ymatebwyd i'r ceisiadau yma o fewn y terfynau amser a nodir gan y Ddeddf.

Ni dderbyniwyd cais gwrthrych am wybodaeth o dan Ddeddfwriaeth Diogelu Data yn ystod y flwyddyn (2022-23: 0 cais).

## Sicrwydd gan reoleiddwyr allanol eraill

### Ymchwiliadau allanol

Ni chynhaliwyd ymchwiliadau i waith y Comisiynydd yn ystod 2023-24 gan reoleiddwyr allanol yn dilyn cwyn nac achosion diogelu data.

### Risgiau diogelwch

Mae rheoli risgiau diogelwch mewn meysydd amrywiol o ddata, gwybodaeth, ein hamgylchedd Technoleg Gwybodaeth, ein swyddfeydd, a'n staff yn gwbl hanfodol. Yn y 12 mis diwethaf fe wnaethom dderbyn achrediad Cyber Essentials a Cyber Essentials+. Rydym hefyd wedi dechrau gweithio tuag at ennill achrediad IASME, Lefel 1 yn gyntaf a Lefel 2 i ddilyn. Bydd rhain yn cefnogi'r trefniadau sydd eisoes ar waith i sicrhau bod ein polisïau a'n gweithdrefnau mewn perthynas â'r ystod eang o risgiau diogelwch yn cael eu rheoli yn briodol.

### Hygyrchedd y wefan

Gwnaed newidiadau i'r wefan mewn ymateb i broses monitro ar hap gan Wasanaeth Digidol y Llywodraeth (Government Digital Service). Mae hyn yn rhoi sicrwydd bod y wefan yn cydymffurfio â safonau hygyrchedd cynnwys gwefannau a byddaf yn sicrhau ein bod yn adolygu hyn yn flynyddol.

# Datganiad Llywodraethiant

## Cwynion yn erbyn y sefydliad

Mae gennyf **weithdrefn gwyno benodol** os bydd unigolyn am gwyno am weithredoedd neu anweithiau'n ymwneud ag arfer swyddogaethau'r Comisiynydd. Derbyniwyd 6 chwyn yn erbyn y sefydliad yn ystod 2023-24. Deliwyd â'r holl gwynion dan Gam 1 y weithdrefn a symudodd un ohonynt i Gam 2 gyda phob un bellach wedi cau.

## Tribiwnlys y Gymraeg

Yn ystod 2023-24, cyflwynwyd 4 cais gan unigolion i Dribiwnlys y Gymraeg ailystyried penderfyniadau'r Comisiynydd. Ceir crynodeb o bob achos a'r dyfarniad isod. Ni dderbyniwyd unrhyw apêl gan sefydliad yn ystod y flwyddyn.

| Rhif cyfeirnod | Crynodeb | Dyfarniad y Tribiwnlys |
|---|---|---|
| TyG/23/1 | Cais gan yr apelydd yn gofyn am adolygiad gan y Tribiwnlys, dan adran 103 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ("y Mesur"), o benderfyniad Comisiynydd y Gymraeg i beidio â chynnal ymchwiliad i gŵyn mewn perthynas â methiant honedig i gydymffurfio â safonau'r Gymraeg (arwyddion a llunio polisi). | Cadarnhaodd y Tribiwnlys nad oedd angen iddo wneud penderfyniad ar y cais yn sgil penderfyniad y Comisiynydd i ddiddymu ei benderfyniad gwreiddiol ac agor ymchwiliad i'r gŵyn. |
| TyG/23/2 | Apêl yn erbyn dyfarniad y Comisiynydd yn dilyn ymchwiliad na fu methiant ar ran Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam i gydymffurfio â safon 86 o Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015.<br>Mae Safon 86 yn dweud:<br>"Os byddwch yn datblygu cwrs addysg sydd i'w gynnig i'r cyhoedd, rhaid ichi asesu'r angen i'r cwrs hwnnw gael ei gynnig yn Gymraeg; a rhaid ichi sicrhau bod yr asesiad wedi ei gyhoeddi ar eich gwefan."<br>Gwnaeth y Comisiynydd gais i ddileu'r apêl.<br>Cafodd y gwrandawiad ei glywed ar 19 Chwefror 2024. | Cadarnhaodd y Tribiwnlys ei fod yn caniatáu cais y Comisiynydd i ddileu'r apêl ar y sail nad oedd wedi datgelu seiliau rhesymol. |

| Rhif cyfeirnod | Crynodeb | Dyfarniad y Tribiwnlys |
|---|---|---|
| TyG/23/3 | Apêl yn erbyn dyfarniad y Comisiynydd yn dilyn ymchwiliad na fu methiant gan Gyngor Abertawe i gydymffurfio â safon 69 o Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 wrth gyhoeddi hysbysiad swyddogol yn Saesneg yn unig.<br>Sail penderfyniad y Comisiynydd dros ddod i'r dyfarniad hwn oedd bod yr hysbysiad swyddogol dan sylw wedi ei ragnodi gan Ddeddf gael ei llunio'n Gymraeg, ac felly wedi ei heithrio o ofynion safon 69. | Cadarnhaodd y Tribiwnlys benderfyniad y Comisiynydd ac ni chaniatawyd yr apêl. |
| TyG/23/4 | Cais gan yr apelydd yn gofyn am adolygiad gan y Tribiwnlys, dan adran 103 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ("y Mesur"), o benderfyniad Comisiynydd y Gymraeg i beidio â chynnal ymchwiliad i gŵyn fod Cyngor Sir Gâr wedi methu â chydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, gan nad oedd wedi cyhoeddi ei adroddiad blynyddol ar gydymffurfio gyda'r Safonau ar gyfer 2022 – 2023, yn unol ag amserlen y Safonau, ac nad oedd adroddiad blaenorol (2021 – 2022) ar gael yn hygyrch ar wefan y Cyngor. | Ni wnaeth y Tribiwnlys roi caniatâd i'r cais gael ei wneud dan adran 103 Mesur y Gymraeg. |

# Datganiad Llywodraethiant

## Cofrestr buddiannau

Caiff y gofrestr buddiannau ei diweddaru ddwywaith y flwyddyn. Cyhoeddir gwybodaeth am fuddiannau'r Tîm Arwain ac aelodau'r Panel Cynghori a'r Pwyllgor Archwilio a Risg ar y wefan. Ni chafwyd trafodion materol perthnasol yn ystod y flwyddyn lle roedd y Comisiynydd, y cyfarwyddwyr neu'r uwch swyddogion, yn ymwneud â sefydliadau yn uniongyrchol nac yn anuniongyrchol.

## Twyll

Mae gweithdrefnau a pholisïau ar waith i sicrhau nad yw'r sefydliad yn goddef twyll. Cyflwynwyd y Gofrestr Risg Twyll i'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn ystod y flwyddyn ac ymatebodd fy nhîm a'r Pwyllgor Archwilio a Risg i holiadur Archwilio Cymru ar lefelau rheolaeth mewnol yn ymwneud â thwyll fel rhan o'r archwiliad blynyddol. Ni fu achos o dwyll yn y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024.

## Effeithiolrwydd trefniadau chwythu'r chwiban

Mae'n arfer da gan gyflogwyr i osod gweithdrefnau chwythu'r chwiban mewnol. Cymeradwywyd fersiwn diwygiedig o Bolisi Chwythu'r Chwiban Comisiynydd y Gymraeg gan y Tîm Arwain ym mis Chwefror 2024. Mae manylion cyswllt Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg a rheolwr o fewn tîm Archwilwyr Mewnol y Comisiynydd, TIAA, wedi eu cynnwys yn y polisi fel unigolion y gall swyddogion godi pryderon gyda nhw. Ni fu unrhyw ddigwyddiad yn ystod y flwyddyn o bryderon dan y polisi chwythu chwiban.

## I gloi

Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwy'n fodlon bod gweithdrefnau llywodraethiant addas a phriodol yn y sefydliad ac mae barn yr archwilwyr a'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn cefnogi hynny. Yn ystod 2024/25 byddaf yn parhau i fonitro, cynnal a, phan fo'n briodol, gwella'r fframwaith llywodraethu i sicrhau fy mod yn derbyn y sicrwydd angenrheidiol yn fy rôl fel Swyddog Cyfrifyddu.



**Efa Gruffudd Jones**
Swyddog Cyfrifyddu

### Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-24 a datblygu cynllun newydd

2023-24 oedd blwyddyn olaf weithredol Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-24. Roedd gwaith cynllunio i'w wneud o fewn y flwyddyn er mwyn paratoi cynllun newydd o Ebrill 2024 ymlaen. Yn ystod y flwyddyn, cynhaliodd y Comisiynydd gyfres o weithdai mewnol wedi'u hwyluso gan ddarparwr allanol i gasglu barn ei swyddogion ar y cynllun blaenorol ac adnabod themâu i'w cynnwys yn y cynllun nesaf. Derbyniwyd mewnbwn gan y Panel Cynghori.

Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar amcanion drafft ar gyfer y cyfnod 2024-28 a chynhaliwyd sesiynau ymgysylltu ar-lein dan ofal hwylusydd allanol gyda nifer o grwpiau cynrychioladol. Cymeradwywyd y **cynllun newydd terfynol** ym mis Mawrth 2024 a bydd yn weithredol rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2028. Mae'r amcanion o fewn y cynllun newydd yn adeiladu ar yr amcanion a'r gwaith a wnaed o fewn y cynllun blaenorol.



### Asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb

Parhaodd yr arfer o ddefnyddio templed ar gyfer cynnal asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb. Mae'r gwaith o ystyried ffactorau amgylcheddol ac effaith economaidd gymdeithasol yn parhau i gael eu rhoi ar waith er mwyn cryfhau'r broses o wneud penderfyniadau ar brosiectau unigol. Mae bwriad i adolygu'r templed hwn er mwyn sicrhau bod hyn yn rhan hanfodol o waith swyddogion dan y cynllun nesaf.

## Cynnydd yn erbyn amcanion

Darperir crynodeb isod o'r cynnydd a wnaed yn ystod y flwyddyn yn erbyn y pum amcan o fewn y cynllun.

### Amcan 1: Bydd y Comisiynydd yn cynyddu amrywiaeth a chynhwysiant y gweithlu

Ar 31 Mawrth 2024, roeddem yn cyflogi 41.97 o bobl (cyfwerth â llawn amser). Rydym yn gyson yn casglu a chynnal data cydraddoldeb am ein holl swyddogion yn seiliedig ar y 9 nodwedd warchodedig. Nid yw'n orfodol i swyddogion ei gwblhau, felly mae angen ystyried hynny wrth ddadansoddi data. Fodd bynnag, ar y cyfan mae staff yn barod i rannu'r wybodaeth hon a byddwn yn parhau i'w hannog i'w lenwi.

Mae dehongli data amrywiaeth yn ystyrlon yn anodd mewn sefydliad bach, lle gall nifer isel o unigolion newid canrannau ar draws y sefydliad yn sylweddol. Mae hefyd yn golygu na allwn gyhoeddi'r rhan fwyaf o'n data amrywiaeth sy'n ymwneud â'r 9 nodwedd warchodedig. Er hynny, caiff y data hwn ei fonitro'n fewnol gan ein tîm Adnoddau Dynol ac fe'i hadolygir yn rheolaidd. Hyd yn hyn ni fu unrhyw fater sy'n peri pryder; ond byddwn yn darparu gwybodaeth pan fydd modd gwneud hynny.

Mae'r Comisiynydd yn gwrthwynebu'n llwyr unrhyw wahaniaethu ar ba bynnag sail. Gweithredir prosesau teg a chyson wrth ddewis a dethol swyddogion newydd ac rydym yn gweithredu cynllun cyfweliad gwarantedig i unrhyw un sydd ag anabledd, fel y'i diffinnir gan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010, ac sy'n cyrraedd y gofynion hanfodol ar gyfer y swydd. Wrth ddefnyddio arferion cyflogaeth teg a gwrthrychol, bydd y Comisiynydd yn sicrhau bod swyddogion yn cael eu trin yn deg a gyda pharch yn y gweithle, ac yn cael cyfle cyfartal i gyfrannu ac i gyflawni i'w potensial llawn. Byddai addasiadau rhesymol a/neu hyfforddiant yn cael eu darparu ar gyfer swyddogion a ddaeth yn bobl ag anabledd yn ystod eu cyflogaeth gyda'r Comisiynydd.

Rydym yn parhau i ofyn i ymgeiswyr swyddi gwblhau holiadur cydraddoldeb fel rhan o'r broses recriwtio, ac, wrth wneud, rydym yn casglu data ar 7 o'r 9 nodwedd warchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r data eleni yn dangos bod ystod ehangach o bobl wedi ymgeisio am swyddi o'i gymharu â lefelau amrywiaeth y gweithlu sefydlog. Yn benodol, rydym wedi denu canran uwch o ddynion a phobl sydd wedi datgan anabledd na sydd o fewn ein gweithlu ar hyn o bryd. Y mae hynny'n arwydd cadarnhaol y bydd modd ehangu amrywiaeth y gweithlu wrth edrych at y dyfodol.



Wrth hysbysebu swyddi dros y flwyddyn diwethaf, cymrwyd camau rhagweithiol i ymestyn ein cyrhaeddiad i grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli. Fe wnaethom hynny drwy hysbysebu gyda Diverse Cymru a Chyngor Hil Cymru. Wrth edrych ymlaen, byddwn yn adeiladu ar y gwaith hwn drwy ymgysylltu â grwpiau ehangach gan edrych ar ddenu ystod ehangach o ymgeiswyr i'n swyddi.

Er mwyn annog gwell cynhwysiant a dealltwriaeth ymysg staff, rydym wedi cynnal hyfforddiant yn y meysydd canlynol: gwrth-hiliaeth, rhagfarn ddiarwybod, cydraddoldeb, iechyd meddwl, a hygyrchedd wrth greu dogfennau.

### Amcan 2: Bwlch cyflog

Mae'r broses o benodi staff a gosod eu cyflogau yn dilyn trefn gyson a theg nad yw'n ffafrio'r naill ryw dros y llall. Fodd bynnag, oherwydd maint y sefydliad gall newidiadau bychain i'r strwythur gael effaith sylweddol ar yr ystadegau.

Nid yw'n ofynnol i ni gyhoeddi ein bwlch cyflog ar sail rhywedd oherwydd ein bod yn gyflogwr rhy fach, ond rydym yn ei gyfrifo ac yn dewis ei gyflwyno'n flynyddol yn yr adroddiad blynyddol (gweler tudalen 95). Ar 1 Ebrill 2023 roedd y bwlch o blaid menywod ond oherwydd newidiadau staffio yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae'r bwlch wedi newid i fod o blaid dynion o fewn y gweithlu ar 31 Mawrth 2024.

Mae'r bwlch cyflog yn destun monitro cyson ac rydym yn parhau i gadw golwg ar y mathau o gytundebau, a phatrymau gweithio'r gweithlu er mwyn deall a delio â rhwystrau posibl all godi.

### Amcan 3: Bydd y Comisiynydd yn ymgysylltu â'r gymuned

Yn ystod y flwyddyn bu'r Comisiynydd yn ymweld â nifer fawr o sefydliadau a mudiadau o bob math ar draws Cymru yn cynnwys Prifysgol Wrecsam, y Samariaid, Antur Waunfawr, carchar y Parc, yr Egin, Galeri a llawer mwy. Yn ystod wythnos y Cynnig Cymraeg yn benodol bu BBC Radio Cymru yn ymweld â nifer o fudiadau sydd wedi derbyn y gymeradwyaeth e.e Banc Bwyd Arfon, fferyllfa Boots a chanolfan XPlore, a chyhoeddwyd blogiau newydd ar ein gwefan.

Bu presenoldeb hefyd mewn digwyddiadau cenedlaethol yn cynnwys Eisteddfod yr Urdd, y Sioe Amaethyddol a'r Eisteddfod Genedlaethol. Bu hynny'n gyfle i drafod a rhannu gwybodaeth gyda chynulleidfaoedd eang a chynrychiolwyr o amrywiaeth o fudiadau, elusennau a sefydliadau.

Mae ymweliadau ag ysgolion megis Ysgol Gyfun Ystalyfera, Coleg Llandrillo Menai ac Ysgol Bro'r Preseli wedi bod yn bwysig iawn wrth i ni wrando ar farn a safbwyntiau ein pobl ifanc am bynciau yn ymwneud â'r Gymraeg gan sicrhau ein bod yn gwrando ac yn ystyried eu llais wrth gynllunio gwaith a gwneud penderfyniadau. Rydym yn lansio pecyn addysg a sioe gan gwmni Mewn Cymeriad i ysgolion uwchradd a fydd yn ffordd o rannu gwybodaeth, gan roi cyfle i'r ysgolion drafod yr iaith a'i dylanwad arnyn nhw.

Un o uchafbwyntiau'r flwyddyn oedd ymgyrch Defnyddia dy Gymraeg pan fu ein cyfryngau cymdeithasol yn brysur tu hwnt gyda thros gant o sefydliadau a mudiadau yn rhannu ein cynnwys ac yn creu cynnwys eu hunain i ddangos pa gyfleoedd sydd ar gael i'r cyhoedd i ddefnyddio'r Gymraeg

ar draws pob sector. Crëwyd ffilmiau byrion hefyd gydag ysgol, busnes, elusen, a charchar a chafwyd sylw yn y wasg Gymraeg a Saesneg yn ystod yr ymgyrch. Yn ystod y flwyddyn mae dau bodlediad newydd wedi bod yn gyfrwng newydd i ni ymestyn allan ac i ymgysylltu â chynulleidfaoedd amrywiol.

### Amcan 4: Sicrhau bod cydraddoldeb yn rhan o'r broses gaffael / comisiynu ac yn cael ei reoli drwy'r broses ddarparu drwyddi draw

Mae gofynion cydraddoldeb yn parhau i fod rhan ganolog o'n proses gaffael a chomisiynu. Fel sefydliad, rydym yn defnyddio'r egwyddorion a osodir gan Lywodraeth Cymru a'r Gwasanaeth Sifil wrth ystyried ein proses gaffael, gan sicrhau bod egwyddorion cydraddoldeb yn greiddiol i'r modd y pwrcesir gwasanaethau gan y Comisiynydd.

Mae gennym ddogfen fewnol, 'Adroddiad asesu perfformiad contract' sydd eisoes wedi ei haddasu er mwyn sicrhau bod y rheolwr contractau yn asesu gofynion cydraddoldeb lle bo hynny'n berthnasol. Roedd hynny yn elfen allweddol o'r broses gaffael eleni ar gyfer pob gwasanaeth a gomisiynwyd.

Bydd gofynion caffael newydd yn dod i rym yn ystod 2024-25 ac mae trafodaethau wedi cychwyn eisoes gydag aelodau o rwydwaith cyllid y cyrff sydd wedi'u hariannu gan Lywodraeth Cymru wrth baratoi at y newidiadau. Byddwn yn parhau i gydweithio i rannu arferion effeithiol a defnyddiol gyda'n gilydd. Byddwn yn sicrhau bod cysondeb yn y modd rydym yn hyrwyddo ein gwaith ar gydraddoldeb, ac yn pwrcasu a chomisiynu gwaith sy'n ateb ein gofynion statudol.

### Amcan 5: Sicrhau bod anghenion unigol yn cael eu hadlewyrchu wrth weithredu swyddogaethau

Rydym wedi bod yn casglu gwybodaeth gan achwynwyr am ddata amrywiaeth er mwyn dod i wybod am unrhyw rwystrau sy'n bodoli i dderbyn gwasanaethau'r Comisiynydd a gallu ymateb i hynny. Nid yw'n bosib cyhoeddi'r data gan fod yr ymatebion yn isel ond nid oes unrhyw bryderon wedi eu nodi o'r ymatebion dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn

Rydym yn ymateb i unrhyw geisiadau unigol sy'n codi mewn perthynas â phob agwedd o'n gwaith ac yn gweithredu yn rhagweithiol mewn ymateb i ganlyniadau asesiadau effaith cydraddoldeb. Rhai enghreifftiau sydd wedi codi yn ystod y flwyddyn yw gwneud addasiadau rhesymol mewn cyfweliadau ar gyfer unigolion ag anghenion penodol yn ystod proses recriwtio, sicrhau isdeitlau ar fideos a gaiff eu cyhoeddi a chyhoeddi dogfennau hygyrch.

# Adroddiad Amgylcheddol

Fel tenant, ychydig iawn o ddylanwad sydd gan y Comisiynydd dros gynnal a chadw'r adeiladau, a does dim dylanwad dros y cyflenwad a'r ddarpariaeth dŵr. Trydan yw'r unig gyflenwad ynni a ddefnyddir ac mae hyn yn darparu golau a gwres, yn ogystal â phweru offer swyddfa arferol.

Mae'r gostyngiad welwyd yn y blynyddoedd diwethaf mewn defnydd a gwastraff a waredir o'r swyddfa wedi parhau yn ystod 2023-24 wrth i ni barhau i weithio mewn ffordd fwy di-bapur. Yn ogystal, rydym yn parhau i ddewis cyfarfod yn rhithiol yn gyntaf pan fod hynny yn bosib. O ganlyniad mae nifer y teithiau busnes wedi parhau yn sylweddol is na'r cyfnod cyn y pandemig.

Un o'r newidiadau eraill a ddaeth yn dilyn y pandemig oedd cyflwyno Canllaw gweithio hybrid yn 2022. Yn ystod y flwyddyn daeth swyddogion i arfer â'r canllaw hwn a chawsant fwy o ddewis o ran eu hamgylchedd gweithio. Er mwyn cydbwyso yr angen i leihau teithio diangen â lles staff, mae'r Comisiynydd bellach yn annog staff i weithio cyfran o'r wythnos yn y swyddfa gan eu galluogi i barhau i ddewis eu hamgylchedd gwaith am weddill yr amser. Caiff hyn ei adolygu ymhellach yn ystod 2024-25.

Mae'r Comisiynydd hefyd wedi lleihau nifer y swyddfeydd yn ystod 2023-24 ac mae'r staff oedd wedi eu lleoli yn y swyddfeydd hynny bellach wedi newid eu statws i fod yn 'weithwyr cartref'. Mae hyn hefyd wedi lleihau'r pwysau ar y defnydd o'n swyddfeydd. Symudwyd i swyddfa lai yng Nghaerdydd sydd hefyd wedi arwain at allu rhannu adnoddau a gweithredu yn fwy effeithlon.

Bu hefyd gwaith paratoi yn ystod y flwyddyn ar gyfer gofynion ailgylchu newydd yn y gweithle a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2024. Roedd hyn yn cynnwys gosod biniau pwrpasol ar wahân ar gyfer ailgylchu gwastraff o bob math, a gosod arwyddion newydd i godi ymwybyddiaeth am y gofynion ac i annog lleihau gwastraff.

Tuag at ddiwedd y flwyddyn, adolygwyd y Polisi Cynaliadwyedd presennol a chaiff polisi a chynllun gweithredu newydd eu rhoi ar waith yn ystod 2024. Mae bwriad hefyd i sefydlu grŵp mewnol i roi'r polisi ar waith ac i sicrhau cynllun gweithredu newydd ar gyfer 2024-7.

# Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth

## Cytundebau Gwasanaeth

Mae Deddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethiant 2010 yn gofyn bod penodiadau Gwasanaethau Cyhoeddus yn cael eu gwneud ar sail teilyngdod a chystadleuaeth deg ac agored. Mae'r Egwyddorion Recriwtio a gyhoeddwyd gan Gomisiwn y Gwasanaeth Sifil yn pennu'r amgylchiadau pan ellir gwneud penodiadau fel arall.

Oni nodir yn wahanol isod, mae gan y swyddogion yn yr adroddiad hwn benodiadau sy'n ben agored. Byddai ymadawiadau cynnar, ac eithrio am gamymddwyn, yn arwain at yr unigolyn yn derbyn iawndal fel nodir yng Nghynllun Digolledu'r Gwasanaeth Sifil.

## Polisi Taliadau Cydnabyddiaeth

Mae swyddogion Comisiynydd y Gymraeg yn parhau ar amodau a thelerau sy'n gyson â rhai Llywodraeth Cymru. Mae gan y Comisiynydd bolisi i gydnabod staff sy'n ymgymryd â dyletswyddau ychwanegol tu hwnt i'w rôl arferol ar sail dros dro. Mae'r polisi hwn yn glynu'n agos at drefniant tebyg gan Lywodraeth Cymru.

Mae Cynllun Datblygu Perfformiad yn weithredol ar gyfer ein holl swyddogion. Ni chyplysir taliadau cydnabyddiaeth â pherfformiad ar gyfer swyddogion sydd yn bodloni'r gofynion sylfaenol ar gyfer y swydd, er gellir hepgor y cynnydd yn rhychwant y tâl pan nad yw'r gofynion perfformiad sylfaenol wedi eu bodloni.

Ar y cyfan, cyflogir swyddogion (gan gynnwys uwch swyddogion) i swyddi parhaol. Mae cyfnodau rhybudd yn amrywio o bedair wythnos i dri mis, gan ddibynnu ar lefel a hyd gwasanaeth.

Telir aelodau'r Panel Cynghori, a benodwyd gan Weinidogion Cymru, yn unol â chyfraddau a osodwyd gan Lywodraeth Cymru. Telir aelodau o'r Pwyllgor Archwilio a Risg, a benodwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg, ar raddfeydd tebyg i aelodau'r Panel Cynghori.

# Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth

Mae'r adran hon yn amodol ar archwiliad

Rhestrir yn yr adrannau sy'n dilyn daliadau cydnabyddiaeth a diddordebau pensiwn y Comisiynydd a'r cyfarwyddwyr sydd ag awdurdod neu sy'n gyfrifol am arwain a rheoli prif weithgareddau'r Comisiynydd:

| | Cyflog (£000) | | [1] Buddion Pensiwn (i'r £1,000 agosaf) | | Cyfanswm (£000) | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2023-24 | 2022-23 | 2023-24 | 2022-23 | 2023-24 | 2022-23 |
| Efa Gruffudd Jones [2] | 95-100 | 20-25 | 37,000 | 8,000 | 130-135 | 30-35 |
| Osian Llywelyn [3] | 25-30 | - | 12,000 | - | 40-45 | - |
| Gwenith Price [4] | 40-45 | 80-85 | (13,000) | 65,000 | 30-35 | 145-150 |
| Lowri Williams [5] | 55-60 | 10-15 | 42,000 | 0 | 95-100 | 10-15 |
| Dyfan Sion [6] | - | 50-55 | - | 25,000 | - | 75-80 |
| Siân Elen McRobie [7] | 30-35 | 35-40 | 12,000 | 17,000 | 40-45 | 50-55 |

[1] Caiff gwerth y buddion pensiwn ei gyfrifo fel a ganlyn: (cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn* x20) + (cynnydd gwirioneddol mewn unrhyw gyfandaliad*) - (cyfraniadau a wneir gan aelod) *ac eithrio cynnydd oherwydd chwyddiant neu unrhyw gynnydd neu ostyngiad o ganlyniad i drosglwyddo hawliau pensiwn.

Caiff gwerth buddion pensiwn ei gyfrifo gan MyCSP, sefydliad sydd yn gyfrifol am weinyddu Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar ran y Gwasanaeth Sifil. Nid oes gan Gomisiynydd y Gymraeg unrhyw ddylanwad dros y cyfrifo na'r symiau a adroddwyd. Nid yw hwn yn swm y mae'r sefydliad wedi ei dalu i swyddog yn ystod y flwyddyn; mae'n gyfrifiad sy'n defnyddio gwybodaeth o'r tabl buddion pensiwn. Gall nifer o ffactorau ddylanwadu ar y ffigurau hyn e.e. newidiadau mewn cyflog swyddog, p'un a ydyw'n dewis gwneud cyfraniadau ychwanegol i'r cynllun pensiwn o'i gyflog yn ogystal â ffactorau prisio eraill sy'n effeithio ar y cynllun pensiwn yn ei gyfanrwydd.

# Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth

[2]Penodwyd yn Gomisiynydd ar 09/01/2023. Roedd y cyflog blynyddol cywerth â llawn amser yn 2022-23 rhwng £95,000 a £100,000.

[3] Penodwyd yn gyfarwyddwr ar 30/10/2023. Roedd y cyflog blynyddol cywerth â llawn amser rhwng £70,000 a £75,000. Derbyniodd y cyfarwyddwr lwfans o 10% o'r cyflog am ddirprwyo i Gomisiynydd y Gymraeg yn ystod cyfnodau absenoldeb neu ar gais y Comisiynydd ar gyfer y cyfnod 12/02/2024 hyd 31/03/2024.

[4] Wedi ymddeol fel cyfarwyddwr ar 27/10/2023. Derbyniodd y cyfarwyddwr lwfans o 10% o'r cyflog am ddirprwyo i Gomisiynydd y Gymraeg yn ystod cyfnodau absenoldeb neu ar gais y Comisiynydd ar gyfer y cyfnod hyd 27/10/2023. Roedd y cyflog blynyddol cywerth â llawn amser rhwng £75,000 a £80,000.

[5] Penodwyd yn gyfarwyddwr ar 09/01/2023. Roedd y cyflog blynyddol cywerth â llawn amser yn 2022-23 rhwng £50,000 a £55,000.

[6] Ymddiswyddodd fel cyfarwyddwr ar 30/12/2022. Roedd y cyflog blynyddol cywerth â llawn amser yn 2022-23 rhwng £65,000 a £70,000.

[7] Penodwyd yn gyfarwyddwr ar 02/10/2023. Roedd y cyflog blynyddol cywerth â llawn amser rhwng £60,000 a £65,000.



# Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth

## Cyflog

Mae 'cyflog' yn cynnwys cyflog gros, goramser a lwfans cyfrifoldeb pan fo'n briodol. Mae'r adroddiad hwn wedi ei seilio ar daliadau cronedig gan Gomisiynydd y Gymraeg a gofnodwyd yn y cyfrifon hyn.

Caiff Comisiynydd y Gymraeg ei benodi gan Brif Weinidog Cymru yn unol ag Atodlen 1 Paragraffau 3(1) a 6(1) Mesur y Gymraeg. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn aelod o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PGPGS). Wrth bennu unrhyw gynnydd blynyddol yn nhâl y Comisiynydd, bydd Prif Weinidog Cymru yn ystyried argymhellion y Corff Adolygu Cyflogau uwch-swyddogion (SSRB), corff sy'n cynghori Prif Weinidog y Deyrnas Unedig a'r gweinyddiaethau datganoledig ar lefelau tâl y sector cyhoeddus.

## Tâl yn seiliedig ar berfformiad

Ni wnaed taliadau yn seiliedig ar berfformiad na thaliadau bonws yn ystod 2023-24 i uwch swyddogion (2022-23: £0).

## Buddion mewn da

Mae gwerth ariannol buddion mewn da yn cwmpasu unrhyw fuddion a ddarperir gan y cyflogwr ac a ystyrir gan Gyllid a Thollau EF yn daliad trethadwy. Ni wnaed buddion mewn da yn ystod 2023-24 i uwch swyddogion (2022-23: £0).

# Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth

[1] Nid oes newid wedi bod i fand cyflog y swyddog uchaf ei dâl, sef y Comisiynydd.

[2] Mae'r cynnydd o 6.5% yn y tâl cymedrig oherwydd cynnydd i'r cyfraddau cyflog yn dilyn y setliad tâl, a staff yn symud i rychwant uwch yn y band cyflog.

[3] Bu lleihad i'r cymhareb ar gyfer pwyntiau tâl 25ain, 50ain, a 75ain canolraddol oherwydd cynnydd i'r cyfraddau cyflog yn dilyn y setliad tâl, a staff yn symud i rychwant uwch yn y band cyflog, pan nad oedd newid i gyflog y swyddog uchaf ei dâl.

## Tâl cydnabyddiaeth: amrediad a chanolrif

Gofynnir i gyrff sy'n adrodd, ddatgelu amrediad tâl swyddogion a'r berthynas rhwng tâl y swyddog uchaf ei dâl yn eu sefydliad a thâl gweithlu'r sefydliad.

| | Newid % | 31 Mawrth 2024 | 31 Mawrth 2023 |
|---|---|---|---|
| Band cyflog (£000) y swyddog uchaf ei dâl [1] | 0.0 | 95-100 | 95-100 |
| Rhychwant tâl uchaf (ac eithrio'r swyddog uchaf ei dâl) | | 77,159 | 70,290 |
| Rhychwant tâl isaf | | 32,141 | 27,890 |
| Tâl cymedrig [2] | | 44,269 | 41,737 |
| Tâl cymedrig (ac eithrio'r swyddog uchaf ei dâl) [2] | 6.5% | 43,090 | 40,469 |
| Pwynt tâl 25ain canraddol | | 38,420 | 36,590 |
| Pwynt tâl 50ain canraddol | | 41,675 | 39,690 |
| Pwynt tâl 75ain canraddol | | 45,843 | 43,660 |
| Cymhareb pwynt tâl 25ain canraddol â'r swyddog uchaf ei dâl [3] | | 2.54 | 2.66 |
| Cymhareb pwynt tâl 50ain canraddol â'r swyddog uchaf ei dâl [3] | | 2.34 | 2.46 |
| Cymhareb pwynt tâl 75ain canraddol â'r swyddog uchaf ei dâl [3] | | 2.13 | 2.23 |

Cyfrifir cyfanswm canolrifol y gydnabyddiaeth drwy ddefnyddio tâl cywerth â llawn amser (cyflog gros) yr holl swyddogion, heb gynnwys y Comisiynydd, a hynny ar y dyddiad adrodd.

# Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth

## Ymgynghorwyr

Gwnaethpwyd taliadau o £83,900 i ymgynghorwyr yn ystod y flwyddyn (2022-23: £246,200). Noder y prif elfennau gwariant fel a ganlyn:

£25,800
gwaith dadansoddi Cyfrifiad 2021

£12,300
cyngor ar y system Rheoli Achosion

£5,000
astudiaethau enghreifftiol

£15,000
arolwg Strategaethau Hybu

£6,900
awdit o hygyrchedd y wefan a chamau cywiro

£6,000
asesu hyfywedd iaith

## Trefniadau oddi ar y gyflogres

Ni wnaethpwyd unrhyw daliadau i unigolion dan drefniadau oddi ar y gyflogres yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2024 (2022-23: £0).

# Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth

## Pensiynau'r Gwasanaeth Sifil

| Enw | Cyfanswm y pensiwn cronedig a chyfandaliad perthnasol ar oedran ymddeol ar 31/03/2024 | Cynnydd Gwirioneddol mewn pensiwn a chyfandaliad perthnasol ar oedran ymddeol | Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod 31/03/2024 | Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod 31/03/2023 | Cynnydd Gwirioneddol yng Ngwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod | Cyfraniad y cyflogwr i gyfrif pensiwn partneriaeth |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £100 agosaf |
| Efa Gruffudd Jones | 0-5 | 0-2.5 | 40 | 7 | 25 | - |
| Osian Llywelyn | 10-15 | 0-2.5 | 134 | 125 | 6 | - |
| Gwenith Price | 35-40 | 0-2.5 | 805 | 775 | (19) | - |
| Lowri Williams | 20-25 | 0-2.5 | 367 | 306 | 32 | - |
| Siân Elen McRobie | 10-15 | 0-2.5 | 113 | 106 | 5 | - |

# Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth

Darperir buddion pensiwn drwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Ar 1 Ebrill 2015 cyflwynwyd cynllun pensiwn newydd ar gyfer gweision sifil - Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill neu **alpha**, sydd yn darparu buddiannau ar sail cyflog holl yrfa gydag oedran ymddeol arferol cydradd ag Oedran Pensiwn Statudol yr aelod (neu 65 os yn hŷn). O'r dyddiad hwnnw ymaelododd pob gwas sifil a benodwyd o'r newydd a'r rhan fwyaf o'r rhai a oedd eisoes mewn gwasanaeth ag **alpha**. Cyn y dyddiad hwnnw roedd gweision sifil yn aelodau o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PGPGS). Mae gan y PGPGS bedair adran: 3 yn darparu buddiannau ar sail cyflog terfynol (**classic, premium** neu **classic plus**) gydag oedran ymddeol arferol o 60; ac un sy'n darparu buddiannau ar sail cyflog holl yrfa (**nuvos**) gydag oedran ymddeol arferol o 65.

Nid yw'r trefniadau statudol hyn wedi eu hariannu, Senedd y Deyrnas Unedig sy'n diwallu costau'r buddion bob blwyddyn. Cynyddir pensiynau sy'n daladwy o dan **classic**, **premium**, **classic plus**, **nuvos** ac **alpha** yn flynyddol yn unol â deddfwriaeth Cynyddu Pensiynau. Parhaodd aelodau'r PGPGS a oedd o fewn 10 mlynedd o'u hoedran ymddeol arferol ar 1 Ebrill 2012 yn y PGPGS ar ôl 1 Ebrill 2015. Bydd y rhai a oedd rhwng 10 mlynedd a 13 mlynedd a 5 mis o'u hoedran ymddeol arferol ar 1 Ebrill 2012 yn ymuno ag alpha rhywbryd rhwng 1 Mehefin 2015 a 1 Chwefror 2022. Oherwydd bod y Llywodraeth yn bwriadu cael gwared ar y gwahaniaethu a nodwyd gan y llysoedd yn y dull y cyflwynwyd diwygiadau pensiwn 2015 ar gyfer rhai aelodau, disgwylir, maes o law, y gallai aelodau cymwys sydd â gwasanaeth perthnasol rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022 fod â hawl i fuddion pensiwn gwahanol mewn perthynas â'r cyfnod hwnnw (a gallai hyn effeithio ar y Gwerthoedd Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod a ddangosir yn yr adroddiad hwn - gweler uchod). Mae buddiannau PGPGS pob aelod sydd yn newid i **alpha** yn cael eu 'bancio', gyda buddiannau blaenorol y rhai yn un o'r adrannau cyflog terfynol y PGPGS yn seiliedig ar eu cyflog terfynol pan fyddant yn gadael **alpha**. (Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnir ar gyfer swyddogion yn dangos pensiwn adeiladwyd yn PGPGS neu alpha - fel y bo'n briodol. Lle mae gan y swyddog fuddiannau yn y PGPGS ac **alpha** y swm a ddyfynnir yw gwerth cyfunol eu buddiannau yn y ddau gynllun.) Gall aelodau a ymaelododd â'r cynllun o fis Hydref 2002 ddewis rhwng ymaelodi â'r trefniant budd diffiniedig priodol neu ymaelodi â phensiwn rhanddeiliad (pwrcasu ariannol) gyda chyfraniad ystyrlon gan y cyflogwr (cyfrif pensiwn **partnership**).

# Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth

Pennir cyfraniadau'r cyflogai yn ddibynnol ar eu cyflog ac maent yn amrywio rhwng 4.60% ac 8.05% o'r enillion pensiynadwy ar gyfer **classic**, **premium**, **classic plus**, **nuvos** ac **alpha**. Bydd buddion y cynllun **classic** yn cronni ar raddfa 1 rhan mewn 80 o'r cyflog pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal, mae cyfandaliad sy'n gywerth â thair blynedd o bensiwn dechreuol yn daladwy adeg ymddeol. Ar gyfer **premium**, bydd buddion yn cronni ar raddfa 1 rhan mewn 60 o'r enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i **classic**, ni cheir cyfandaliad awtomatig. Yn ei hanfod, mae **classic plus** yn gynllun cymysg, gyda buddion am wasanaeth cyn 1 Hydref 2002 wedi eu cyfrifo'n fras fel **classic**, a buddion am wasanaeth o Hydref 2002 wedi eu cyfrif fel **premium**. Yn nuvos, mae aelod yn adeiladu pensiwn sydd wedi ei seilio ar ei gyflog pensiynadwy yn ystod cyfnod ei aelodaeth o'r cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth), caiff cyfrif pensiwn cyflogadwy'r aelod ei gredydu â 2.3% o gyflog pensiynadwy'r flwyddyn gynllun honno a chaiff y pensiwn cronedig ei uwchraddio yn unol â deddfwriaeth Cynyddu Pensiynau. Mae buddiannau **alpha** yn cronni yn yr un modd â **nuvos** ac eithrio bod y gyfradd cronni yn 2.32%. Ym mhob achos, gall aelodau ddewis ildio (cyfnewid) pensiwn am gyfandaliad hyd at y terfynau a osodir gan Ddeddf Cyllid 2004.

Mae'r cyfrif pensiwn **partnership** yn drefniant pensiwn cyfraniadau diffiniedig galwedigaethol sy'n rhan o'r Legal & General Mastertrust. Bydd y cyflogwr yn gwneud cyfraniad sylfaenol rhwng 8% a 14.75% (gan ddibynnu ar oedran yr aelod). Nid oes rhaid i'r cyflogai gyfrannu, ond lle byddant yn cyfrannu, bydd y cyflogwr yn cyfrannu'n gyfatebol hyd at 3% o'r cyflog pensiynadwy (yn ogystal â chyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Bydd cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.5% pellach o gyflog pensiynadwy er mwyn talu am sicrwydd budd risg a ddarperir yn ganolog (marwolaeth mewn gwasanaeth ac ymddeoliad ar sail salwch).

Y pensiwn cronedig a nodir yw'r pensiwn y mae hawl gan yr aelod i'w dderbyn pan fydd yn cyrraedd oedran ymddeol, neu'n syth wedi iddo beidio â bod yn aelod gweithredol o'r cynllun os bydd eisoes wedi cyrraedd yr oedran ymddeol. Yr oedran ymddeol yw 60 ar gyfer aelodau **classic**, **premium** a **classic plus**, a 65 ar gyfer aelodau **nuvos**, a'r uchaf o 65 neu'r Oedran Ymddeol Statudol ar gyfer aelodau **alpha**. (Mae'r symiau pensiwn a ddyfynnir ar gyfer swyddogion yn dangos pensiwn a enillwyd yn PGPGS neu **alpha** - fel y bo'n briodol. Lle bo gan y swyddog fuddiannau yn PGPGS ac alpha y swm a ddyfynnir yw gwerth cyfunol eu buddiannau yn y ddau gynllun, ond nodir gallai rhan o'r pensiwn hwnnw fod yn daladwy o wahanol oedrannau.)

Ceir rhagor o wybodaeth am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar y wefan https://www.civilservicepensionscheme.org.uk/

# Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth

## Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod

Ystyr Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod (GTGAP) yw'r gwerth cyfalaf wedi ei asesu gan actwari o fuddion cynllun pensiwn sydd wedi eu cronni gan aelod ar adeg benodol mewn amser. Y buddion y rhoddir gwerth arnynt yw buddion cronedig yr aelod a phensiwn cymar amodol sy'n daladwy o'r cynllun. Mae GTGAP yn daliad a wneir gan gynllun pensiwn neu drefniant er mwyn sicrhau buddion pensiwn mewn cynllun pensiwn neu drefniant arall lle bydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion a gronnwyd yn y cynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn ymwneud â'r buddion y mae'r unigolyn wedi eu cronni o ganlyniad i gyfanswm eu haelodaeth o'r cynllun pensiwn, ac nid yn unig eu gwasanaeth mewn swyddogaeth uwch y mae'r datgeliad yn berthnasol iddi.

Mae'r ffigurau yn cynnwys gwerth unrhyw fudd pensiwn mewn cynllun arall neu drefniant y mae'r aelod wedi ei drosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fudd pensiwn arall a gronnir i'r aelod o ganlyniad i'r ffaith ei fod wedi pwrcasu budd pensiwn ychwanegol ar ei gost ei hun. Cyfrifir GTGAPau yn unol â'r Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (fel y'u diwygiwyd) 2008, ond nid ydynt yn ystyried unrhyw wir ostyngiad neu ostyngiad potensial i fudd-daliadau sy'n deillio o'r Dreth Lwfans dros oes a allai fod yn daladwy pan gymerir budd-daliadau pensiwn.

## Cynnydd gwirioneddol mewn GTGAP

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn GTGAP sydd wedi ei ariannu gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd yn y pensiwn cronedig oherwydd chwyddiant, cyfraniadau a dalwyd gan y cyflogai (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun pensiwn neu drefniant arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisio cyffredin y farchnad ar gyfer cychwyn a diwedd y cyfnod.

## Rhwymedigaethau pensiwn

Mae Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PGPGS) ac **alpha** yn gynlluniau buddiannau diffiniedig heb eu hariannu ar gyfer nifer o gyflogwyr ac o ganlyniad nid oes modd i Gomisiynydd y Gymraeg adnabod ei chyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol. Pennodd actiwari'r cynllun werth y cynllun ar 31 Mawrth 2020. Mae gwybodaeth ar gael yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet:

(Civil Superannuation Annual Report and Account 2022-23).

# Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth

Telir i'r Tâl-feistr Cyffredinol symiau priodol i gynrychioli rhwymedigaethau cronedig Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Ceir rhagor o fanylion yn yr Adroddiad Staff ar dudalen 98 ac yn nodyn 1.9 i'r cyfrifon.

Ar gyfer 2023-24, roedd cyfraniadau'r cyflogwr o £509,000 (2022-23: £500,000) yn daladwy i gynlluniau pensiwn y gwasanaeth sifil ar un o bedair graddfa rhwng 26.6% a 30.3% (2022-23: 26.6% i 30.3%) o gyflog pensiynadwy, yn seiliedig ar fandiau cyflog. Mae Actiwari'r Cynllun yn adolygu cyfraniadau'r cyflogwr, gan amlaf bob pedair blynedd, yn dilyn prisiant llawn o'r cynllun. Diwygiwyd y bandiau cyflog a chyfraddau'r cyfraniadau ar gyfer 2019-20 a byddant yn parhau heb eu newid hyd 2024-25. Mae cyfraddau'r cyfraniadau yn adlewyrchu buddion wrth iddynt gael eu cronni, nid pan delir y costau mewn gwirionedd, ac maent yn adlewyrchu profiad blaenorol y cynllun.

Gall swyddogion ddewis agor cyfrif pensiwn **partnership**, sef cynllun pensiwn rhanddeiliad â chyfraniad cyflogwr. Mae cyfraniadau'r cyflogwr yn ddibynnol ar oedran ac ar raddfa rhwng 8.0% a 14.75% o gyflog pensiynadwy. Mae'r cyflogwr hefyd yn rhoi cyfraniad cyfatebol o hyd at 3% o gyflog pensiynadwy. Nid oes unrhyw swyddog sy'n gyflogedig gan Gomisiynydd y Gymraeg yn aelod o'r cynllun pensiwn **partnership**.

Nid oes unrhyw berson wedi ymddeol ar sail afiechyd yn ystod y flwyddyn.

# Adroddiad staff

## Demograffeg oedran/rhyw'r gweithlu

Oedran cymedrig staff Comisiynydd y Gymraeg ar 31 Mawrth 2024 oedd 42.0 mlwydd oed (2022-23: 41.5 mlwydd oed). Crynhoir demograffeg rhyw y cyfarwyddwyr a'r staff ar 31 Mawrth 2024 yn y tabl isod:

| | | **31 Mawrth 2024** | | 31 Mawrth 2023 | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **Gwryw** | **Menyw** | Gwryw | Menyw |
| Comisiynydd a'r Cyfarwyddwyr | cywerth â llawn amser | **1.0** | **3.0** | 0.0 | 3.0 |
| | % | **25.0** | **75.0** | 0.0 | 100.0 |
| Swyddogion eraill | cywerth â llawn amser | **13.0** | **25.0** | 14.0 | 24.6 |
| | % | **34.2** | **65.8** | 36.2 | 63.8 |
| Cyfanswm | cywerth â llawn amser | **14.0** | **28.0** | 14.0 | 27.6 |
| | % | **33.4** | **66.6** | 33.6 | 66.4 |

## Bwlch tâl ar sail rhyw

Crynhoir bwlch tâl ar sail rhyw gweithlu Comisiynydd y Gymraeg ar 31 Mawrth 2024 yn y tabl isod:

| | **31 Mawrth 2024** | 31 Mawrth 2023 |
|---|---|---|
| Bwlch tâl cymedrig ar sail rhyw | **2.7%** | -2.7% |
| Canolrif y bwlch tâl ar sail rhyw | **0.0%** | 0.0% |

Y brif ffactor sydd yn dylanwadu ar newid yn y bwlch tâl cymedrig o blaid swyddogion gwrywaidd, yw'r newidiadau yn nemograffeg rhyw y staff ar amryw raddau o ganlyniad i recriwtio a dyrchafiadau yn ystod y flwyddyn.

# Adroddiad staff

## Rheoli absenoldeb a phresenoldeb

Cyfanswm y diwrnodau gwaith a gollwyd drwy absenoldeb salwch am y cyfnod 1 Ebrill 2023 hyd 31 Mawrth 2024 oedd 110.5 (2022-23: 111.5).  O'r diwrnodau gwaith a gollwyd drwy salwch, roedd 100% (2022-23: 100.0%) ohonynt oherwydd absenoldeb tymor byr a 0% (2022-23: 0.0%) oherwydd absenoldeb hirdymor (diffiniad absenoldeb hirdymor yw absenoldeb o fwy nag 20 diwrnod am yr un rheswm).  Dylid nodi bod absenoldebau oherwydd COVID-19 yn cynrychioli 25% o'r holl ddyddiau gwaith a gollwyd oherwydd salwch, a bod hwn yn lleihad o'i gymharu â 2022-23 (32%).

Cyfartaledd y diwrnodau gwaith a gollwyd fesul pen (cywerth â llawn amser) oedd 2.6 (2022-23: 2.6) a hynny wedi ei seilio ar 42.2 aelod o staff cywerth â llawn amser (2022-23: 42.2).

Mae'r Comisiynydd yn nodi'r rhesymau am absenoldeb drwy salwch ac roedd 9% o'r diwrnodau gwaith a gollwyd am resymau iechyd meddwl (2022-23: 3%). Roedd yr absenoldebau hyn i gyd yn absenoldebau tymor byr.

Ar gyfartaledd collwyd 7.7 niwrnod gwaith fesul pen yn y sector cyhoeddus yn 2022 oherwydd salwch, gyda rhesymau iechyd meddwl yn cael eu nodi ar gyfer 13% o absenoldebau *.

* Arolwg y Gweithlu – Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol (26/04/2023)

## Trosiant staff

Roedd cyfradd trosiant staff yn 2023-24 yn 9.5% (2022-23: 13.8%).

## Lles

Mae lles swyddogion yn hollbwysig i'r Comisiynydd, ac yn ystod y flwyddyn ehangwyd y gwasanaethau i hybu iechyd a lles ymysg staff.  Rydym wedi cynnig y brechlyn ffliw i bob swyddog yn rhad ac am ddim a thanysgrifio i Wasanaeth Cymorth i Gyflogeion cynhwysfawr trwy ddarparwr blaengar yn y maes sef BHSF hyd 31/03/2024.  O 01/04/2024 mae VivUp yn darparu'r gwasanaeth dan gytundeb fframwaith Llywodraeth Cymru.  Rydym hefyd wedi darparu adnoddau i gefnogi lles ariannol ein staff a chynnal amryw o sesiynau i hybu iechyd a lles da ymysg swyddogion.  Yn ogystal, cynigir buddion i staff fel Cynlluniau Talebau Gofal Plant, a chynllun beicio i'r gwaith sy'n ysgogi ymarfer corff a lleihau allyriadau carbon wrth deithio i'r swyddfeydd.

# Adroddiad staff

## Arolwg staff

Cynhaliwyd arolwg staff blynyddol y Comisiynydd yn Rhagfyr 2023, gyda 56% o'r gweithlu yn ymateb.

Roedd canlyniadau'r arolwg yn gadarnhaol, gyda gwelliant o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol yn 11 o'r 12 meysydd y seiliwyd y cwestiynau arnynt. Mae ymwneud staff â'r broses yn bwysig, a threfnir ystod o sesiynau briffio a gweithdai trafod yn ystod y flwyddyn i wrando ar sylwadau a chasglu syniadau.

## Dysgu a datblygu

Mae'r Comisiynydd yn gweithredu trefn datblygu perfformiad sy'n sicrhau bod swyddogion yn deall yr hyn a ddisgwylir ganddynt wrth eu gwaith ac yn sicrhau bod ganddynt y sgiliau a'r gallu i gyflawni hynny.

Hyrwyddir cyfleoedd dysgu a datblygu i'r holl staff a chyflwynwyd rhaglen o ddatblygiad personol ar draws y sefydliad yn y flwyddyn a fu er mwyn nodi unrhyw anghenion penodol ac i ddatblygu sgiliau'r gweithlu. Trefnwyd cyrsiau trwy ddarparwyr amrywiol gan gynnwys Coleg y Gwasanaeth Sifil, Data Cymru, Ysgol Economaidd Llundain (LSE), a CIPR.

Ystyrir yr opsiynau mwyaf cost effeithiol wrth ddiwallu anghenion hyfforddi a datblygu, a chynigir amrywiaeth o ddulliau hyfforddi lle bo hynny'n ymarferol bosibl.

## Cydnabyddiaeth undeb

Mae gan y sefydliad gangen cydnabyddedig o undeb y PCS, ac mae cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal rhwng cynrychiolwyr y gangen, y Comisiynydd, y Cyfarwyddwr Llywodraethiant a Gwasanaethau Corfforaethol a'r Uwch Swyddog Adnoddau Dynol.

## Cofrestr rhoddion

Mae gan y Comisiynydd gofrestr rhoddion. Nid oes unrhyw eitem a gofnodwyd yn cael ei ystyried yn faterol berthnasol i'w gynnwys yn yr adroddiad hwn.

# Adroddiad staff

## Niferoedd swyddogion a chostau perthnasol

| | Staff Parhaol | Staff ar gytundeb cyfnod penodol | Secondiad i mewn | **Cyfanswm 2023-24** | Cyfanswm 2022-23 |
|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | **£000** | £000 |
| **Costau swyddogion** | | | | | |
| Cyflog | 1,836 | 81 | – | **1,917** | 1,724 |
| Nawdd cymdeithasol | 187 | 9 | – | **196** | 189 |
| Pensiwn | 489 | 20 | – | **509** | 471 |
| | **2,512** | **110** | – | **2,622** | 2,384 |
| Ffioedd aelodau pwyllgorau | | | | **10** | 13 |
| Staff drwy asiantaeth | | | | – | 13 |
| Cyfanswm | | | | **2,632** | 2,410 |

| | **2023-24** | 2022-23 |
|---|---|---|
| **Niferoedd swyddogion** | | |
| Comisiynydd y Gymraeg | **1.0** | 0.2 |
| Staff parhaol | **39.1** | 39.5 |
| Swyddogion ar gytundeb cyfnod penodol | **2.1** | 2.0 |
| Secondiad i mewn | **0.0** | 0.5 |
| Staff drwy asiantaeth | **0.0** | 0.2 |
| Nifer cyfartalog (1) | **42.2** | 42.4 |
| Aelodau o bwyllgorau (2) | **9.0** | 9.0 |

[1] Nifer cywerth â llawn amser a gyflogwyd yn ystod y flwyddyn.

[2] Mae'r aelodau yn cynnwys 5.0 aelod o'r Panel Cynghori (2022-23: 5.0) a 4.0 aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Risg (2022-23: 4.0) ar gyfartaledd yn ystod y flwyddyn

Ceir gwybodaeth am fuddiannau cyflog a phensiwn y Comisiynydd ac uwch swyddogion y Comisiynydd ar dudalennau 85 i 86 a 90 i 94.

# Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

Yn unol ag Atodlen 1 Paragraff 18(1), Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, mae'n ofynnol i Gomisiynydd y Gymraeg lunio cyfrifon o ran pob blwyddyn ariannol yn unol â'r ffurf a'r sail a nodir yn y Cyfarwyddiadau Cyfrifon a roddir, gyda chydsyniad Trysorlys EF, gan Weinidogion Cymru. Llunnir y cyfrifon ar sail groniadol, ac mae'n rhaid iddynt roi darlun gwir a theg o sefyllfa'r Comisiynydd ac o'r gwariant net, datganiad sefyllfa ariannol, newidiadau yn ecwiti'r trethdalwr a'r llifoedd arian am y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion y *Government Financial Reporting Manual* ac yn arbennig i:

- cadw at gyfarwyddyd cyfrifon a roddwyd gan Weinidogion Cymru, gan gynnwys y gofynion perthnasol o ran cadw cyfrifon a datgeliadau, a gweithredu polisïau cyfrifo perthnasol a'u defnyddio'n gyson;
- llunio penderfyniadau ac amcangyfrifon mewn modd rhesymol;
- datgan a gadwyd at y safonau cyfrifo perthnasol a osodwyd yn y *Government Financial Reporting Manual*, a datgelu ac esbonio unrhyw wyro materol a welir yn y cyfrifon;
- llunio cyfrifon ar sail bod yn fusnes gweithredol; a
- chadarnhau bod yr Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol hyn yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy a chymryd cyfrifoldeb personol am yr Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol ac am y farn sydd ei hangen er mwyn pennu eu bod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

Yn unol ag Atodlen 1 Paragraff 16(1), Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, y Comisiynydd yw'r Swyddog Cyfrifyddu. Mae cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys cyfrifoldeb am sicrhau priodoldeb a rheoleidd-dra'r cyllid cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n atebol amdano, tros gadw cofnodion priodol ac i warchod asedau Comisiynydd y Gymraeg, wedi eu nodi yn y memorandwm, *Managing Public Money*, a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF a Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

Fel Swyddog Cyfrifyddu rwyf wedi cymryd pob cam y dylwn fod wedi ei gymryd i wneud fy hun yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod archwilwyr Comisiynydd y Gymraeg yn ymwybodol o'r wybodaeth honno. Hyd y gwn, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r archwilwyr yn ymwybodol ohonynt.

**Efa Gruffudd Jones**
Swyddog Cyfrifyddu
15/08/2024

# Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Senedd

## Barn ar y datganiadau ariannol

Rwy'n tystio fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Comisiynydd y Gymraeg ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024 o dan Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys y Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr, Datganiad Sefyllfa Ariannol, Datganiad Llifoedd Arian, Datganiad Newidiadau yn Ecwiti'r Trethdalwyr a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisïau cyfrifyddu perthnasedd arwyddocaol. Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a'r safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd yn y DU fel y'u dehonglwyd ac y'u haddaswyd gan Lawlyfr Adrodd Ariannol Trysorlys EF.

Yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa materion Comisiynydd y Gymraeg ar 31 Mawrth 2024 ac o'i gwariant net, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar y dyddiad hwnnw;
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd yn y DU fel y'u dehonglwyd ac y'u haddaswyd gan Lawlyfr Adrodd Ariannol Trysorlys EF;
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a gyhoeddwyd o dan Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

## Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol, mae'r gwariant a'r incwm yn y datganiadau ariannol wedi cael eu cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

## Sail y barnau

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISAs (Y DU)) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio Datganiadau Ariannol Endidau'r Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Caiff fy nghyfrifoldebau dan y safonau hynny eu disgrifio ymhellach yn yr adran o'm tystysgrif sy'n nodi cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol.

Mae fy staff a minnau'n annibynnol ar y corff yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio yr wyf wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'm barnau.

# Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Senedd

## Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod defnyddio'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol i baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi'i gyflawni, nid wyf wedi adnabod unrhyw ansicrwydd perthnasol mewn perthynas â digwyddiadau neu amodau a all, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r corff i barhau i fabwysiadu'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r dyddiad pan awdurdodir cyhoeddi'r datganiadau ariannol.
Caiff fy nghyfrifoldebau i a chyfrifoldebau Comisiynydd y Gymraeg mewn perthynas â busnes gweithredol eu disgrifio yn yr adrannau perthnasol o'r dystysgrif hon.

Caiff y sail gyfrifyddu busnes gweithredol ar gyfer Comisiynydd y Gymraeg ei mabwysiadu gan ystyried y gofynion yn Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF, sy'n ei gwneud yn ofynnol i endidau fabwysiadu'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol lle disgwylir y bydd y gwasanaethau a ddarperir ganddynt yn parhau i'r dyfodol.

## Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth yn yr adroddiad blynyddol, heblaw am y datganiadau ariannol a'm hadroddiad i fel archwilydd ar y rhain. Comisiynydd y Gymraeg sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw fy marn am y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall a, heblaw i'r graddau a nodir yn benodol fel arall yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar yr wybodaeth arall honno. Fy nghyfrifoldeb i yw darllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn berthnasol anghyson â'r datganiadau ariannol neu wybodaeth a gafwyd wrth gyflawni'r archwiliad, neu'n ymddangos fel arall fel pe bai wedi cael ei chamddatgan yn berthnasol. Os wyf yn canfod anghysonderau perthnasol o'r fath neu wybodaeth berthnasol o'r fath sy'n ymddangos fel pe bai wedi cael ei chamddatgan, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn achosi camddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi'i wneud, os wyf yn dod i'r casgliad bod y wybodaeth arall hon wedi'i chamddatgan yn berthnasol, mae'n ofynnol i mi nodi'r ffaith honno.

Nid oes unrhyw beth gennyf i'w nodi yn hyn o beth.

# Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Senedd

## Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, mae'r rhan o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol a Staff sydd i'w harchwilio wedi cael ei pharatoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a wnaed dan Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd a gaiff eu harchwilio wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a wnaed dan Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011; ac
- mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn unol â'r gofynion cyfreithiol perthnasol.

## Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad

Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth am y corff a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Blynyddol.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol, yn fy marn i:

- nid wyf wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad;
- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu priodol neu ni chafwyd ffurflenni sy'n ddigonol ar gyfer fy archwiliad o ganghennau nad ymwelodd fy nhîm â hwy;
- nid yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Atebolrwydd a gaiff ei harchwilio yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu;
- nid yw gwybodaeth a nodir gan Weinidogion Cymru ynghylch cydnabyddiaeth ariannol a thrafodion eraill wedi cael ei datgelu;
- nid yw datgeliadau penodol ynghylch cydnabyddiaeth ariannol a nodir gan Lawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF wedi cael eu gwneud neu nid yw rhannau o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol a Staff sydd i'w harchwilio yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nid yw'r Datganiad Llywodraethu'n adlewyrchu cydymffurfiaeth â chanllawiau Trysorlys EF.

# Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Senedd

## Cyfrifoldebau Comisiynydd y Gymraeg am y datganiadau ariannol

Fel a esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, Comisiynydd y Gymraeg sy'n gyfrifol am:

- gadw cofnodion cyfrifyddu priodol;
- paratoi datganiadau ariannol ac Adroddiad Blynyddol yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol ac am fod wedi'i argyhoeddi eu bod yn rhoi darlun gwir a theg;
- sicrhau bod yr Adroddiad Blynyddol a'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy;
- sicrhau rheoleidd-dra trafodion ariannol;
- pa bynnag reolaethau mewnol sy'n angenrheidiol ym marn y Swyddog Cyfrifyddu i allu paratoi datganiadau ariannol heb unrhyw gamddatganiadau perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall;
- asesu gallu'r corff i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel y bo'n gymwys, faterion sy'n ymwneud â'r busnes gweithredol a defnyddio sail gyfrifyddu busnes gweithredol oni bai bod y Swyddog Cyfrifyddu yn rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan y corff yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

## Cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb yw archwilio'r datganiadau ariannol, eu hardystio ac adrodd arnynt yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch p'un a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhai heb unrhyw gamddatganiad perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall, a chyhoeddi tystysgrif sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU wastad yn canfod camddatganiad perthnasol pan fo'n bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn golygu achosion o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau. Rwy'n cynllunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a nodir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

# Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Senedd

Roedd fy ngweithdrefnau'n cynnwys y canlynol:

- holi'r rheolwyr, yr archwilwyr mewnol a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennaeth ategol mewn perthynas â pholisïau a gweithdrefnau Comisiynydd y Gymraeg sy'n ymwneud ag:

— adnabod, gwerthuso a chydymffurfio â deddfau a rheoliadau a phu'n a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio;
— canfod ac ymateb i'r risgiau o dwyll a phu'n a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, tybiedig neu honedig; a hefyd
— y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau.

- ystyried fel tîm archwilio sut a ble allai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll. Fel rhan o'r drafodaeth hon, canfûm botensial ar gyfer twyll yn y meysydd canlynol: cofnodi siwrneiau anarferol;

- cael dealltwriaeth am y fframwaith awdurdod sydd gan Gomisiynydd y Gymraeg, yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae Comisiynydd y Gymraeg yn gweithredu oddi mewn iddynt, gan ganolbwyntio ar y deddfau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Comisiynydd y Gymraeg;

- cael dealltwriaeth am berthnasoedd partïon cysylltiedig.

Yn ychwanegol at yr uchod, roedd fy ngweithdrefnau i ymateb i risgiau a ganfuwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol a phrofi yn erbyn dogfennaeth ategol i asesu cydymffurfiaeth â deddfau a rheoliadau perthnasol a drafodir uchod;

- holi'r rheolwyr, y Pwyllgor Archwilio a Risg ac ymgynghorwyr cyfreithiol ynghylch ymgyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosibl;

- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, y Tîm Arwain a'r Panel Cynghori;

- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll trwy wrthwneud rheolaethau gan reolwyr, profi priodoldeb cofnodion dyddlyfr ac addasiadau eraill; asesu a yw'r dyfarniadau a wnaed wrth lunio amcangyfrifon cyfrifyddu'n rhoi arwydd o wyrduedd bosibl; a gwerthuso'r rhesymeg fusnes dros unrhyw drafodion arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i gwrs arferol busnes.

# Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Senedd

Fe wnes i hefyd gyfleu deddfau a rheoliadau dynodedig perthnasol a risgiau posibl o dwyll i holl aelodau'r tîm archwilio ac aros yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau trwy gydol yr archwiliad.

Effeithir ar y graddau y mae fy ngweithdrefnau'n gallu canfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, gan yr anhawster cynhenid o ran canfod afreoleidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau Comisiynydd y Gymraeg, a natur, amseriad a hyd a lled y gweithdrefnau archwilio a gyflawnwyd.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm hadroddiad archwilio.

## Cyfrifoldebau eraill yr archwilydd

Mae'n ofynnol fy mod yn derbyn tystiolaeth sy'n ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi cael eu cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Rwy'n cyfathrebu gyda'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch, ymhlith pethau eraill, cwmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau archwilio arwyddocaol, gan gynnwys unrhyw ddiffygion arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol yr wyf yn eu hadnabod yn ystod fy archwiliad.

## Adroddiad

Nid oes unrhyw sylwadau gennyf i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

**Adrian Crompton**

Archwilydd Cyffredinol Cymru
20/08/2024

1 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd

Cyfrifoldeb y Swyddog Cyfrifyddu yw hygrededd gwefan Comisiynydd y Gymraeg a'r gwaith o gynnal y wefan honno; nid yw'r gwaith a gyflawnir gan archwilwyr yn cynnwys ystyriaeth o'r materion hyn ac, yn unol â hynny, nid yw archwilwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldebau am unrhyw newidiadau a allai fod wedi cael eu cyflwyno i'r datganiadau ariannol ers eu cyflwyno'n wreiddiol ar y wefan.

# Rhan 3 : Datganiadau Ariannol




| | |
|---|---|
| Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr | 107 |
| Datganiad Sefyllfa Ariannol | 108 |
| Datganiad Llifoedd Arian | 109 |
| Datganiad Newidiadau yn Ecwiti'r Trethdalwyr | 110 |
| Nodiadau'r Cyfrifon | 111 |

# Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2024

| | Nodiadau | | 2023-24 | | 2022-23 |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **£000** | **£000** | £000 | £000 |
| **Gwariant** | | | | | |
| Costau Swyddogion | 3 | **2,632** | | 2,410 | |
| Gweinyddu | 4 | **418** | | 531 | |
| Prosiect TG | | **—** | | 11 | |
| Gwariant rhaglenni eraill | 5 | **286** | | 145 | |
| Amorteiddiad ar asedau anghyffyrddadwy | 6 | **17** | | 13 | |
| Dibrisiant ar asedau hawl i ddefnydd | 7 | **76** | | 96 | |
| Dibrisiant ar eiddo, offer a pheiriannau | 8 | **41** | | 56 | |
| | | | **3,470** | | 3,262 |
| **Incwm** | | | — | | |
| Gwariant net | | | **3,470** | | 3,262 |
| Costau llog ar rwymedigaethau lesoedd | 12 | | **6** | | 5 |
| Llog (derbynadwy)/taladwy net arall | | | **(6)** | | (1) |
| **Gwariant net ar ôl llog** | | | **3,470** | | 3,266 |

Mae'r holl weithgareddau a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn yn parhau.
Mae'r nodiadau ar dudalennau 111 i 128 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

# Datganiad Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2024

Mae'r nodiadau ar dudalennau 111 i 128 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

Mae'r datganiadau ariannol ar dudalennau 107 i 110 wedi eu cymeradwyo gan y Swyddog Cyfrifyddu ac wedi eu llofnodi gan:

**Efa Gruffudd Jones**
Swyddog Cyfrifyddu
15/08/2024

| | Nodiadau | 31 Mawrth 2024 £000 | 31 Mawrth 2024 £000 | 31 Mawrth 2023 £000 | 31 Mawrth 2023 £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Asedau nad ydynt yn gyfredol** | | | | | |
| Asedau anghyffyrddadwy | 6 | **308** | | 328 | |
| Asedau hawl i ddefnydd | 7 | **179** | | 177 | |
| Eiddo, offer a pheiriannau | 8 | **104** | | 108 | |
| **Cyfanswm asedau nad ydynt yn gyfredol** | | | **591** | | 613 |
| **Asedau cyfredol** | | | | | |
| Masnach a symiau eraill sy'n dderbyniadwy | 9 | **47** | | 81 | |
| Arian parod ac arian cywerth | 10 | **175** | | 173 | |
| **Cyfanswm asedau cyfredol** | | | **222** | | 254 |
| **Cyfanswm asedau** | | | **813** | | 867 |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | | | |
| Masnach a symiau eraill sy'n daladwy | 11 | **(397)** | | (257) | |
| Rhwymedigaethau hawl i ddefnydd | 12 | **(39)** | | (75) | |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol** | | | **(436)** | | (332) |
| **Cyfanswm asedau nad ydynt yn gyfredol ac asedau cyfredol net** | | | **377** | | 535 |
| **Rhwymedigaethau nad ydynt yn gyfredol** | | | | | |
| Rhwymedigaethau hawl i ddefnydd | 12 | **(122)** | | (104) | |
| Darpariaethau | 13 | **(100)** | | (265) | |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau nad ydynt yn gyfredol** | | | **(222)** | | (369) |
| **Asedau llai rhwymedigaethau** | | | **155** | | 166 |
| **Ecwiti'r trethdalwyr** | | | **155** | | 166 |
| Cronfa gyffredinol | | | **155** | | 166 |

# Datganiad Llifoedd Arian am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2024

Mae'r nodiadau ar dudalennau 111 i 128 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

| | Nodiadau | 2023-24 £000 | 2022-23 £000 |
|---|---|---|---|
| **Llifoedd arian o weithgareddau gweithredu** | | | |
| Gwariant net | | **(3,470)** | (3,262) |
| Amorteiddiad ar asedau anghyffyrddadwy | 6 | **17** | 13 |
| Dibrisiant ar asedau hawl i ddefnydd | 7 | **76** | 96 |
| Dibrisiant ar eiddo, offer a pheiriannau | 8 | **41** | 56 |
| Colled ar werthiant asedau nad ydynt yn gyfredol | | **58** | – |
| Lleihad/(Cynnydd) mewn derbyniadau masnach ac asedau cyfredol eraill | 9 | **34** | (3) |
| Cynnydd/(Lleihad) mewn taliadau masnach a thaliadau eraill | 11 | **140** | (124) |
| (Lleihad)/Cynnydd mewn darpariaethau | 13 | **(165)** | 29 |
| **(All-lif) arian net o weithgareddau gweithredu** | | **(3,269)** | (3,195) |
| **Llifoedd arian o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Taliad i gaffael asedau anghyffyrddadwy | 6 | **–** | (242) |
| Taliad i gaffael asedau hawl i ddefnydd | 7,12 | **(22)** | – |
| Taliad i gaffael eiddo, offer a pheiriannau | 8 | **(93)** | – |
| Derbyniadau am werthiant eiddo, offer a pheiriannau | | **–** | – |
| **(All-lif) arian net o weithgareddau buddsoddi** | | **(115)** | (242) |
| **Llifoedd arian o weithgareddau cyllido** | | | |
| Asedau hawl i ddefnydd, Taliadau les: cyfalaf | 12 | **(73)** | (94) |
| Asedau hawl i ddefnydd, Taliadau les: llog | 12 | **(6)** | (5) |
| Llog a dderbyniwyd/(dalwyd) | | **6** | 1 |
| Cyllido gan Weinidogion Cymru | 16 | **3,459** | 3,557 |
| **Cyllido net** | | **3,386** | 3,459 |
| **Cynnydd/(Lleihad) net mewn arian parod ac arian cywerth yn y cyfnod** | | **2** | 22 |
| **Arian parod ac arian cywerth ar ddechrau'r cyfnod** | 10 | **173** | 151 |
| **Arian parod ac arian cywerth ar ddiwedd y cyfnod** | 10 | **175** | 173 |

# Datganiad Newidiadau yn Ecwiti'r Trethdalwyr ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2024

Mae'r nodiadau ar dudalennau 111 i 128 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

| | Nodiadau | £000 |
|---|---|---|
| Balans ar 1 Ebrill 2022 | | (125) |
| **Newidiadau mewn cronfeydd ar gyfer 2022-23** | | |
| (Diffyg) a gadwyd | | (3,266) |
| **Cyfanswm incwm a gwariant a gydnabyddir ar gyfer 2022-23** | | (3,266) |
| Cyllido gan Weinidogion Cymru | 16 | 3,557 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2023** | | **166** |
| **Newidiadau mewn cronfeydd ar gyfer 2023-24** | | |
| (Diffyg) a gadwyd | | (3,470) |
| **Cyfanswm incwm a gwariant a gydnabyddir ar gyfer 2023-24** | | (3,470) |
| Cyllido gan Weinidogion Cymru | 16 | 3,459 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2024** | | **155** |

# Nodiadau'r cyfrifon am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2024

Lluniwyd y cyfrifon hyn yn unol â Government Financial Reporting Manual (FReM) 2023-24 a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF, ac unrhyw Gyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru, gyda chaniatâd y Trysorlys. Mae'r polisïau cyfrifyddol a gynhelir yn y FReM yn gweithredu Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS), wedi'u haddasu neu eu dehongli ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus. Lle bo'r FReM yn caniatáu dewis polisi cyfrifyddol, dewiswyd y polisi cyfrifyddol a ystyrir fwyaf addas ar gyfer amgylchiadau neilltuol Comisiynydd y Gymraeg, er mwyn rhoi barn gwir a theg. Disgrifir isod y polisïau neilltuol a ddilynwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg. Fe'u gweithredwyd yn gyson wrth ddelio â'r eitemau a ystyrir yn berthnasol i'r cyfrifon.

## Sail busnes gweithredol

Nid oes unrhyw fwriad i derfynu'r gwasanaeth a ddarperir gan Gomisiynydd y Gymraeg fel y dangosir gan y cyllid a ddyfarnwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf a diffyg deddfwriaeth sy'n angenrheidiol i ddirwyn Comisiynydd y Gymraeg i ben. Mae Datganiad Sefyllfa Ariannol Comisiynydd y Gymraeg ar 31/03/2024 yn dangos asedau net o £155,000 (31/03/2023: asedau net o £166,000). Pe byddai sefyllfa o rwymedigaethau net, byddai hyn yn adlewyrchu rhwymedigaethau oedd yn ddyledus ar ddiwedd y flwyddyn ariannol honno. I'r graddau na allai'r Comisiynydd eu talu o'i ffynonellau incwm eraill, byddent yn disgyn, yn y pen draw, i'w talu gan Gymorth Grant gan Lywodraeth Cymru. Yn unol â'r confensiynau arferol sy'n berthnasol i reolaeth dros incwm a gwariant, a nodir yn Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru, ni chaiff Cymorth Grant ei dalu cyn bod ei angen, ond nid oes unrhyw reswm i gredu, lle bo angen, na fyddai'r Senedd yn cymeradwyo'r Cymorth Grant ac unrhyw gyllideb adnoddau cysylltiedig ychwanegol. Yn unol â hynny, ystyrir ei bod yn briodol mabwysiadu sail busnes gweithredol ar gyfer y datganiadau ariannol hyn.

# Nodiadau'r cyfrifon am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2024

## 1 Datganiad polisïau cyfrifo

### (1.1) Confensiynau cyfrifo

Lluniwyd y cyfrifon hyn ar sail groniadol yn unol â'r confensiwn cost hanesyddol. Nid yw'r Comisiynydd wedi ailbrisio unrhyw eiddo, offer a pheiriannau nac unrhyw asedau anghyffyrddadwy gan nad yw addasiadau ailbrisio, ym marn y Comisiynydd, yn berthnasol.

### (1.2) Cyllido

Mae Comisiynydd y Gymraeg yn derbyn symiau gan Weinidogion Cymru mewn cysylltiad â gwariant a dynnir wrth gyflawni'r swyddogaethau. Ystyrir y symiau hyn yn rhai ariannu ac fe'u credydir i'r Gronfa Gyffredinol adeg eu derbyn.

### (1.3) Incwm

Cydnabyddir incwm yn y flwyddyn ariannol y darperir y gwasanaeth. Caiff incwm sydd wedi'i anfonebu cyn bod y gwasanaeth wedi'i ddarparu ei drin fel incwm gohiriedig.

### (1.4) Treth ar Werth

Mae Comisiynydd y Gymraeg wedi cofrestru ar gyfer Treth ar Werth. Cydnabyddir Treth ar Werth anadferadwy yn y Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr neu ei gynnwys fel cost ased sefydlog, lle bo'n berthnasol.

### (1.5) Asedau anghyffyrddadwy

Caiff asedau anghyffyrddadwy dros £1,000, gan gynnwys TAW anadferadwy, eu cyfalafu. Mae asedau anghyffyrddadwy yn cynnwys trwyddedau meddalwedd cyfrifiadurol a thrwyddedau eraill. Grwpiwyd nifer o asedau o'r un math gyda'i gilydd wrth bennu a ydynt uwchben neu o dan y trothwy.

Cynhwysir asedau anghyffyrddadwy ar eu cost hanesyddol. Caiff asedau sefydlog anghyffyrddadwy eu hamorteiddio drwy randaliadau cyfartal blynyddol dros eu hoes economaidd defnyddiol amcangyfrifedig, rhwng 3 a 10 mlynedd.

# Nodiadau'r cyfrifon am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2024

(1.6) Eiddo, offer a pheiriannau

Mae eiddo, offer a pheiriannau dros £1,000, gan gynnwys TAW anadferadwy, yn cael eu cyfalafu. Grwpiwyd nifer o asedau o'r un math gyda'i gilydd wrth bennu a ydynt uwchben neu o dan y trothwy.

Cynhwysir eiddo, offer a pheiriannau ar eu cost hanesyddol, gan gynnwys costau fel gwaith gosod y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i ddod â nhw i'r cyflwr gweithio ar gyfer eu defnydd arfaethedig. Caiff eiddo, offer a pheiriannau eu dibrisio drwy randaliadau cyfartal blynyddol dros hyd y les, neu eu hoes economaidd defnyddiol amcangyfrifedig, rhwng 36 a 90 mis.

(1.7) Arian yn y banc ac arian parod

Caiff cyllid a dynnir lawr gan Lywodraeth Cymru ei gadw mewn cyfrif banc masnachol pan gaiff ei dderbyn. Roedd balansau arian y Comisiynydd wedi'u cadw mewn cyfrifon banc masnachol ar ddiwedd y flwyddyn. Ni ddaliwyd unrhyw arian gan Dâl-feistr Cyffredinol EF. Nid yw'r Comisiynydd yn dal balansau arian mân.

(1.8) Darpariaethau

Cydnabyddir darpariaethau yn y Datganiad Sefyllfa Ariannol pan fydd gan Gomisiynydd y Gymraeg rwymedigaeth gyfreithiol neu adeiladol yn deillio o ddigwyddiad yn y gorffennol a bod tebygolrwydd y bydd angen all-lif o fudd economaidd i dalu'r rhwymedigaeth.

(1.9) Pensiynau

Telir i'r Tâl-feistr Cyffredinol symiau priodol i gynrychioli rhwymedigaethau cronedig Pensiwn y Gwasanaeth Sifil am bensiynau a buddiannau tebyg i bersonau a gyflogir gan y Comisiynydd ac am gostau gweinyddol sydd i'w priodoli i'r rhwymedigaethau a'u cyflawni.

Mae gweithwyr cyfredol a blaenorol yn dod o dan ddarpariaethau cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Ceir rhagor o fanylion yn yr Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth ac Adroddiad Staff.

# Nodiadau'r cyfrifon am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2024

(1.10) Buddion cyflogai

Cydnabyddir cyflogau, cyfraniadau yswiriant gwladol, a budd-dal ariannol ac anariannol ar gyfer cyflogeion cyfredol yn y Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr wrth i wasanaethau cyflogeion gael eu cyflawni. Polisi'r Comisiynydd yw cyfrif am absenoldebau tymor byr a ddigolledir (gwyliau blynyddol taladwy) fel rhwymedigaeth (cost cronedig) lle disgwylir setlo'r iawndal absenoldeb o fewn deuddeg mis ar ôl diwedd y cyfnod y mae'r cyflogeion yn cyflawni'r gwasanaeth ynddo.

(1.11) Asedau a rhwymedigaethau hawl i ddefnydd

Cydnabyddir prydlesi gweithredu fel ased hawl i ddefnydd a rhwymedigaeth les ar y fantolen. Mesurir yr ased hawl i ddefnydd ar gost sy'n cyfateb i fesuriad cychwynnol rhwymedigaeth y brydles. Mae asedau hawl i ddefnydd yn cael eu dibrisio drwy randaliadau cyfartal blynyddol o ddyddiad cychwyn y brydles hyd at ddiwedd oes ddefnyddiol, neu ddiwedd cyfnod y brydles, pa un bynnag sydd gynharaf.

Ar y dyddiad cychwyn mesurir rhwymedigaeth y les fel gwerth presennol y taliadau les sydd heb eu talu ar y dyddiad hwnnw, wedi'u disgowntio ar y gyfradd llog a gyhoeddir gan Drysorlys EF mewn perthynas â phrydlesi dan IFRS16.

Yn dilyn y mesuriad cychwynnol, bydd y rhwymedigaeth yn cael ei leihau ar gyfer taliadau a wneir a'u gynyddu ar gyfer llog. Mae rhwymedigaeth y brydles yn cael ei ail fesur i adlewyrchu unrhyw ailasesiad neu addasiad, ac adlewyrchir yr addasiad cyfatebol yn yr ased hawl i ddefnydd.

(1.12) Prydlesi gweithredol

Caiff rhentolion prydlesi gweithredol ar gyfer prydlesi gwerth isel neu sydd â bywyd disgwyladwy o lai na 12 mis eu cyflwyno i'r Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr yn y flwyddyn y maent yn berthnasol iddi.

# Nodiadau'r cyfrifon am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2024

## 2 Gwybodaeth segmentol

Mae gwariant, incwm a llog yn ymwneud yn uniongyrchol â gweithgareddau Comisiynydd y Gymraeg. Mae'r Comisiynydd yn gweithredu yng Nghymru ac yn ymdrin â materion sy'n effeithio ar y Gymraeg a gallu personau yng Nghymru i fyw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg. Dim ond un segment sy'n gweithredu ac fe adlewyrchir hyn yn y Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr, y Datganiad Sefyllfa Ariannol a'r nodiadau cysylltiedig.

## 3 Costau Swyddogion

| | **2023-24** | 2022-23 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Swyddogion cyflogedig | **2,622** | 2,384 |
| Ffioedd aelodau o bwyllgorau | **10** | 13 |
| Costau staff drwy asiantaeth | – | 13 |
| | **2,632** | 2,410 |

Ceir manylion costau swyddogion yn yr Adroddiad Staff ar dudalen 98.

# Nodiadau'r cyfrifon am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2024

## 4 Gweinyddu

Yr oedd costau gweinyddu yn cynnwys:

| | **2023-24** | 2022-23 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Llety – Costau rhent prydlesi swyddfeydd | **15** | 20 |
| Llety - Costau eraill | **107** | 120 |
| Darpariaeth ar gyfer addurno a dadfeiliadau swyddfeydd | **(109)** | 8 |
| Teithio, cynhaliaeth a lletygarwch | **37** | 23 |
| Hyfforddiant a recriwtio | **55** | 42 |
| Cyfreithiol a phroffesiynol | **106** | 157 |
| Technoleg gwybodaeth a thelathrebu | **112** | 116 |
| Cyfathrebu | **14** | 15 |
| Gwasanaethau archwilwyr (tâl yr archwiliad allanol) | **20** | 18 |
| Costau gweinyddu eraill | **61** | 12 |
| | **418** | 531 |

Ni wnaeth yr archwilwyr allanol ymgymryd â gwaith nad oedd yn waith archwilio yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024 (2022-23: £0).

Ceir rhagor o fanylion yn y sylwebaeth ar y perfformiad ariannol ar dudalennau 65 i 66.

# Nodiadau'r cyfrifon am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2024

## 5 Gwariant rhaglenni eraill

Mae'r gwariant yn gysylltiedig â nifer o brosiectau yr ymgymerwyd â hwy. Roedd cyfanswm y gwariant yn ystod y flwyddyn yn £286,000 (2022-23: £145,000).

Mae asedau dan ddatblygiad yn cynrychioli'r System Rheoli Achosion sy'n cael ei ddatblygu

## 6 Asedau sefydlog anghyffyrddadwy

| | Asedau dan ddatblygiad | Meddalwedd | Trwyddedau | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Cost** | | | | |
| Ar 31 Mawrth 2023 | 288 | 73 | 43 | 404 |
| Ychwanegiadau | – | – | – | – |
| Trosglwyddiadau | (51) | 51 | – | – |
| Gwarediadau | – | (10) | – | (10) |
| **Ar 31 Mawrth 2024** | **237** | **114** | **43** | **394** |
| **Amorteiddiad** | | | | |
| Ar 31 Mawrth 2023 | – | 33 | 43 | 76 |
| Cost am y flwyddyn | – | 17 | – | 17 |
| Gwarediadau | – | (7) | – | (7) |
| **Ar 31 Mawrth 2024** | – | **43** | **43** | **86** |
| **Gwerth net yn y llyfrau ar 31 Mawrth 2024** | **237** | **71** | – | **308** |
| Gwerth net yn y llyfrau ar 31 Mawrth 2023 | 288 | 40 | – | 328 |

# Nodiadau'r cyfrifon am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2024

## 6 Asedau sefydlog anghyffyrddadwy (parhad)

| | Asedau dan ddatblygiad £000 | Meddalwedd £000 | Trwyddedau £000 | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|---|---|
| **Cost** | | | | |
| Ar 31 Mawrth 2022 | 46 | 75 | 43 | 164 |
| Ychwanegiadau | 242 | – | – | 242 |
| Trosglwyddiadau | – | – | – | – |
| Gwarediadau | – | (2) | – | (2) |
| **Ar 31 Mawrth 2023** | **288** | **73** | **43** | **404** |
| **Amorteiddiad** | | | | |
| Ar 31 Mawrth 2022 | – | 22 | 43 | 65 |
| Cost am y flwyddyn | – | 13 | – | 13 |
| Gwarediadau | – | (2) | – | (2) |
| **Ar 31 Mawrth 2023** | **–** | **33** | **43** | **76** |
| **Gwerth net yn y llyfrau ar 31 Mawrth 2023** | **288** | **40** | **–** | **328** |
| Gwerth net yn y llyfrau ar 31 Mawrth 2022 | 46 | 53 | – | 99 |

# Nodiadau'r cyfrifon am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2024

## 7 Asedau hawl i ddefnydd

| | Anheddau dan brydles £000 | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|
| **Cost** | | |
| Ar 31 Mawrth 2023 | 273 | 273 |
| Ychwanegiadau | 77 | 77 |
| Gwarediadau | (118) | (118) |
| Addasiadau i'r gwerth | 1 | 1 |
| **Ar 31 Mawrth 2024** | **233** | **233** |
| **Dibrisiant** | | |
| Ar 31 Mawrth 2023 | 96 | 96 |
| Cost am y flwyddyn | 76 | 76 |
| Gwarediadau | (118) | (118) |
| **Ar 31 Mawrth 2024** | **54** | **54** |
| **Gwerth net yn y llyfrau ar 31 Mawrth 2024** | **179** | **179** |
| Gwerth net yn y llyfrau ar 31 Mawrth 2023 | 177 | 177 |

# Nodiadau'r cyfrifon am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2024

## 7 Asedau hawl i ddefnydd (parhad)

| | Anheddau dan brydles £000 | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|
| **Cost** | | |
| Ar 31 Mawrth 2022 | – | – |
| Cyflwynwyd yn y flwyddyn | 554 | 554 |
| Ychwanegiadau | – | – |
| Gwarediadau | – | – |
| Addasiadau i'r gwerth | (281) | (281) |
| **Ar 31 Mawrth 2023** | **273** | **273** |
| **Dibrisiant** | | |
| Ar 31 Mawrth 2022 | – | – |
| Cost am y flwyddyn | 96 | 96 |
| Gwarediadau | – | – |
| **Ar 31 Mawrth 2023** | **96** | **96** |
| **Gwerth net yn y llyfrau ar 31 Mawrth 2023** | **177** | **177** |
| Gwerth net yn y llyfrau ar 31 Mawrth 2022 | – | – |

# Nodiadau'r cyfrifon am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2024

Roedd y gwarediadau yn bennaf oherwydd cau dwy swyddfa, ac adleoli trydydd swyddfa i anheddau llai o faint.

Cyllido asedau: Nid oedd gan y Comisiynydd brydlesi cyllidol na chontractau Menter Cyllid Preifat. Eiddo'r Comisiynydd oedd yr holl asedau a ddatgelwyd uchod.

Nid oedd ymrwymiadau cyfalaf cyfreithiol ar 31 Mawrth 2024 (31 Mawrth 2023: £0).

## 8 Eiddo, offer a pheiriannau

| | Celfi a gosodiadau £000 | Offer swyddfa £000 | Isadeiledd ac Offer TG £000 | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|---|---|
| **Cost** | | | | |
| Ar 31 Mawrth 2023 | 425 | 51 | 206 | 682 |
| Ychwanegiadau | 16 | – | 77 | 93 |
| Trosglwyddiadau | – | – | – | – |
| Gwarediadau | (381) | (39) | (40) | (460) |
| **Ar 31 Mawrth 2024** | **60** | **12** | **243** | **315** |
| **Amorteiddiad** | | | | |
| Ar 31 Mawrth 2023 | 365 | 51 | 158 | 574 |
| Cost am y flwyddyn | 9 | – | 32 | 41 |
| Gwarediadau | (330) | (39) | (35) | (404) |
| **Ar 31 Mawrth 2024** | **42** | **12** | **155** | **211** |
| **Gwerth net yn y llyfrau ar 31 Mawrth 2024** | **16** | – | **88** | **104** |
| Gwerth net yn y llyfrau ar 31 Mawrth 2023 | 60 | – | 48 | 108 |

# Nodiadau'r cyfrifon am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2024

## 8 Eiddo, offer a pheiriannau (parhad)

| | Celfi a gosodiadau £000 | Offer swyddfa £000 | Asedau dan ddatblygiad £000 | Isadeiledd ac Offer TG £000 | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cost** | | | | | |
| Ar 31 Mawrth 2022 | 426 | 55 | 12 | 216 | 709 |
| Ychwanegiadau | – | – | – | – | – |
| Trosglwyddiadau | – | – | (12) | 12 | – |
| Gwarediadau | (1) | (4) | – | (22) | (27) |
| **Ar 31 Mawrth 2023** | **425** | **51** | – | **206** | **682** |
| **Dibrisiant** | | | | | |
| Ar 31 Mawrth 2022 | 353 | 55 | – | 137 | 545 |
| Cost am y flwyddyn | 13 | – | – | 43 | 56 |
| Gwarediadau | (1) | (4) | – | (22) | (27) |
| **Ar 31 Mawrth 2023** | **365** | **51** | – | **158** | **574** |
| **Gwerth net yn y llyfrau ar 31 Mawrth 2023** | **60** | **–** | **–** | **48** | **108** |
| Gwerth net yn y llyfrau ar 31 Mawrth 2022 | 73 | – | 12 | 79 | 164 |

# Nodiadau'r cyfrifon am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2024

## 9 Derbyniadau masnachol ac asedau cyfredol eraill

| | **31 Mawrth 2024 £000** | 31 Mawrth 2023 £000 |
|---|---|---|
| Derbyniadau masnachol | **—** | 17 |
| Rhagdaliadau | **44** | 62 |
| Dyledwyr arall | **3** | 2 |
| | **47** | 81 |

Y symiau sy'n ddyledus ar ôl blwyddyn yw £1,000 (31 Mawrth 2023: £1,000)

## 10 Arian parod ac arian cywerth

| | **2023-24 £000** | 2022-23 £000 |
|---|---|---|
| Balans ar 1 Ebrill | 173 | 151 |
| Newidiadau net mewn balansau arian parod ac arian cywerth | 2 | 22 |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **175** | **173** |

# Nodiadau'r cyfrifon am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2024

## 11 Taliadau masnachol a rhwymedigaethau cyfredol eraill

| | 31 Mawrth 2024 £000 | 31 Mawrth 2023 £000 |
|---|---|---|
| **Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn** | | |
| Treth arall a nawdd cymdeithasol | **46** | 51 |
| Taliadau masnachol | **210** | 73 |
| Croniadau | **141** | 133 |
| | **397** | 257 |

## 12 Rhwymedigaethau hawl i ddefnydd

| | 2023-24 £000 | 2022-23 £000 |
|---|---|---|
| Balans ar 1 Ebrill | **179** | – |
| Cyflwynwyd yn y flwyddyn | **55** | 554 |
| Addasiadau i'r gwerth | **(1)** | (281) |
| Ad-daliadau | **(78)** | (99) |
| Costau cyllido | **6** | 5 |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **161** | 179 |

# Nodiadau'r cyfrifon am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2024

## Dadansoddiad o amseru disgwyliadwy'r rhwymedigaethau

| | **31 Mawrth 2024 £000** | 31 Mawrth 2023 £000 |
|---|---|---|
| O fewn blwyddyn | | |
| Dros flwyddyn ond o fewn pum mlynedd | **39** | 75 |
| Ar ôl pum mlynedd | **122** | 104 |
| | **–** | – |
| | **161** | 179 |

## 13 Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a phridiannau

| | Arall £000 | Cyfreithiol £000 | Dadfeiliadau ac ailaddurno £000 | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|---|---|
| Darpariaeth ar 31 Mawrth 2023 | 8 | 44 | 213 | 265 |
| Darparwyd yn y flwyddyn | 2 | 4 | 24 | 30 |
| Darpariaeth a ddefnyddiwyd yn y flwyddyn | (4) | (33) | (32) | (69) |
| Rhyddhau darpariaethau nas defnyddiwyd | (5) | (11) | (108) | (124) |
| Newid i'r gyfradd disgownt | – | – | (2) | (2) |
| **Darpariaeth ar 31 Mawrth 2024** | **1** | **4** | **95** | **100** |

# Nodiadau'r cyfrifon am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2024



Defnyddiwyd cyfradd ddisgowntio, yn glir o CPI, Trysorlys EF ym mis Rhagfyr 2023, sef 1.88% mewn termau real ar gyfer y dadfeiliadau (2022-23: -0.95%).

Gwneir darpariaethau ar gyfer ail-addurno yn ystod tymor y brydles ac ar gyfer dadfeilio, er mwyn dychwelyd yr adeiladau i'w cyflwr gwreiddiol ar derfyn y brydles. Gall yr ymrwymiadau hyn newid yn sgil gwybodaeth a digwyddiadau yn y dyfodol a allai achosi newid i'r symiau a ddarparwyd ar sail yr amcangyfrif gorau, ar ddiwedd y cyfnod ariannol. Mae'r darpariaethau hyn wedi eu hadolygu a'u diweddaru yn ystod y flwyddyn fel sy'n ofynnol dan IAS 37.

Mae darpariaethau cyfreithiol yn cynnwys costau cyfreithiol mewn perthynas â cheisiadau dan ystyriaeth Tribiwnlys y Gymraeg am adolygiad o benderfyniadau Comisiynydd y Gymraeg neu apelau yn erbyn dyfarniadau'r Comisiynydd. Ceir manylion pellach am y ceisiadau hyn ar wefan **Tribiwnlys y Gymraeg**.

**Dadansoddiad o amseru disgwyliadwy'r rhwymedigaethau**

| | Arall | Cyfreithiol | Dadfeiliadau ac ailaddurno | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 |
| O fewn blwyddyn | 1 | 4 | 12 | 17 |
| Dros flwyddyn ond o fewn pum mlynedd | – | – | 83 | 83 |
| Ar ôl pum mlynedd | – | – | – | – |
| | 1 | 4 | 95 | 100 |

# Nodiadau'r cyfrifon am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2024

## 14 Rhwymedigaethau amodol

Mae'r Comisiynydd yn datgelu rhwymedigaethau amodol yn unol â Safon Cyfrifyddu Rhyngwladol 37 (Darpariaethau, Rhwymedigaethau Amodol ac Asedau Amodol) lle mae rhwymedigaeth posib yn ddibynnol ar ddigwyddiad yn y dyfodol lle bo ansicrwydd yn ei gylch; neu fod rhwymedigaeth bresennol ond nid yw'r taliad yn debygol neu ni ellir mesur y swm yn ddibynadwy.

Nid oedd unrhyw rwymedigaethau amodol ar 31 Mawrth 2024.

## 15 Offerynnau cyllidol

Oherwydd natur gweithgareddau'r Comisiynydd a'r modd y caiff y gweithrediadau eu hariannu, nid yw'r Comisiynydd yn agored i lefel uchel o risg ariannol.

# Nodiadau'r cyfrifon am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2024

**16 Trafodion gyda phartïon cysylltiedig**

Cytunwyd ar Femorandwm o Gydweithio, dyddiedig 5 Awst 2019, rhwng y Comisiynydd a Llywodraeth Cymru. Ystyrir Llywodraeth Cymru yn barti cysylltiedig.

Yn ystod 2023-24 derbyniodd Comisiynydd y Gymraeg arian cyllido refeniw o £3,365,500 (2022-23: £3,316,000) ac arian cyfalaf o £93,600 (2022-23: £241,000) gan Weinidogion Cymru.

Yn y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2024, anfonebwyd costau o £26,400 i Lywodraeth Cymru mewn perthynas â gwasanaethau a roddwyd gan staff ar secondiad (2022-23: £130,000). Roedd £0 yn ddyledus ar 31 Mawrth 2024 (31 Mawrth 2023: £17,000).

Cydnabuwyd costau o £28,900 yn daladwy i Lywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau gosod ar gyfer y swyddfa newydd, a £5,800 ar gyfer rhent a chostau gwasanaethau'r swyddfa.  Roedd £7,500 yn ddyledus ar 31 Mawrth 2024 (31 Mawrth 2023 £0).

**17 Digwyddiadau ers diwedd y flwyddyn ariannol**

Ni chafwyd digwyddiadau ers dyddiad y datganiad sefyllfa ariannol sy'n effeithio ar ddealltwriaeth y datganiadau ariannol hyn.

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

## Cysylltu â ni


**Comisiynydd y Gymraeg**
Uned 2 Bloc C
Doc Fictoria
Ffordd Balaclafa
Caernarfon
LL55 1TH

@comygymraeg
@comygymraeg
ComisiynyddyGymraeg
Comisiynydd y Gymraeg/Welsh Language Commissioner

**E** **post@cyg-wlc.cymru**
**T** **0345 6033 221**

**comisiynyddygymraeg.cymru**